Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Social research

# Gwerthusiad o'r Mesur Dysgu a Sgiliau



## Gwerthusiad o'r Mesur Dysgu a Sgiliau


## Andrew Magee, York Consulting


Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cynulliad Cymru o reidrwydd.


For further information please contact:
Julie Owens
Uwch Ddadansoddwr Ymchwil
Y Gangen Ymchwil a Gwerthuso
Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Uned 6, Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy, Sir Ddinbych
LL17 0LJ
Ffôn: 01745 538540
E-bost: Julie.Owens@wales.gsi.gov.uk



Welsh Assembly Government Social Research, Ebrill 2010
ISBN


© Crown Copyright year

# CYNNWYS

Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| CRYNODEB GWEITHREDOL | | i |
| 1 | cyflwyniad | 1 |
| 2 | effaith y mesur | 9 |
| 3 | gweithio cydweithredol | 28 |
| 4 | oblygiadau o ran adnoddau | 37 |
| 5 | darpariaeth trwy gyfrwng y gymraeg | 49 |
| 6 | Logisteg a ffactorau eraill | 52 |
| 7 | cymorth i ddysgwyr | 65 |
| 8 | casgliadau ac argymhellion | 76 |

ATODIAD A: PAPUR DANGOSYDDION PERFFORMIAD

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### Cyflwyniad

1. Yn Ebrill 2009, comisiynwyd York Consulting (YCL) ar y cyd ag Old Bell 3 gan Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynnal ymchwil a fyddai'n sail ar gyfer gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (y Mesur).

2. Nodau bras yr ymchwil oedd canolbwyntio ar effeithiau tebygol y Mesur ar y Llwybrau Dysgu 14 – 19 oed yn genedlaethol ac asesu'r graddau y mae dewis ehangach yn cael ei sicrhau o ganlyniad i weithredu'r polisi, gyda chefnogaeth y Mesur.

3. Roedd yr ymchwil yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol/aelodau o grwpiau gorchwyl a gorffen;
- adolygu data cwricwlwm a dadansoddiadau cysylltiedig;
- adolygiad o adroddiadau arolygon ardal;
- trafodaethau cychwynnol gyda Chydlynwyr Rhwydwaith 14-19 a staff Llywodraeth y Cynulliad;
- arolwg o Gydlynwyr 14-19 awdurdodau lleol;
- dadansoddiad o'r data ar y nifer sy'n dewis elfennau o'r cwricwlwm;
- ymweliadau astudiaeth achos i chwe ardal awdurdod lleol, yn cynnwys ymgynghoriadau gyda Chydlynwyr Rhwydwaith; staff eraill Awdurdodau Lleol ac arweinwyr colegau; Anogwyr Dysgu; a disgyblion;
- fe wnaethom hefyd adolygu'r Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ym mhob ardal lle gwnaethom gynnal gwaith maes astudiaeth achos.

**Effaith y Mesur**

4. Hyd yn hyn mae'n ymddangos bod effaith cyffredinol y Mesur wedi bod yn gadarnhaol. Arweiniodd y Mesur at gynnydd mewn gweithio trwy bartneriaeth mewn sawl ardal, gan symud gweithio cydweithredol yn ei flaen, rhywbeth yr oedd y rhanddeiliaid yn teimlo yn aml fyddai wedi cymryd llawer mwy i'w gyflawni fel arall.

5. Llwyddodd mwyafrif helaeth yr ysgolion i gyflawni'r gofynion o ran cynigion cwricwlwm CA4 ar gyfer 2009/10. Ar ben hynny, mae bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion (63%) eisoes yn cyflawni disgwyliadau'r Mesur ar gyfer 2012.

6. Mae'r Mesur wedi cael effaith ar ddarparwyr i raddau gwahanol. Ychydig o newidiadau oedd rhaid i rai eu gwneud i fodloni'r gofynion, tra mai ar rai eraill oedd â fawr o brofiad o weithio'n gydweithredol y mae'r Mesur wedi effeithio mwyaf.

7. Mae'r dysgwyr wedi cymryd at y cwricwlwm ehangach mewn niferoedd sylweddol, gyda'r mwyafrif llethol o'r cyrsiau a gynigwyd yn cael eu rhedeg. Dengys y canlyniadau hyn bod galw o du'r dysgwyr am broffil ehangach o gyrsiau.

8. Digwyddodd y datblygiadau diweddar mewn gweithio cydweithredol ac yn y cynigion yn y cwricwlwm er gwaethaf amrywiaeth o sialensiau a phroblemau a wynebir yn lleol.

9. Yn neilltuol, gall amgyffrediad o gymwysterau galwedigaethol ymysg rhieni a Sefydliadau Addysg Uwch gael dylanwad ar faint sydd yn eu dilyn.

**Gweithio Cydweithredol**

10. Rydym wedi canfod bod gwelliant yn y lefel o weithio cydweithredol rhwng darparwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae lle i hyn wella eto.

11. Dechreuodd y darparwyr weld manteision gweithio trwy bartneriaeth wrth i'r cynnig yn y cwricwlwm ehangu ac i'r berthynas rhwng cyrff sy'n bartneriaid wella trwy ddod i ymddiried yn ei gilydd a deall ei gilydd.

12. Fodd bynnag, mae rhai sialensiau o bwys yn dal i fodoli. Mae rhai ysgolion o hyd - yn arbennig felly'r rhai sydd â chyfraddau llwyddiant uchel - nad ydynt wedi derbyn yr ethos o weithio trwy bartneriaeth yn llawn, o bosibl oherwydd nad ydynt wedi cynnig cyrsiau galwedigaethol yn y gorffennol, neu eu bod am gadw safon eu darpariaeth bresennol. Yn ychwanegol, gall ysgolion mewn ardaloedd mwy gwledig ei chael yn arbennig o anodd cydweithredu ag eraill.

13. Mae'r sialensiau eraill yn cynnwys yr oblygiadau o ran adnoddau a logisteg gweithio gyda'i gilydd.

**Oblygiadau o ran Adnoddau**

14. Fe ddarganfu'r ymchwil yn gyson bod darparwyr yn bryderus iawn am oblygiadau costau gweithio trwy bartneriaeth a bodloni gofynion y Mesur.

15. Fe welwyd rhai manteision o ran effeithiolrwydd, gan gynnwys llai o ddyblygu cyrsiau a gynigir mewn ardal. Fodd bynnag, mae costau cydweithredu wedi gorbwyso'r arbedion hyn sydd wedi codi oherwydd cost darparu cludiant a chostau yn gysylltiedig â darpariaeth alwedigaethol.

16. Yn ychwanegol, er bod rhai ardaloedd yn adrodd eu bod wedi gweld arbedion o ran costau trwy gael gwared ar ddosbarthiadau bychan, mae ardaloedd eraill wedi gweld y gwrthwyneb. Yn yr ardaloedd hyn mae'r costau wedi cynyddu oherwydd cynnydd yn y nifer o ddosbarthiadau bach o ganlyniad i'r cynnig galwedigaethol sydd ganddynt: mae'r un nifer o ddisgyblion (neu, mewn rai achosion oherwydd niferoedd llai yn yr ysgol, nifer lai) yn awr yn dilyn mwy o gyrsiau.

17. Mae'r modelau a ddefnyddir i ariannu oddi ar y safle neu'r ddarpariaeth alwedigaethol yn amrywio o ardal i ardal. Gall rhai modelau gynnig cymhelliant i weithio'n gydweithredol trwy wneud costau ymylol cyrsiau yn ddim mewn gwirionedd, gan eu bod yn cael eu hariannu yn ganolog. Mewn modelau eraill, mae'r ariannu yn dilyn y dysgwr, sy'n sicrhau bod yr ariannu yn cael ei gydbwyso rhwng ysgol 'gartref' y disgybl a'r darparwr sy'n 'gwesteia'.

**Ysgolion Cyfrwng Cymraeg**

18. Yn gyffredinol, mae'r Mesur yn effeithio ar y ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr un ffordd ag ym mhob ysgol arall ar draws Cymru, ond mae rhai o'r problemau yn cael eu dwysau oherwydd lleoliad ynysig llawer o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg.

19. Darganfu yr ymchwil enghreifftiau o drefniadau cydweithredol sydd wedi hen sefydlu ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg, ar yr eithaf arall, bod ysgolion oedd wedi cael eu hysgogi i weithio'n gydweithredol am y tro cyntaf oherwydd y Mesur.

20. Fe welsom fod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dueddol o fod yn fwy arloesol yn yr atebion yr oeddent wedi eu darganfod, efallai o ganlyniad i'w lleoliad mwy ynysig a gwledig. Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dueddol o wneud mwy o ddefnydd o athrawon teithiol; cydweithio ar draws ffiniau a chyfleusterau TGC, fel cynadleddau fideo.

21. Fe wnaethom ddarganfod hefyd nad yw asesiadau cyrsiau galwedigaethol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser.

**Logisteg**

22. Nodwyd problemau logisteg, fel amserlennu, cludiant a lleoliad gwledig rhai ysgolion fel rhwystrau sylweddol o ran cydweithio. Nid yw'r problemau yma yn rhai na ellir eu goresgyn ynddynt eu hunain; ond, gyda'i gilydd gallant wneud i weithio cydweithredol ymddangos yn amhosibl i'w gyflawni.

23. Mae’r sialensiau logistaidd sy’n wynebu darparwyr yn gofyn am gydweithio ar lefel leol i ddynodi’r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen i oresgyn yr anawsterau. Mae’r cydweithio hwn yn gofyn am arweiniad cadarn gan y bartneriaeth ac agwedd arloesol, popeth yn bosibl gan aelodau’r rhwydwaith.

24. Daethpwyd o hyd i atebion i lawer o’r problemau cynnar a ddynodwyd ac, mewn amser, bydd atebion eraill yn cael eu canfod i’r problemau sy’n weddill.

25. Darparwyr mewn ardaloedd gwledig sy’n wynebu’r sialensiau logistaidd mwyaf sylweddol. Yr ymateb presennol i’r Mesur gan y rhan fwyaf o ddarparwyr yw cludo disgyblion rhwng sefydliadau. Fodd bynnag, gall costau trafnidiaeth ei wneud yn anghynaladwy yn y tymor hir.

**Cymorth Dysgu**

26. Datblygiad o bwys sydd wedi digwydd mewn Cymorth Dysgu yw cyflwyno’r swyddogaeth Anogwyr Dysgu. Dylai pob unigolyn ifanc rhwng 11-25 oed dderbyn cefnogaeth gan Anogwr Dysgu. Mae’r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi sefydlu’r hawl i Anogwr Dysgu yn gyfreithiol.

27. Darganfuom fod y darparwyr wedi symud y swyddogaeth Anogwr Dysgu ymlaen i raddau amrywiol. Penderfynodd rhai bod eu darpariaeth Cymorth Dysgu bresennol yn cynnwys y swyddogaeth Anogwr Dysgu i’r graddau nad oeddent yn teimlo’r angen i newid yr hyn y maent yn ei wneud eisoes. Mae eraill wedi symud y swyddogaeth Anogwr Dysgu ymlaen yn fwy brwd.

28. Disgrifir enghreifftiau amrywiol o’r sbectrwm o rolau Anogwr Dysgu yn yr adroddiad, gan gynnwys y rhai lle mae’r swyddogaeth Anogwr Dysgu yn swydd amser llawn, ac eraill lle mae’n elfen gymharol fechan o’u swyddi.

**Casgliadau ac Argymhellion**

29. Mae’r Mesur wedi cael effaith gadarnhaol ar weithio cydweithredol yn barod. Cynyddodd y nifer o gyrsiau a gynigir gan ysgolion i fodloni anghenion

gofynion bandiau'r Mesur yn 2009/10. Mae llawer o ysgolion wedi dangos cynnydd sylweddol yn barod i fodloni'r cynnig sy'n ofynnol dan y Mesur y flwyddyn nesaf, a hyd yn oed yn 2012.

30. Y darparwyr hynny nad oedd wedi cymryd fawr o ran mewn gweithio mewn partneriaeth o'r blaen ac a oedd yn medru gweithio gydag eraill yn gymharol hawdd sydd wedi gweld y newid mwyaf ers cyflwyno'r Mesur, gan eu bod wedi cael eu hannog i ddod yn gyfranogwyr mwy gweithredol mewn grwpiau cydweithredol yn lleol.

31. Y pedwar prif argymhelliad sy'n deillio o'r ymchwil yw:

- **Argymhelliad Un: Gwella Casglu Data Cyrsiau**
  - mae'n ofynnol cael data mwy manwl ar y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau i fonitro effaith y Mesur dros y tymor hirach;
- **Argymhelliad Dau: Marchnata Cymwysterau Galwedigaethol**
  - goresgyn pryderon rhieni (a Sefydliadau Addysg Uwch o bosib) am werth cymwysterau galwedigaethol;
- **Argymhelliad Tri: Annog Awdurdodau Lleol i Ddysgu o Arfer Da wrth Weithio mewn Partneriaeth**
  - mae presenoldeb cryf ar ran yr Awdurdodau Lleol mewn rhwydweithiau lleol yn elfen allweddol i gael llwyddiant yn effeithiolrwydd y rhwydweithiau hynny;
- **Argymhelliad Pedwar: Adolygu Effeithiolrwydd y Rôl Anogwyr Dysgu**
  - Mae rôl yr Anogwyr Dysgu yn ymddangos yn amrywiol. Felly, mae adolygu effeithiolrwydd y gwahanol rolau yn bwysig i sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad at gymorth o'r safon uchaf.

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn Ebrill 2009, comisiynodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru York Consulting (YCL), mewn cysylltiad ag Old Bell 3, i gynnal ymchwil fel sail ar gyfer gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (y Mesur).


**Cefndir y Mesur Dysgu a Sgiliau**

**Polisi Llwybrau Dysgu**

1.2 Lansiwyd y Polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn 2004, gan geisio datblygu cymysgedd o fwy o ddewis yn y cwricwlwm a chymorth dysgu o safon uchel sy'n cynorthwyo pobl ifanc i gyflawni eu potensial yn llawn. Mae'r Polisi Llwybrau Dysgu yn cyflawni hyn trwy adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli a hyrwyddo cydweithredu a chydweithio ymhlith y rhai sy'n darparu dysg.

1.3 Y chwe elfen allweddol o'r llwybr dysgu yw:

- **llwybr unigol** – gan gynnwys profiadau dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol mewn lleoliad dysgu a thu allan iddo;
- **dewis ehangach** - cyfeirir at y ddewislen o ddewisiadau i bob dysgwr yn y mesur fel y cwricwlwm lleol, mae'n adlewyrchu'r hawl i ddewis o raglenni o astudiaeth, gan arwain at gymwysterau o'r ystod eang a nodir yn y rhestr gymeradwy;
- **y craidd dysgu** – mae'r craidd yn cynnwys agweddau o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer rhai 14-16 oed mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal fel addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg cysylltiedig â gwaith ac addysg rhyw;
- **anogwr dysgu** – mae'n ofynnol i bob unigolyn 14 – 19 oed gael mynediad at gefnogaeth Anogwr Dysgu i'w cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau dysgu; gwneud gwell defnydd o'u harddulliau dysgu a datblygu rhai eu hunain; gwthio eu datblygiad eu hunain i'r lefel uchaf bosibl;


Ffig: 1.1 Mesur Dysgu a Sgiliau
Fframwaith Deddfwriaethol (Cam Tri)
Llwybrau Dysgu 14-19
Llwybr Unigol
Dewis Ehangach
Y Craidd Dysgu
Anogwr Dysgu
Cefnogaeth Bersonol
CIAG
• Ffurfiol * Heb fod yn ffurfiol * Anffurfiol
• Cwricwlwm lleol
• Pum maes gorfodol
• Ystod ehangach o brofiadau dysgu
• Mynediad
• Sgiliau
• Arddulliau
• Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid
• Partneriaethau Pobl Ifanc
• Gyrfa Cymru
• Anogwr datblygu dysgu
Cydymffurfio â'r Mesur
Dewislen Dewisiadau AALl
Cyfarwyddyd a Phrofiad Ehangach
Cydweithrediad Partner/Darparwr
Rheoleiddio'r Ddewislen Dewisiadau
Cynllun Datblygu Rhwydwaith Dysgu 14-19 Blynyddol

- **cefnogaeth bersonol** - mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn profi problemau personol, cymdeithasol iechyd ac emosiynol ac felly gall y gefnogaeth hon fod yn hanfodol i gynnal eu hymlyniad/presenoldeb;
- **cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd** – mae cefnogaeth ddiduedd yn elfen bwysig a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau pobl ifanc yn y dyfodol.

1.4 Cyflenwyd y polisi Llwybrau Dysgu trwy Rwydweithiau Dysgu 14 -19. Mae 22 o rwydweithiau yng Nghymru, yn seiliedig ar ffiniau awdurdodau lleol. Mae'r Rhwydweithiau 14 – 19 hyn yn bartneriaethau strategol sy'n gosod blaenoriaethau strategol ar gyfer yr ardal dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r Rhwydweithiau 14-19 yn cynorthwyo i sicrhau'r ystod o raglenni a chymorth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at bob elfen o'r Llwybrau Dysgu.

<u>Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol</u>

1.5 Cynhyrchir Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol gan bob ardal Rhwydwaith ac mae'n parhau yn offeryn pwysig i wella deilliannau dysgu trwy sicrhau dewis ehangach yn y cwricwlwm a chymorth o safon uchel i'r dysgwyr.

1.6 Mae'r Cynllun Datblygu Blynyddol yn un o ofynion y cyllid grant sydd ar gael i gefnogi gweithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn lleol. Er bod y Cynllun yn ymdrin â chyfnod o dair blynedd, mae'n rhaid ei gyflwyno yn flynyddol i alluogi Rhwydweithiau 14-19 i gael mynediad at gyllid ychwanegol ar gyfer yr oedran 14-19. Os bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei roi yn y brif-ffrwd, yna ni fydd y Cynlluniau Blynyddol yn ofynnol mwyach.

**Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**

1.7 Mae'r Mesur yn elfen ddeddfwriaethol allweddol o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i drawsnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr trwy Gymru. Mae'r Mesur yn sail i'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn ganolog i Strategaeth '*Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*'[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n sefydlu agenda unigryw Gymreig ar gyfer addysg a hyfforddiant.

1.8 Mae'r Mesur yn cynnwys hawl i ddysgwyr gael mynediad at amrywiaeth eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, ac mae'n gosod dyletswydd ar ddarparwyr i gydweithredu. Disgwylir i'r Mesur ddylanwadu ar y cwricwlwm mewn ysgolion a'r ffordd y mae ysgolion yn gweithredu, yn arbennig yng nghyswllt y ffordd y maent yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn eu hardal.

1.9 Amcanion Adrannau 13 a 32 o'r Mesur yw sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyrsiau astudio yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm lleol. Dylai Awdurdodau Lleol geisio cynnig y mwyaf posibl o gyrsiau ar y cwricwlwm, yn hytrach na dim ond cyrraedd y gofynion sylfaenol.

**Agenda Trawsnewid**

1.10 Cyhoeddwyd dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Drawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn hydref 2008. Nod yr Agenda Trawsnewid yw gwella deilliannau i ddysgwyr, lleihau diffyg gweithgaredd economaidd a gwella lefel sgiliau'r rhai sydd eisoes mewn gwaith.

1.11 Mae'r Agenda Trawsnewid yn cael ei gyrru gan ddatblygiad y Polisi Llwybrau Dysgu 14-19 trwy'r Mesur. Fe wnaeth y fenter adlewyrchu'r farn, er bod cynnydd wedi ei wneud yn y meysydd hyn, nad yw'n gyson ar draws Cymru. Roedd angen mwy o ffocws i ddileu dyblygu ac aneffeithlonrwydd, ac i ddatblygu cydweithredu ar draws y sector.

---

[1] Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, Gorffennaf 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Nodau ac Amcanion yr Astudiaeth**

1.12 Nodau bras yr ymchwil oedd canolbwyntio ar effeithiau tebygol y Mesur ar y Llwybrau Dysgu 14-19 yn genedlaethol (gan gynnwys darparwyr a dysgwyr unigol) ac asesu'r graddau y mae dewis ehangach yn cael ei sicrhau o ganlyniad i weithredu'r polisi, a gefnogir gan y Mesur.

1.13 Amcanion penodol yr astudiaeth oedd asesu'r cynnydd wrth weithredu'r Llwybrau Dysgu 14 – 19, fel y maent yn cael eu nodi yn y Mesur Dysgu a Sgiliau arfaethedig, a'r datblygiadau tebygol hyd at ei gyflwyno'n llawn, gan gynnwys y canlynol:

- effaith y Mesur yn ei nod o ehangu'r dewis yn y cwricwlwm a gwella cymorth i ddisgyblion trwy hyrwyddo cydweithio a chydweithredu ymhlith y darparwyr dysg;
- effaith y Mesur yn ei nod o ysgogi gwelliannau mewn effeithiolrwydd trwy gydweithredu a chydweithio ymhlith darparwyr;
- effaith yr agenda Llwybrau Dysgu 14-19 ar ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/Ddwyieithog mewn meysydd cwricwlaidd a thu hwnt i'r cwricwlwm;
- casglu gwybodaeth ar ffactorau llwyddiant i gael cynaliadwyedd, e.e. enghreifftiau o enillion trwy effeithlonrwydd, o amrywiaeth o rwydweithiau;
- dynodi unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau sydd wedi atal gweithredu'r polisi hyd yn hyn;
- casglu a dadansoddi data ar y cynnydd tuag at weithredu'r cynnig o ddewisiadau yn llawn;
- asesu effaith tebygol newid y dewisiadau oherwydd y polisi ar batrymau gwariant presennol;
- darparu argymhellion ar wybodaeth i gefnogi gweithredu a gwerthuso'r polisi a sut y gellir ymdrin â'r anghenion.

**Dull**

1.14 Roedd yr ymchwil cychwynnol yn cynnwys y gweithgareddau canlynol, fu'n sail i'r cyfnod cyntaf o weithgaredd, yr arolwg gyffredinol o faterion oedd yn dod i'r amlwg:

- cyfweliadau gydag 13 o randdeiliaid/ aelodau grŵp gorchwyl a gorffen allweddol;
- adolygiad o ddata cwricwlwm a dadansoddi cysylltiedig;
- adolygiad o adroddiadau arolygu ardal ar gyfer Wrecsam a Chaerffili;
- trafodaethau gyda Chydlynwyr Rhwydwaith 14-19 a staff Llywodraeth y Cynulliad yng Nghynhadledd Rhwydwaith 14 – 19 yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llandrindod ar 3 Gorffennaf 2009.

1.15 Ers hynny rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau, sydd yn cyfateb i brif waith maes yr ymchwil. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys:

- arolwg o bob Cydlynydd 14 – 19 awdurdod lleol (cwblhawyd gan 20 o'r 22 awdurdod);
- dadansoddiad o ddata'r nifer sy'n dilyn y cwricwlwm yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi ei gasglu gan yr Awdurdodau Lleol;
- ymweliadau astudiaeth achos i chwe ardal awdurdod lleol, yn cynnwys ymgynghoriadau gyda:
  - y Cydlynydd Rhwydwaith/ arweinydd Partneriaeth Awdurdodau Addysg Lleol ym mhob ardal (chwech);
  - chwech o staff Awdurdodau Addysg Lleol neu Rwydwaith arall sy'n cyfrannu at hwyluso gweithio cydweithredol (e.e. ymgynghorwyr 14-19);
  - 14 ysgol a 6 coleg ar draws y chwe ardal astudiaeth achos;
  - 12 Pennaeth ysgol a phedwar Dirprwy Brifathro/Prifathro cynorthwyol (ar draws 14 ysgol);
  - chwe phennaeth coleg neu bennaeth cynorthwyol a dau gynrychiolydd coleg 14 - 19;
  - 10 Anogwr Dysgu; a
  - 10 trafodaeth grŵp ffocws myfyrwyr gyda dros 40 o bobl ifanc i gyd o gymysgedd o ysgolion a cholegau;
- fe wnaethom hefyd adolygu'r Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ymhob ardal y gwnaethom gynnal gwaith maes astudiaeth achos ynddi.

1.16 Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys datblygu papur yn ystyried y dangosyddion perfformiad posibl y gellid eu defnyddio i gefnogi gwerthusiadau yn y dyfodol o'r Mesur Dysgu a Sgiliau. Rhoddir y papur yn Atodiad A.

### Ardaloedd Astudiaethau Achos

1.17 Dewiswyd yr ardaloedd astudiaethau achos i fod yn gynrychioliadol o bedwar rhanbarth Cymru, bandiau'r Mesur Dysgu a Sgiliau a chyd-destunau trefol/gwledig (**Tabl 1.1**):

| Tabl 1.1: Ardaloedd Astudiaethau Achos | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyd-destun** | **Rhanbarth** | **Band**[2] | **System ôl 16** |
| Caerffili | Trefol/Gwledig | De Ddwyrain | A | Cymysg, colegau ac ysgolion gyda dosbarth 6 |
| Caerdydd | Trefol | De Ddwyrain | A | Cymysg, colegau ac ysgolion gyda dosbarth 6 |
| Gwynedd | Gwledig | Gogledd | C | Dwy ardal, un yn drydyddol ac un yn gymysg gydag un coleg ac ysgolion â dosbrth 6 |
| Castell-nedd Port Talbot | Trefol/Gwledig | Gorllewin | B | Trydyddol (dwy ysgol gyda dosbarth 6) |
| Sir Benfro | Gwledig | Gorllewin | B | Cymysg, colegau ac ysgolion gyda dosbarth 6 |
| Powys | Gwledig | Canolbarth | C | Cymysg, colegau ac ysgolion gyda dosbarth 6 |

### Strwythur yr Adroddiad

1.18 Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- **Mae Adran 2** yn gwerthuso'r effaith y mae'r Mesur wedi ei gael ar ddarpariaeth gydweithredol, gyda dadansoddiad o'r cynnig o ran cwricwlwm a'r nifer o ddisgyblion sy'n dilyn y cyrsiau;

[2] Mae'r trefniant bandio yn cydnabod pa mor barod y mae'r rhannau o Gymru o ran dewis ehangach i ddisgyblion. Roedd yr Awdurdodau Lleol a roddwyd ym Mand A yn cael eu hystyried 'yn fwy parod' i fodloni gofynion y Mesur o ran cynigion ar y cwricwlwm; roedd y rhai ym Mand C ymhellach oddi wrth hynny.

- **Mae Adran 3** yn disgrifio'r newidiadau mewn gweithio cydweithredol sydd wedi digwydd a'r sialensiau sydd wedi cael eu hwynebu wrth weithio mewn partneriaeth;
- **Mae Adran 4** yn tanlinellu'r oblygiadau yng nghyswllt adnoddau sydd wedi deillio o'r gweithio cydweithredol o ran arbedion effeithlonrwydd a chostau ychwanegol;
- **Mae Adran 5** yn canolbwyntio ar y sialensiau a wynebir wrth gyflenwi darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Mae Adran 6** yn ystyried y gofynion logistaidd o ehangu'r dewis yn y cwricwlwm, gan gynnwys darpariaeth oddi ar y safle;
- **Mae Adran 7** yn darlunio rôl Cymorth i Ddysgwyr, ac Anogwyr Dysgu yn arbennig;
- **Mae Adran 8** yn cynnig argymhellion ar gyfer datblygu a gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau yn y dyfodol.

# 2 EFFAITH Y MESUR

2.1 Mae'n ymddangos bod effaith y Mesur hyd yn hyn wedi bod yn un cadarnhaol yn gyffredinol. Arweiniodd y Mesur at gynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth mewn sawl maes, gan ddwyn gweithio cydweithredol yn ei flaen yn aml, rhywbeth yr oedd y rhanddeiliaid yn aml yn teimlo y byddai wedi cymryd rhagor o amser i'w gyflawni fel arall.

2.2 Roedd gofynion dewisiadau'r cwricwlwm CA4 ar gyfer 2009/10 wedi eu bodloni gan fwyafrif helaeth yr ysgolion. Yn ychwanegol roedd bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion (63%) eisoes wedi cyrraedd disgwyliadau'r Mesur ar gyfer 2012[3].

2.3 Mae'r datblygiadau diweddar o ran gweithio cydweithredol a'r dewisiadau yn y cwricwlwm wedi digwydd er gwaethaf amrywiaeth o sialensiau a phroblemau a wynebwyd yn lleol.

2.4 Mae'r adran hon yn cynnwys:

- barn ar effaith gyffredinol y Mesur hyd yn hyn;
- dadansoddiad o'r cwricwlwm a gynigir gan ddarparwyr ar draws Cymru;
- dadansoddiad o'r data ar y niferoedd sy'n dewis y cyrsiau; a
- chyflwyniad i'r problemau sy'n effeithio ar y nifer sy'n dewis y cyrsiau sydd ar gael.

### Effaith y Mesur

2.5 Cofnodwyd barn amrywiol iawn gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar yr effaith y mae'r Mesur wedi ei gael. Yn gyffredinol, mae'n amlwg bod y Mesur wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth gydweithredol, ond, nid y Mesur yw'r unig ffactor sydd wedi cael effaith ar weld darparwyr yn gweithio yn fwy cydweithredol a chynnig amrywiaeth fwy eang o gyrsiau.

2.6 Er y gallai'r darpariaethau a amlinellir yn y Mesur fod wedi digwydd yn y pendraw, mae'r Mesur wedi sicrhau bod y newid wedi digwydd ynghynt. Er enghraifft, mae 19 o'r 20 o gydlynwyr rhwydwaith oedd yn ymateb i'r arolwg yn priodoli'r cynnydd yn y dewis ar y cwricwlwm i'r Mesur, i raddau o leiaf, a dau o'r rhain yn tadogi unrhyw gynnydd yn llwyr i'r Mesur (**Tabl 2.1**):

[3] Data Cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru.

| **Tabl 2.1: ‘I ba raddau y gall unrhyw gynnydd yn y dewis ar y cwricwlwm gael ei briodoli i’r Mesur Dysgu a Sgiliau?’** | |
|---|---|
| Yn llwyr | 2 |
| Yn rhannol | 17 |
| Cyfyngedig | 1 |
| Dim, fe fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y Mesur | 0 |
| Ddim yn gwybod | 0 |

Arolwg o Gydlynwyr 14 – 19 Awdurdod Lleol

2.7 Roedd y Mesur i bob pwrpas yn arwydd o fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (yn ystod y cyfnod datblygu o’r cyhoeddiad gwreiddiol hyd heddiw). Rhoddodd arwydd clir i bob ysgol a darparwr o’r pwysigrwydd y mae APADGOS yn ei roi i gynyddu gweithio cydweithredol ac na fyddai’r ymdrech i gynyddu cydweithredu o’r fath yn pylu. Teimlai rhanddeiliaid y buom yn ymgynghori â nhw bod y Mesur wedi ‘cryfhau braich’ awdurdodau lleol a rhwydweithiau 14 - 19.

2.8 Pan ofynnwyd iddynt esbonio i ba raddau y gallai unrhyw gynnydd yn y dewis yn y cwricwlwm gael ei briodoli i’r Mesur, dywedodd rhai cydlynwyr bod y Mesur wedi bod yn ‘*gatalydd* ’ dros newid neu ei fod wedi ‘*canolbwyntio’r meddwl* ’ (Pedwar ymatebydd).

> *“Mae’r dymuniad i ehangu’r dewis wedi bod yno erioed a gwneud iddo gyfateb yn well i anghenion y dysgwyr. Mae’r Mesur wedi gweithredu fel catalydd i ymdeimlad o fwy o frys yn y broses a chosb os nad yw partneriaeth yn llwyddo.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)
>
> *“…yn ddiamau mae’r Mesur wedi arwain at gynnydd yn y dewisiadau ar y cwricwlwm a hynny ar ben momentwm oedd yn bodoli yn barod i ehangu’r dewis hwnnw.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

2.9 Fodd bynnag, fe wnaeth un ymatebydd arall i’r arolwg rybuddio y gall cyfraniad y Mesur at gynyddu’r dewis yn y cwricwlwm fod yn gyfyngedig:

*"Roedd llawer o'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen cyn y Mesur a byddai wedi digwydd beth bynnag o ystyried bod niferoedd yn yr ysgolion yn gostwng, y pwysau ar y pwrs cyhoeddus a'r cyfeiriad yr oedd awdurdod lleol rhagweithiol yn teithio iddo o ran dysgu cydweithredol."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

Amgyffrediad Gwahanol yn yr Un Ardaloedd

2.10 Yn yr un ardaloedd astudiaeth achos, roedd gan aelodau o ysgolion a'r rhwydwaith farn wahanol ar effaith y Mesur. Er enghraifft, roedd un cydlynydd ardal o'r farn bod y Mesur yn offeryn pwysig gan ei fod yn anfon neges o ran pwysigrwydd cydweithredu a bod ei natur ddeddfwriaethol hefyd yn atgyfnerthu'r pwynt na fyddai'r ymdrech i annog cydweithredu yn pylu.

*"Efallai bod rhai o'r ysgolion yn yr ardal wedi meddwl bod yr agenda 14 – 19 yn ddim byd mwy na malu awyr ac y byddai'n diflannu pe byddent yn ei anwybyddu, ond fe wnaeth y Mesur newid hynny."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

2.11 Ond, teimlai un o'r ysgolion yn yr ardal hon nad y Mesur oedd y prif yrrwr iddynt gydweithio. Yn hytrach, roeddent yn teimlo bod y cynnydd diweddar mewn cydweithredu wedi digwydd er mwyn atal y gystadleuaeth a ddeuai o du Dosbarthiadau Chwech a cholegau o'r tu allan i'w hardal.

*"I ni, nid oedd gan y gyrrwr o ran cydweithredu fawr iawn i'w wneud â'r orfodaeth gyfreithiol ond popeth i'w wneud â chystadleuaeth o'r ochr draw i'r ffin."* (Pennaeth Ysgol)

Amser ac Amynedd yn ofynnol i weld Newidiadau yn Digwydd

2.12 Nododd ymatebwyr yr arolwg a'r rhanddeiliaid y byddai bwlch amser rhwng gweld y cynnydd mewn gweithio cydweithredol a gweld mwy o ddewisiadau ar y cwricwlwm. Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai fod angen rhywbeth i gymell disgyblion i'w dilyn yn y tymor byr cyn y byddai crynhoad mawr o alw yn cael ei sefydlu a fyddai'n gwneud y ddarpariaeth ar y cyd yn gynaliadwy. Mewn un ardal dywedodd yr Awdurdod Addysg Lleol a Chadeirydd y Rhwydwaith 14-19 y byddai'n cymryd amser i effaith y Mesur gael ei weld yn y newidiadau o ran y nifer fyddai'n dilyn cyrsiau.

> *"Neges allweddol gennym ni i Llywodraeth y Cynulliad yw bod angen amynedd yn awr i gael y budd ar y buddsoddiad o ran y galw a'r nifer sy'n dilyn y cyrsiau. Mae'n wirioneddol raid iddynt (*Llywodraeth Cynulliad Cymru) *beidio ymateb yn rhy gyflym ar sail data sy'n dangos mai niferoedd bychan sy'n dilyn cyrsiau i gychwyn."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

2.13 Mae'r arwyddion cynnar o'r llinynnau gwahanol o waith maes yn dangos bod y Mesur yn cael effaith ar weithio cydweithredol a'r dewis yn y cwricwlwm y mae hynny yn arwain ato. Fodd bynnag, gall gymryd peth amser i fanteision llawn gweithio cydweithredol gael eu gwireddu wrth i'r sialensiau sy'n wynebu ei gyflawni yn lleol gael eu goresgyn.

**Dylanwad ar Wahanol Ddarparwyr**

2.14 Mae effaith y Mesur yn debygol o fod yn fwy ar wahanol ddarparwyr. O ystyried ysgolion uwchradd, er enghraifft, bydd anghenion y Mesur yn effeithio mwy ar ysgolion llai mewn ardaloedd mwy gwledig nag ar ysgolion mawr mewn ardaloedd trefol.

<u>Ysgolion Llai, Gwledig</u>

2.15 Roedd barn gan rai o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy bod dylanwad y Mesur yn debygol o fod yn fwy ar yr ysgolion hynny sydd bellaf oddi wrth fodloni ei ofynion. Roedd y darparwyr hynny yn fwy tebygol o fod yn ysgolion uwchradd llai, gwledig lle'r oedd cydweithredu heb ddatblygu i'r un graddau.

> *"Roedd y Mesur yn yrrwr i'r ysgolion oedd dan fwyaf o fygythiad ganddo. Nid oes gan ysgolion llai, gwledig y niferoedd na'r cryfder i fedru ehangu eu cwricwlwm tra bod ysgolion mwy yn medru addasu a manteisio ar arbedion oherwydd maint yn haws."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

2.16 Tra bod rhai ysgolion wedi gweld y Mesur fel y sbardun ar gyfer eu hymdrechion cydweithredol, roedd eraill, yn anffodus wedi ei weld fel bygythiad.

> *"Yn y gorffennol mae'n rhaid i chi gofio bod yr ysgolion yma wedi bod yn hollol annibynnol. Cyn y ddeddfwriaeth, roedd y cyfrifoldeb am y cwricwlwm i gyd gan y pennaeth. Mae'r Mesur wedi cael gwared ar beth o'r annibyniaeth hwnnw ac felly, yn anffodus, mewn rhai achosion yr hyn yr ydych chi'n ei gael ar unwaith yw ofn. Yr her i ni yn yr ALL yw rheoli hynny a gwneud iddo ddigwydd."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

<u>Ysgolion Cyfrwng Cymraeg</u>

2.17 Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn grŵp unffurf. Fe welsom fod y Mesur wedi cael effaith i raddau gwahanol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg gan ddibynnu ar eu cefndir a'u hanes o weithio cydweithredol. Roedd gan rai ysgolion cyfrwng Cymraeg drefniadau partneriaeth oedd wedi hen sefydlu gydag ysgolion/colegau eraill cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, tra bod eraill yn cael eu hannog i lunio partneriaethau oherwydd y Mesur.

<u>Ysgolion Mwy gyda Chweched Dosbarth</u>

2.18 Ar ben arall y sbectrwm, fe ddywedodd rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrthym eu bod yn disgwyl i'r Mesur gael llai o ddylanwad ar rai o'r darparwyr mwy, yn arbennig y rhai sydd mewn ardaloedd mwy trefol. Mae gan ysgolion mwy fwy o gyfle i ddiwallu anghenion y Mesur, heb orfod gwneud cymaint o waith cydweithredol gydag ysgolion eraill. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn adlewyrchu gofynion y Mesur i'r dewisiadau yn y cwricwlwm fod mor fawr â phosibl. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu tuedd i gyflawni'r lleiafswm o ran gofynion cwricwlwm y Mesur.

2.19 Mae peth tystiolaeth bod ysgolion mwy yn datblygu eu trefniadau eu hunain; er enghraifft, yn cyflenwi cyrsiau eu hunain trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na chydweithio gydag ysgolion a cholegau eraill.

Ysgolion â Ffocws Academaidd

2.20 Mae'n debyg mai ysgolion sydd yn hanesyddol wedi cynnig cwricwlwm academaidd ei ffocws, gydag ychydig iawn o ddarpariaeth alwedigaethol, fydd angen y newid diwylliannol mwyaf i fodloni'r Mesur. Mae tuedd i ddisgyblion a rhieni beidio cael yr un parch at gymwysterau galwedigaethol ag sydd ganddynt at y llwybr academaidd 'traddodiadol' ac mae'r ysgolion eu hunain yn annhebygol o fod wedi cymryd rhan mewn llawer o waith cydweithredol o'r blaen. Efallai y bydd angen newid diwylliant ymhlith ysgolion i ystyried eraill fel partneriaid posibl, yn hytrach na chystadleuwyr.

**Y Dewis ar y Cwricwlwm**

**Gofynion Cyfnod Allweddol 4**

2.21 Nododd Rheoliadau (Cwricwlwm Lleol i Ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) Addysg (Cymru) 2009 (y rheoliadau cwricwlwm lleol) bod rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnwys o leiaf 30 cwrs a sgôr o 780 pwynt cwricwlwm[4] o leiaf erbyn 2012, gan ymgorffori pum cwrs astudiaeth galwedigaethol o leiaf.

2.22 Yn y cyfnod yn arwain at weld targed 2012 yn dod i rym, mae'r ardaloedd wedi cael eu gosod mewn bandiau gwahanol, gan adlewyrchu eu lefel o ddatblygiad tuag at gyrraedd y gofyn ar gyfer 2012. Roedd yr ardaloedd mwyaf datblygedig (Band A) wedi cael eu targedu i gyflawni dewis o 28 cwrs yn 2009/10; byddant yn cyrraedd yr hawl 30 cwrs llawn sydd i'r Mesur yn 2010. Bydd Band B yn cyrraedd 28 cwrs yn 2010 (o 26 yn 09/10) a bydd Band C yn codi i 26 (o 24 yn 09/10). Bydd gofynion pob band yn codi o ddau gwrs bob blwyddyn nes cyrhaeddir y marc 30 cwrs.

**Cyrraedd Gofynion Dewis Cwricwlwm CA4**

2.23 Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009/10, fe wnaeth mwyafrif llethol yr ysgolion (93%) gyrraedd eu gofynion o ran y dewis ar y cwricwlwm. Mae hyn yn arwydd cryf bod yr ysgolion yn debygol o gyrraedd y targed ar gyfer 2012.

[4] Dyfernir pwyntiau cwricwlwm yn ôl y cyrsiau astudio a gynigir. Er enghraifft, 20 pwynt yw gwerth TGAU Lefel1/Lefel 2 mewn Mathemateg. Nodir gwerth pwyntiau pob cwrs astudio yn y Gronfa Ddata o Gymwysterau a Gymeradwywyd yng Nghymru (www.daqw.org.uk).

| Tabl 2.2 Cyrraedd Gofynion y Band o Ran Dewisiadau | | |
|---|---|---|
| Na | 16 | 7% |
| Do | 206 | 93% |
| **Cyfanswm** | **222** | |

Ffynhonnell: Data Cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.24 Roedd yr ysgolion y gofynnwyd iddynt ddarparu mwy o gyrsiau yn 2009 yn fwy tebygol o fod yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y targed; fodd bynnag, fe wnaeth mwyafrif llethol yr ysgolion gyrraedd eu gofynion. O'r 16 ysgol nad ydynt yn cyrraedd gofynion eu band ar hyn o bryd, roedd gofyn i 13 ohonynt ddarparu lleiafswm o 28 cwrs yn 2009/10 (Band A). Roedd y tair ysgol arall ym Mand B, yr oedd hi'n ofynnol iddynt gynnig 26 cwrs eleni.

2.25 Disgwylir y bydd yr ysgolion hynny y gofynnwyd iddynt gynnig y nifer fwyaf o gyrsiau yn fwy tebygol o beidio cyrraedd y targed. O ystyried bod gweithio cydweithredol ond newydd ddechrau datblygu, mae'r nifer o ysgolion nad ydynt yn cyrraedd eu gofyn yn ymddangos yn isel iawn. Dylai hyn gael ei fonitro yn ofalus iawn dros y ddwy flynedd nesaf i sicrhau bod ysgolion yn parhau i symud ymlaen tuag at gyrraedd y Mesur.

2.26 Ar hyn o bryd, mae ychydig dros dri chwarter yr ysgolion (76%) eisoes yn cyrraedd y gofyn cwricwlwm ar gyfer CA4 ar gyfer 2010/11 ac mae bron i ddwy ran o dair (63%) yn cyrraedd y gofyn ar gyfer 2012[5] (ar sail y nifer o gyrsiau a gynigiwyd yn y flwyddyn ariannol 2009/10 a'r gofyn am gyrsiau i'w cynnig yn 2010/11).

### Cynnydd Diweddar yn y Dewisiadau CA4

2.27 Rhwng 2008 a 2009 gwelwyd cynnydd cyflym yn y nifer o gyrsiau a gynigwyd gan ddarparwyr CA4 ar draws Cymru. Fe gynyddodd y nifer o ddarparwyr sy'n cyrraedd y gofyn ar gyfer eu Band am y nifer o gyrsiau y maent yn eu cynnig o 71 yn 2008 (32%) i'r mwyafrif llethol yn 2009 (201, 90%). Dangosir y newid yn y nifer o ddarparwyr sy'n cyflawni gofynion y Mesur ar gyfer 2009 yn **Nhabl 2.3** isod.

[5] Data Cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru

| Tabl 2.3 Darparwyr sy'n Cyrraedd y Gofyn o ran Dewisiadau ar gyfer eu Band: 2008 v 2009[6] | | |
|---|---|---|
| | 2008 | 2009 |
| Do | 71 | 201 |
| Naddo | 120 | 21 |
| Amh | 32 | 1 |
| **Cyfanswm** | **223** | **223** |

2.28 Yn ychwanegol, wrth edrych yn fras ar y cyrsiau CA4 a gynigir ar draws Cymru, mae'n ymddangos bod cynnydd o 50% wedi bod yn y cyrsiau a gynigir i ddysgwyr o 2008 i 2009 o 4,654 i 6,985. Roedd y darparwyr yn cynnig 24.4 o gyrsiau i ddysgwyr ar gyfartaledd yn 2008; fe neidiodd y ffigwr hwn i 34.5 yn 2009[7].

2.29 Efallai nad yw'r cynnydd cyflym yn y nifer o gyrsiau a gynigir i ddysgwyr o ganlyniad i gynnydd cyfatebol yn y ddarpariaeth ar yr un safleoedd. Yn hytrach, gall adlewyrchu cynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth, a thrwy hynny mae pobl ifanc yn awr yn cael mynediad at gyrsiau sy'n bodoli oedd eisoes yn cael eu cynnig ar safleoedd eraill.

2.30 Fel y nodir uchod, mae rhai o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy a'r rhanddeiliaid wedi nodi y byddai'r newid yn y dewis ar y cwricwlwm wedi digwydd heb y Mesur. Fodd bynnag, rydym yn teimlo y byddai'n annhebygol iawn y byddai'r newid wedi digwydd mor gyflym ag yr ydym wedi ei weld dros y flwyddyn ddiwethaf heb i'r Mesur fod yn ei le ac i'r darparwyr fod yn ymwybodol ei fod yn dod i rym.

---

[6] Seiliedig ar Ddata Cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru

[7] Nid yw dadansoddiad pellach ar y dewisiadau a'r rhai sy'n dewis cyrsiau galwedigaethol neu ddarpariaeth oddi ar y safle wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd pryderon pa mor gadarn yw'r data. Bydd casglu'r data hwn, a sicrhau ei fod yn gadarn yn allweddol wrth fonitro llwyddiant y Mesur a'r polisi Llwybrau Dysgu yn y tymor hir.

### Y Nifer sy'n Dilyn Cyrsiau'r Cwricwlwm

2.31 Yn ystod y gwaith maes astudiaethau achos roedd trafodaeth helaeth ar hygrededd y dewis ar y cwricwlwm a gynigir i fyfyrwyr. Mae'r nifer sy'n dilyn y cyrsiau a gynigir ar y cwricwlwm yn awgrymu bod y dewisiadau yn cael eu dilyn yn eang gan y dysgwyr. Isod, rydym yn cynnig peth dadansoddiad o'r data ar y nifer sy'n dilyn y cyrsiau cyn disgrifio'r farn a roddwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw.

### Data ar y nifer sy'n Dilyn y Cyrsiau

2.32 Mae'r data ar y nifer o gyrsiau sy'n cael eu dilyn gan ddysgwyr ym mhob ysgol yn awgrymu bod y dewisiadau ar y cwricwlwm yn cael eu dewis yn eang a'u bod yn rhai 'gwirioneddol'. Fe wnaethom edrych ar y nifer o gyrsiau sy'n cael eu dilyn gan ddysgwyr mewn ysgolion a darganfod bod 189 (92%) o ysgolion allan o'r 206 sy'n cyrraedd gofynion eu band o ran y dewisiadau, â dysgwyr wedi dilyn y lleiafswm o gyrsiau o leiaf.

2.33 Mae'r canlyniadau yma o ran y nifer sy'n dilyn y cyrsiau yn gadarnhaol iawn ac yn dangos bod galw o du'r dysgwyr am broffil ehangach o ran cyrsiau. Her sy'n wynebu cynllunwyr cwricwlwm yw sicrhau bod dysgwyr yn dymuno'r cyrsiau ychwanegol sy'n cael eu dwyn ar y cwricwlwm dros y ddwy flynedd a hanner nesaf. Gall hyn ofyn am ymchwil ar alw gan ddysgwyr yn lleol i ddynodi eu dewisiadau o ran cwricwlwm.

**Enghraifft**: Cafodd Rhwydwaith 14 – 19 Wrecsam gydnabyddiaeth yn arolwg Estyn o ran eu bod wedi ymchwilio i gyrsiau ychwanegol a'u darparu yn unol â'r gofyn. Fodd bynnag, roedd ysgolion yn parhau i gynllunio eu cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 yn annibynnol heb roi ystyriaeth ddigonol i'r hyn sydd ar gael mewn lleoliadau eraill yn y Rhwydwaith:

"Nid yw'r holl ddysgwyr yn yr ysgolion gwahanol yn cael cyfleoedd cyfartal i ddilyn y llwybrau sydd yn gweddu orau i'w anghenion."

**Barn ar y nifer sy'n Dilyn Cyrsiau**

2.34 Mae tystiolaeth, yn y rhan fwyaf o ardaloedd lle gwnaeth Cydlynwyr Rhwydwaith fynegi barn, bod y dewis ehangach yn arwain at weld nifer uwch yn dilyn y cyrsiau (**Tabl 2.4 a Thabl 2.5**). Adroddodd cydlynwyr rhwydwaith hefyd bod myfyrwyr yn fwy agored i ddewisiadau gwahanol nag yr oeddynt cynt wrth i nifer ehangach o gyrsiau gael eu dilyn gan ddysgwyr.

**Tabl 2.4: 'I ba raddau y byddech yn cytuno neu yn anghytuno y bydd unrhyw newidiadau i'r dewisiadau yn arwain at nifer uwch yn dilyn y dewis cydweithredol?'**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n Gryf | 2 |
| Cytuno | 9 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 6 |
| Anghytuno | 2 |
| Anghytuno yn Gryf | 0 |
| Ddim yn Gwybod | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

**Tabl 2.5: 'I ba raddau y byddech yn cytuno neu'n anghytuno bod dysgwyr yn fwy agored i ddewisiadau gwahanol nag yr oeddynt ddwy flynedd yn ôl?'**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n Gryf | 1 |
| Cytuno | 15 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 3 |
| Anghytuno | 1 |
| Anghytuno yn Gryf | 0 |
| Ddim yn Gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

2.35 Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr a fyddai'r dewis ehangach ar y cwricwlwm yn arwain at weld nifer ehangach yn dilyn cyrsiau. Roedd barn, er bod y cyrsiau yn cael eu cynnig, efallai na fyddai gan y dysgwyr ddiddordeb mewn rhai o'r ychwanegiadau, neu na fyddent yn awyddus i ddewis y rhain oherwydd amrywiaeth o ffactorau.

2.36 Byddai'n bosibl, er enghraifft, i ysgol gynnwys rhestr hir o gyrsiau galwedigaethol dan un golofn o ddewisiadau a dim yn unman arall ar y ddewislen. Wrth wneud hyn, byddai'r ysgol wedi cynyddu'r ystod o bynciau fyddai'n ymddangos fel pe baent yn cael eu cynnig, ond na fyddai disgyblion unigol, mewn gwirionedd, yn medru dewis mwy nag un ohonynt.

2.37 Roedd un o'r ysgolion y buom yn ymgynghori â hi wedi gweld y dewisiadau ar y cwricwlwm yn ehangu yn sylweddol ar yr un pryd ag y maent wedi lleihau'r nifer o gyrsiau y maent yn eu cynnig yn fewnol. Fodd bynnag, gall y dewis ehangach ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyrwyr gyfaddawdu o ran eu hoff ddewis o bynciau ar adegau.

> *"Mae dewis llawer ehangach o bynciau a chyfuniadau i bobl ifanc yn awr. Mae gennym Fagloriaeth Cymru ar Lefel 3, na fyddem wedi medru ei gynnig o'r blaen. Mae gweithio gyda'n gilydd wedi datrys rhai o'n problemau staffio; rydym wedi medru rhesymoli a phenderfynu peidio â rhedeg rhai cyrsiau....Mae gennym ddosbarthiadau o feintiau hyfyw."* (Pennaeth Ysgol 11-18)

> *"Mae ein system yn caniatáu dewis i ddisgyblion o fewn y blociau y maent yn eu dewis. Gall fod yn gyfyng mewn rhai ffyrdd. Er enghraifft, os oes un dewis yr ydych wirioneddol am ei wneud yna mae'n rhaid i chi gymryd un o'r dewisiadau eraill yn y bloc hwnnw – na fydd o ddiddordeb i chi efallai. Felly mae ychydig o benbleth yn y fan yna."* (Pennaeth Ysgol 11-18)

2.38 Roedd barn hefyd bod newid y cwricwlwm oedd yn cael ei gynnig gan yr ysgol gartref yn CA4 a CA5, yn cael effaith anuniongyrchol trwy'r ysgol gyfan. Adroddodd un ysgol am ei phryderon am symud rhai o'r staff o'r ysgol gan ei fod yn anfon neges i'r ysgol gyfan am y pwyslais ar y meysydd gwaith hynny. Er enghraifft, os bydd ysgol yn penderfynu nad oes arnynt angen athro Daearyddiaeth, am fod darparwr arall yn cyflwyno'r cwrs Lefel A Daearyddiaeth, mae oblygiadau yn is i lawr yr ysgol i ddysgwyr yn CA3. Anfonir y neges nad yw Daearyddiaeth yn bwnc sy'n cael blaenoriaeth yn yr ysgol, ac felly mae gan ddysgwyr lai o ddiddordeb ynddo ac ni fyddant yn ei ddewis pan fyddant yn cyrraedd CA4/5.

Dewisiadau sy’n rhith?

2.39 Adroddodd ysgolion mewn un ardal bryder y gall eu cynnig i fyfyrwyr fod yn un ‘rhithiol’. Cyfyngir yr ysgolion i nifer benodol o leoedd ar bob cwrs a gynigir gan y coleg lleol. Adroddodd dwy ysgol bod y galw gan ddisgyblion yn llawer uwch na’r nifer o leoedd a ddyrannwyd i’w hysgol yn y coleg. Felly, roedd yn rhaid i’r ysgolion ‘roi enwau’r disgyblion mewn het’ er mwyn penderfynu pwy fyddai’n medru manteisio ar y cyfleoedd.

2.40 Roedd un ysgol wedi cael dyraniad o dri lle ar gwrs Peirianneg, ond, roedd 15 o ddisgyblion yn yr ysgol am ddilyn y cwrs. Penderfynodd yr ysgol gyflwyno’r cwrs ei hun, yn hytrach na siomi eu dysgwyr, ond, fe fynegodd Cydlynydd y Rhwydwaith bryder am safon a chynaliadwyedd y cwrs fyddai’n cael ei ddarparu.

2.41 Yn yr un modd, mae ysgolion wedi gorfod tynnu rhai dewisiadau o golofnau arbennig er mwyn creu lle i bynciau newydd. Arweiniodd hyn at weld pynciau traddodiadol yn ymddangos mewn un golofn yn newislen pynciau'r ysgol (pan oeddent wedi ymddangos mewn dwy cyn hynny), sy’n golygu bod yr ysgol yn dal i gynnig yr un ystod o bynciau, ond nad oes gan ddisgyblion yr un cyfle i gyfuno pynciau arbennig gyda rhai eraill.

2.42 Yn wir, roedd rhai o’r cyfranwyr yn bryderus y gall yr ymdrech i ehangu’r dewis ar y cwricwlwm arwain mewn gwirionedd at weld llai o gyrsiau yn cael eu rhedeg. Dadleuwyd y gallai ehangu’r dewis ar y cwricwlwm wneud rhai pynciau yn anhyfyw, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cyflwyno yn gydweithredol.

> *“Mae gennych ragor o gyrsiau … ond llai o blant ar bob cwrs … yn arbennig gyda’r patrymau demograffig presennol … sy’n golygu na fyddant yn gynaliadwy yn y tymor hir.”* (Pennaeth Ysgol)

**Astudiaeth Achos Dewisiadau ar y Cwricwlwm**

2.43 Rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau o astudiaethau achos trwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'r astudiaethau achos yn cynnig y cyd-destun y mae darparwyr yn gweithredu ynddo ac y mae'r dysgwyr yn dilyn eu cyrsiau ynddo. Cynlluniwyd yr astudiaethau achos i ddarlunio'r pwyntiau cyffredinol a wneir ymhellach ac i helpu'r darllenydd i ddeall sut y mae'r Mesur yn cael ei gyflwyno yn ymarferol.

2.44 Mae'r astudiaeth achos gyntaf yn disgrifio'r dewisiadau galwedigaethol ar y cwricwlwm yn CA4 a CA5 mewn un ardal. Cyflenwir darpariaeth alwedigaethol oddi ar y safle ar un diwrnod llawn bob wythnos. Mae'n ddiddorol nodi, er bod gan y dysgwyr amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol ar gael, nad yw'r amrywiaeth lawn o gyrsiau wedi cael eu dilyn i gyd.

2.45 Datblygodd y ddarpariaeth CA5 ar hyd llinellau tebyg i CA4, gyda'r mwyafrif o'r ddarpariaeth oddi ar y safle yn cael ei ddarparu ar un diwrnod cyfan er gyda rhywfaint o ddefnydd (cyfyngedig) o gynadleddau fideo hefyd fel dewis gwahanol i fyfyrwyr sy'n gorfod teithio dros bellter eithaf maith.

**Astudiaeth Achos Darpariaeth Alwedigaethol Oddi ar y Safle CA4**

Mae'r holl ysgolion ar hyn o bryd yn cyrraedd y Mesur yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn debygol o wneud hynny hefyd dros y ddwy flynedd nesaf – *"rydym wedi cymryd camau anferth ymlaen."*

Mae'r dewis ehangach ar y cwricwlwm wedi deillio yn bennaf o raglen effeithiol o gydweithredu rhwng deg o'r ysgolion a'r unig goleg yn yr ardal i gynnig amrywiaeth o ddewisiadau galwedigaethol (rhaglen "Futures"). Fe'i cynigir ar sail rhaglen diwrnod cyfan ar un diwrnod yr wythnos yn y coleg.

Yn y flwyddyn gyfredol, mae'r pynciau yn cynnwys cyrsiau Gwallt a Harddwch, Adeiladwaith a Cherbydau Modur Lefel 2. Roedd y coleg hefyd wedi cynnig cyrsiau eraill, yn arbennig Cyrsiau Tir ac Arlwyo; ond, nid oedd digon o alw am y rhain. Mae'r disgyblion yn cael eu cludo ar fysiau gan ddefnyddio rhwydwaith o wasanaethau bws y coleg a bysiau lleol (gan ychwanegu tacsis yn ôl y gofyn).

Roedd yr amseroedd teithio maith i'r coleg yn golygu mai crynhoi'r ddarpariaeth ar un diwrnod oedd y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu'r dewisiadau ar y cwricwlwm. Er enghraifft, roedd gan ddisgyblion o un ysgol daith o awr a chwarter yno ac yn ôl.

Roedd un grŵp ychwanegol 'unigol' o fyfyrwyr o un ysgol yn dilyn cwrs Adeiladwaith ar sail un 'hanner diwrnod hir' yr wythnos (h.y. prynhawn hyd 5 pm a oedd yn sylweddol hwy na'r diwrnod ysgol). Maent hefyd yn derbyn astudiaethau ychwanegol eu hunain yn yr ysgol gan ddefnyddio moodle y coleg.

Ar draws y ddwy flynedd (blwyddyn 10 a blwyddyn 11) mae cyfanswm o ryw 250 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn rhaglen hon oddi ar y safle, sy'n cynrychioli rhyw 10% o'r disgyblion yn y blynyddoedd perthnasol yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan.

**Maes Astudiaeth Achos Darpariaeth Alwedigaethol Oddi ar y Safle CA5**

Mae dwy brif fodel o ddarpariaeth ar gyfer CA5 yn cael eu defnyddio. Mae'r cyntaf yn golygu darpariaeth ar y cyd rhwng y coleg a nifer fechan o ysgolion, i gynnig ystod o ddewisiadau Dyfarniad Cenedlaethol BTEC ynghyd â Lefel AS. Roedd y cyrsiau yma eto yn cael eu darparu ar sail mynychu'r coleg ar un diwrnod yr wythnos.

Roedd cynnig cyrsiau ar sail un diwrnod llawn yr wythnos yn golygu ei bod yn

bosibl integreiddio dysgwr o'r ysgol gyda grŵp o fyfyrwyr coleg amser llawn. Roedd y disgyblion ysgol wedyn yn medru dewis o blith y pynciau canlynol:

- Celfyddydau Perfformio (Dawns neu Ddrama Gerdd);
- Astudiaethau Busnes;
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Chwaraeon;
- Cynhyrchu Cyfryngol (Cyfryngau rhyngweithiol);
- Celf a Dylunio;
- Croeso;
- Teithio a Thwristiaeth;
- Ymarferwyr TG.

Roedd canlyniadau cychwynnol y myfyrwyr o'r ysgol yn dda iawn. O safbwynt ysgol sy'n cymryd rhan, roedd cynnig dewisiadau ychwanegol yn allweddol i strategaeth o gadw rhagor o'i dysgwyr i'r chweched dosbarth, strategaeth oedd yn ymddangos fel petai'n gweithio. Mae'r Flwyddyn 12 bresennol yn llawer mwy nag unrhyw flwyddyn flaenorol gyda rhyw 44 o fyfyrwyr (allan o 99 ym mlwyddyn 11 y llynedd). Yn ychwanegol, oherwydd bod y cyrsiau Gwobr Genedlaethol yn gyrsiau dwy flynedd, mae cofrestru arnynt yn help i gadw myfyrwyr am y ddwy flynedd.

Ail fenter oedd cynnig cymwysterau AS a lefel A ychwanegol gan ddefnyddio cynadleddau fideo gan ddarparwr masnachol. Roedd cynadleddau fideo yn galluogi nifer o ysgolion i gael mynediad at bynciau fel y Gyfraith, Cymdeithaseg a Seicoleg. Dim ond un wers diwtorial awr o hyd yr wythnos yr oedd y myfyrwyr yn ei derbyn (a dau ymweliad wyneb yn wyneb y flwyddyn a chefnogaeth ychwanegol gan y tiwtor trwy e-bost).

Dywedwyd bod y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o AS yn dda iawn, er gwaethaf rhai pryderon am ddiffyg dwyster yr addysgu. Roedd dau grŵp ffocws o fyfyrwyr yn dilyn o leiaf un o'r cyrsiau hyn ac roedd eu hadborth yn gadarnhaol iawn. I un ohonynt, roedd y ffaith bod y Gyfraith yn cael ei chynnig yn ffactor allweddol yn ei phenderfyniad i aros yn yr ysgol, yn hytrach na mynd i goleg Chweched Dosbarth yn rhywle arall.

**Cymwysterau Galwedigaethol v Academaidd**

2.46 Nid oes consensws ymhlith cydlynwyr rhwydwaith ar yr effaith y byddai'r Mesur yn ei gael ar yr amgyffrediad o'r Cymwysterau Galwedigaethol (**Tabl 2.6**).

| **Tabl 2.6: 'I ba raddau fyddech chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y Mesur yn arwain at gydraddoldeb o ran y parch a roddir i'r ddarpariaeth alwedigaethol a'r un academaidd?'** | |
|---|---|
| Cytuno'n Gryf | 1 |
| Cytuno | 5 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 7 |
| Anghytuno | 6 |
| Anghytuno yn Gryf | 1 |
| Ddim yn Gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

2.47 Ni wnaeth yr un o'r cydlynwyr grybwyll y dysgwyr yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn. Yn hytrach, cyfeiriwyd yn barhaus at amgyffrediad y rhieni. Felly, falle y bydd angen i bolisi yn y dyfodol ganolbwyntio ar Gyngor a Chyfarwyddyd sy'n cynnwys esbonio manteision Cymwysterau Galwedigaethol i rieni, ac efallai, Sefydliadau Addysg Uwch.

> *"Fe enillir y ddadl, nid gan y Mesur ond trwy gael cymwysterau sy'n cael eu hystyried yn rhai derbyniol ac sydd yn cael derbyniad eang, yn arbennig yn y sector Addysg Uwch, gyda chymeradwyaeth y sector honno. Enghraifft o hyn fyddai'r Prif Gymwysterau Dysgu o'r Diplomau Saesneg sydd yn awr yn dod i Gymru dan faner Bagloriaeth Cymru."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

> *"Mae cymwysterau galwedigaethol cyn 16, sy'n cyfateb i ddau TGAU yn aml yn cael eu darparu yn yr un amser cwricwlwm â'r amser a ddyrennir i un cwrs TGAU. Felly, mae'n anodd dadlau eu bod yn gyfartal o ran parch. Ar ôl 16 mae'r cyfartaledd o ran pwyntiau UCAS yn mynd beth o'r ffordd i ymdrin â'r broblem hon. Fodd bynnag, nes bydd rhieni a Sefydliadau Addysg Uwch yn cael eu dwyn i gefnogi hyn ni fydd y broblem o gydraddoldeb na pharch yn cael ei datrys."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

*“Mae cydraddoldeb o ran parch yn dibynnu ar gydnabyddiaeth ehangach yn y gymdeithas gyfan fod llwybrau galwedigaethol ac academaidd yr un mor werthfawr i bobl ifanc. Ni fydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddeddfwriaeth yn unig”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

*“Dim ond petai pob cwrs yn cael ei alw yn ‘gwrs’ y gallwn ni weld gwir gydraddoldeb ac na fyddai ganddynt deitl arall i wahaniaethu rhyngddynt fel galwedigaethol/ academaidd/cyffredinol.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

2.48 Teimlai un cydlynydd, o roi amser i hyn, ei bod yn “*anochel”* y bydd yr amgyffrediad o’r ddarpariaeth alwedigaethol yn newid.

*“…wrth i gyrsiau sefydlu efallai y bydd y rhieni sy’n gweld elfennau galwedigaethol yn llai gwerthfawr yn gweld pethau yn wahanol – dim bod ysgolion wedi methu gwerthu cyrsiau galwedigaethol hyd yn hyn ond mae rhai rhieni yn anodd eu darbwyllo.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

2.49 Nid oedd y disgyblion eu hunain yn gwahaniaethu rhwng cyrsiau academaidd a rhai galwedigaethol mewn gwirionedd, dim ond dewisiadau gwahanol ar y ddewislen oeddent iddynt hwy. Roedd y rhesymau a roddodd disgyblion dros ddewis cyrsiau galwedigaethol yn cynnwys:

- y cyfle i wneud gwaith ymarferol fel rhan o’r cwrs;
- y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau;
- y cyfle i fynd tu allan i’r ysgol i ddilyn cyrsiau;
- amgyffrediad bod y cymwysterau y mae’r cyrsiau yn arwain atynt yn ddefnyddiol - “ *adeiladwaith … mae o ‘run fath â phedwar TGAU*”;
- y cyrsiau oedd ar gael yn berthnasol i ddyheadau gyrfa’r unigolyn - *"Dwi isio bod yn beiriannydd morol", "Dwi isio bod yn ddylunydd ffasiwn"* a *“Dwi isio dilyn drama”*;
- amgyffrediad y byddai’r cwrs yn helpu’r unigolyn i gael *"gwell swydd yn y dyfodol";*
- cyfle i fod tu allan.

**Natur y Mesur**

2.50 Nododd rhai darparwyr bryderon y gallai pwyslais y Mesur ar gymwysterau Lefel 2 olygu bod swm y ddarpariaeth ar gyfer Lefel 1 yn cael ei lleihau. Ystyrir bod darpariaeth alwedigaethol Lefel 1 yn arbennig o bwysig i ennyn diddordeb pobl ifanc a allai golli diddordeb trwy gydol CA4 ac yn yr ymdrech i leihau'r nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Nododd rhai ysgolion, petaent mewn sefyllfa lle na allant fforddio mwy nag un math o ddarpariaeth, y gall cyrsiau ar Lefel 1 fod yn fwy pwysig i'w cadw.

2.51 Gall y Mesur ei hun arwain at weld athrawon mwy 'cyffredinol' yn cael eu cyflogi, yn hytrach nag arbenigwyr yn eu pynciau. Gall cynyddu lled y cwricwlwm arwain mewn gwirionedd at fwy o ymarferwyr yn gorfod dysgu ar draws nifer o bynciau, yn hytrach na'u harbenigedd yn unig. Efallai y bydd effaith ar ansawdd yr addysgu o ganlyniad i'r cyffredinoli hwn. Er enghraifft, mewn un enghraifft yr ydym ni'n ymwybodol ohoni, daeth athro Sbaeneg oedd wedi astudio economeg yn y brifysgol yn athro Economeg yr ysgol hefyd pan wnaethant ddarganfod ei sgiliau ehangach. Gallai hyn hefyd danlinellu bod tanddefnyddio posibl ymhlith athrawon.

**Amrywiaeth rhwng Ysgolion**

2.52 Teimlai rhai o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy nad yw natur 'un math i bawb' y Mesur yn rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth sy'n bodoli ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol ac o fewn yr ardaloedd hynny. Er enghraifft, cyflwynwyd dadleuon arbennig am:

- faint ysgolion;
- natur wledig;
- y ddarpariaeth sydd eisoes ar y cwricwlwm; ac
- ysgolion ffydd.

2.53 Fel enghraifft, teimlai ysgol ffydd na roddwyd digon o ystyriaeth i statws y ddarpariaeth ysgolion ffydd. Mae rhieni yn anfon eu plant i ysgolion ffydd oherwydd eu bod am gadw'r cyd-destun ffydd yn nysg eu plant. Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau'r ystod o ysgolion ar sail ffydd ar gael a all gydweithio gyda'i gilydd a byddai'n rhaid i ysgolion fynd i ysgolion heblaw rhai ffydd am amser sylweddol, a all fod yn broblem i rai unigolion.

*“Gall cydweithredu lastwreiddio’r addysg ffydd yr oedd rhieni yn ei ddisgwyl y byddai eu plant yn ei gael. Mae’n ymwneud ag ethos neu ddiwylliant yr ysgol. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i ysgolion ffydd fel y mae i ysgolion cyfrwng Cymraeg.”* (Pennaeth Ysgol Ffydd)

# 3 GWEITHIO CYDWEITHREDOL

3.1 Bu gwelliant yn y lefel o weithio cydweithredol rhwng darparwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae lle i wella llawer eto.

3.2 Mae’r darparwyr wedi dechrau gweld manteision gweithio trwy bartneriaeth gan fod y dewisiadau ar y cwricwlwm wedi ehangu a’r berthynas rhwng y sefydliadau sy’n bartneriaid wedi gwella trwy ymddiriedaeth yn ei gilydd a dealltwriaeth.

3.3 Fodd bynnag, mae rhai sialensiau sylweddol yn dal i fodoli. Mae rhai ysgolion – yn arbennig rhai gyda chyfraddau llwyddiant uchel – yn dal heb ymwneud yn llawn â’r ethos o weithio mewn partneriaeth, o bosibl oherwydd nad ydynt wedi cynnig cyrsiau galwedigaethol yn y gorffennol neu eu bod am gynnal ansawdd y ddarpariaeth bresennol.

3.4 Mae’r sialensiau eraill yn cynnwys yr oblygiadau o ran adnoddau a logisteg gweithio gyda’i gilydd. Trafodir y sialensiau hyn ac eraill yn fanylach mewn adrannau eraill.

3.5 Mae’r adran hon yn adrodd ar y newidiadau sydd wedi digwydd o ran gweithio cydweithredol dros y blynyddoedd diwethaf, rhai o’r manteision sydd wedi deillio o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth a’r rhwystrau sy’n cyfyngu ar hynny.

**Newidiadau Diweddar mewn Gweithio Cydweithredol**

3.6 Adroddodd Cydlynwyr Rhwydwaith bod gwelliant cyffredinol mewn gweithio trwy bartneriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae’r holl gydlynwyr yn awr yn nodi bod eu gweithio mewn partneriaeth yn ‘dda, gyda’r rhan fwyaf o’r darparwyr yn cyfrannu ar draws meysydd testunol cyfyngedig’ (**Tabl 3.1**).

3.7 Dywedodd mwyafrif bychan (11 allan o 20 o ymatebwyr yn yr arolwg o gydlynwyr) bod gweithio mewn partneriaeth yn eu hardaloedd wedi gwella ers i’r Mesur gael ei drafod gyntaf. O’r 11 yma, cofnododd dau ymatebydd welliant sylweddol, h.y. gwelliant o ran un neu ddau gategori (**Tabl 3.1**).

| Tabl 3.1: Gweithio Mewn Partneriaeth | | |
|---|---|---|
| | Sut fyddech chi'n categoreiddio'r gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr yn eich ardal **ddwy flynedd yn ôl** cyn i'r Mesur Dysgu a Sgiliau gael ei drafod? | Sut fyddech chi'n categoreiddio'r gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr yn eich ardal **ar hyn o bryd**? |
| **Rhagorol** Yr holl ddarparwyr yn rhan o system sydd wedi ei chydlynu yn dda | 1 | 5 |
| **Da iawn** Y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o feysydd pynciol | 7 | 9 |
| **Da** Y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cymryd rhan ar draws nifer gyfyngedig o feysydd pynciol | 8 | 6 |
| **Cyfyngedig** Lleiafrif o ddarparwyr yn cymryd rhan | 4 | 0 |
| **Ddim yn bodoli** | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

3.8 Nodwyd yn glir bod y Mesur yn yrrwr allweddol dros newid gan 12 o'r ymatebwyr (**Tabl 3.2**). Roedd y rhesymau eraill a roddwyd yn cynnwys *"ymddiriedaeth"* neu *"well cydweithio."*

> *"Rwyf wedi gweld y bartneriaeth yn anhygoel o gryf o'r dyddiad y gwnes i gychwyn yn y swydd. Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi crisialu'r cyfeiriad y mae angen i'r Bartneriaeth deithio iddo."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

3.9 Fodd bynnag, nid yw'r Mesur yn cael ei ystyried gan bawb fel y catalydd dros newid o ran gweithio mewn partneriaeth.

> *"(nid yw'r Mesur)... wedi cael unrhyw effaith weladwy ar safon y gweithio trwy bartneriaeth yn yr ardal."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

| **Tabl 3.2: ‘Beth oedd y rhesymau allweddol dros unrhyw newidiadau o ran gweithio mewn partneriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf?’** | |
|---|---|
| Y Mesur | 12 |
| Ymddiriedaeth/cydweithredu | 8 |
| Ariannu | 5 |
| Yr agenda Trawsnewid | 4 |
| Sefyllfaoedd cyllidebol: e.e. niferoedd yn disgyn/cyllid sector preifat | 2 |
| Penodi Cydlynydd Rhwydwaith amser llawn | 1 |
| Dod o hyd i fynediad addas i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg | 1 |
| Datblygu lleoliad canolog ar gyfer darparu cydweithredol | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

3.10 I raddau helaeth, mae’r effaith y gall y Mesur ei gael ar weithio cydweithredol yn ddibynnol ar y trefniadau oedd yn bodoli cynt. Mewn rhai ardaloedd roedd y trefniadau gweithio cydweithredol wedi hen sefydlu cyn y Mesur, ond mewn rhai eraill roedd y Mesur yn ysgogiad mawr i annog ffurfio clystyrau a threfniadau partneriaeth ffurfiol.

> *“Yn hanesyddol, mae darparwyr addysgol yn* [tynnwyd yr enw] *wedi gweithio yn annibynnol iawn oherwydd bod yr ardal mor wasgaredig a gwledig. Er bod rhai pocedi bychan o gystadleuaeth wedi bod, yn gyffredinol nid yw hyn wedi bod yn broblem fel y mae mewn llawer o ardaloedd trefol ac ni fu gweithio mewn clystyrau ymlaen llaw. Roedd dealltwriaeth lafar y byddai ysgolion yn gweithredu cwricwlwm academaidd ar ôl 16 ac y byddai’r coleg yn cynnig y cwricwlwm galwedigaethol – ychydig iawn o gymysgu a fu ar y ddau hyd yn ddiweddar.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

**Lle i Wella Eto**

3.11 Er bod gwelliannau wedi digwydd mewn gweithio cydweithredol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 19 o’r 20 Cydlynydd Rhwydwaith a ymatebodd i’r arolwg yn cytuno y gall cydweithredu rhwng darparwyr wella eto (**Tabl 3.3**).

| **Tabl 3.3: 'I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y gall cydweithrediad darparwyr wella eto yn ardal eich Rhwydwaith?'** | |
|---|---|
| Cytuno'n Gryf | 5 |
| Cytuno | 14 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 0 |
| Anghytuno | 0 |
| Anghytuno yn Gryf | 1 |
| Ddim yn Gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

3.12 Ar y cyfan, roedd hwn yn ymateb cryf iawn gan Gydlynwyr Rhwydwaith. Mae'n amlwg bod amgyffrediad bod gan bob un o'r Rhwydweithiau gryn bellter i fynd i gyflawni'r mwyaf y gallant o weithio mewn partneriaeth.

3.13 Mae hyn i'w ddisgwyl. Dim ond yn ddiweddar y mae llawer o'r Rhwydweithiau lleol a'r clystyrau wedi cael eu rhoi yn eu lle; felly ni ellir disgwyl iddynt fod wedi datrys yr holl sialensiau lleol ar unwaith. Yn ychwanegol, bydd y gofynion cynyddol i'r bandiau (fel y trafodwyd yn Adran 2) yn gofyn i bartneriaethau weithio gyda'i gilydd a chynnig dewis ehangach o gyrsiau i gyrraedd y targed ar gyfer 2012.

> *"...mae'r Mesur wedi rhoi hwb ymlaen i gydweithredu ac mae wedi symud rhai ysgolion ymlaen na fyddai wedi gwneud hynny fel arall. Ond fe fydd hi'n cymryd rhagor o amser eto i gyflawni'r dewisiadau y mae'r polisi 14 – 19 yn anelu atynt."* (Pennaeth Ysgol)

3.14 Efallai hefyd bod cydlynwyr yn adlewyrchu'r farn, er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn awr yn cymryd rhan lawn mewn gweithio cydweithredol, y mae rhai yn dal ddim yn dangos ymlyniad llawn. Er bod y darparwyr yma yn y lleiafrif, efallai mai'r rhain fydd y grŵp mwyaf anodd ei gynnwys: mae 'addaswyr hwyr' yn debygol o fod angen mwy o ddarbwyllo o ran manteision gweithio mewn partneriaeth neu efallai mai hwy sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag darparu darpariaeth gydweithredol.

3.15 Mewn nifer fechan o achosion, nid yw ysgolion yn ymddangos fel pe baent yn cymryd rhan mewn gwaith cydweithredol, ac yn hytrach, mae'n well ganddynt gyflwyno eu cyfleusterau galwedigaethol eu hunain, a all olygu eu bod yn cystadlu, yn hytrach na chydweithredu, â'u partneriaid lleol.

**Cryfder y Rhwydwaith Lleol**

3.16 Mae cryfder gwahanol bartneriaethau a rhwydweithiau ardal yn effeithio ar y cydweithredu rhwng aelodau o'r grŵp. Nid oedd gan rai rhwydweithiau lleol y cryfder i fedru annog ysgolion i gymryd rhan mewn gweithio mewn partneriaethau neu i dynnu haen oddi ar gyllideb yr ysgol gan ei fod yn 'rhy ddadleuol' i'w weithredu.

3.17 Ystyrir bod cyfraniad awdurdodau lleol at y rôl arweiniol mewn gweithio cydweithredol yn ffactor allweddol i'w llwyddiant. Er enghraifft, yn Wrecsam, mae grŵp strategol y Rhwydwaith yn cynnwys Prif Swyddog Dysgu a Chyflawni'r awdurdod lleol ac mae wedi ei integreiddio gyda'r hen CCET[8].

Ennyn Ymlyniad Penaeth Ysgolion

3.18 Mae sicrhau bod Penaethiaid Ysgol yn barod i ymgymryd â gweithio cydweithredol yn hanfodol bwysig i sicrhau ei hyfywedd yn y tymor hir. Bydd angen newid diwylliant rhai ysgolion trwy ddangos effaith gadarnhaol gweithio mewn partneriaeth cyn cael eu hymrwymiad llwyr.

3.19 Mewn dwy ardal yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r gwaith maes astudiaethau achos, pwysleisiwyd effaith Penaethiaid Ysgol newydd fel ffactor bwysig wrth annog gweithio mewn partneriaeth.

3.20 Fe wnaeth y swyddogion AALl mewn un ardal gyfeirio at y ffaith, o'r wyth ysgol uwchradd yn y sir, bod pump wedi penodi penaethiaid ysgol newydd dros y pedair blynedd diwethaf. Roedd dylanwad y penaethiaid ysgol 'newydd' wedi bod yn *'elfen a gyfrannodd yn sylweddol'* at y cynnydd a wnaed o ran gweithio mewn partneriaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

> *"Rydym wedi cael pum prifathro newydd dros y pedair blynedd diwethaf ac mae hynny wedi bod yn ffactor bwysig wrth newid yr ethos o weithio mewn partneriaeth. Fe welwyd newid ond mae llawer o ffordd i fynd eto."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

[8] Consortiwm Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant

3.21 Er bod dwy ysgol uwchradd yn yr ardal wedi cychwyn cymryd rhan mewn darpariaeth gydweithredol yn ddiweddar (ers cyflwyno'r Mesur), roedd y trefniadau ar gyfnod llawer cynharach nag mewn ysgolion eraill yn yr ardal. Fel y cyfryw, roedd y staff yn yr ysgolion hyn yn fwy amheus o werth cydweithredu ac roedd pryderon yn parhau y gallai'r agenda gydweithredol arwain at golli myfyrwyr ôl 16 i'r coleg lleol.

Gweithredu Trefniadau Ymrwymo

3.22 Nid oedd gan rai ardaloedd y buom yn ymweld â nhw unrhyw drefniadau ymrwymo ffurfiol rhwng darparwyr o ran eu darpariaeth gydweithredol. Mae trefniadau ymrwymo yn ymrwymo'r darparwyr i gymryd rhan yn y ddarpariaeth gydweithredol ac, yn bwysig iawn, yn ei gwneud hi'n anodd i ddarparwyr gilio oddi wrth eu hymrwymiad i weithio'n gydweithredol.

**Effaith Gadarnhaol Gweithio Cydweithredol**

3.23 Trafodir manteision posibl gweithio cydweithredol, fel enillion o ran effeithlonrwydd, a mwy o ddewisiadau ar y cwricwlwm, yn fanwl yn Adrannau 4 a 2 yn eu tro.

**Y Berthynas rhwng Ysgolion a Cholegau**

3.24 Ym mhob un o'r ardaloedd y buom yn ymweld â nhw, fe welsom fod y berthynas rhwng ysgolion a cholegau wedi gwella dros y ddwy i dair blynedd ddiwethaf. Mae'r berthynas wedi symud o un o amheuaeth ac ystyried ei gilydd fel cystadleuwyr tuag at berthynas lle maent yn cefnogi ei gilydd.

> *"Mae gennym berthynas hollol wahanol gyda'r ysgolion yn awr. Rydym wedi bod yn cystadlu yn y gorffennol gyda Chweched Dosbarth yr ysgolion yn arbennig, ond mae hynny wedi newid yn arw yn awr."* (Cydlynydd 14 -19 Coleg)
>
> *"Mae'r nifer o bobl ifanc sy'n dod atom wedi tyfu o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r bartneriaeth ddatblygu. Fe wnaethom dderbyn 87 o fyfyrwyr yn 2006 a 260 yn 2007."* (Cydlynydd 14 -19 Coleg)

3.25 Mae gwell gweithio cydweithredol trwy'r rhwydwaith wedi arwain at weld y colegau yn derbyn llawer gwell gwybodaeth am y disgyblion y maent yn eu derbyn. Mewn un ardal maent wedi datblygu 'Pasbort Trosiannol Dysgwr', sy'n cynnwys manylion am lwyddiannau pob unigolyn ifanc, ei gofnod o ran ymddygiad a'r sgiliau allweddol a gafwyd. Mae'r system hon yn llawer mwy tryloyw nag yr oedd o'r blaen, mae'r colegau yn falch gan eu bod yn awr yn gwybod pwy sy'n dod atynt, ac nid oedd hynny'n wir yn y gorffennol.

3.26 Mewn un ardal nid yw'r coleg lleol wedi cydweithredu gydag ysgolion cyn hyn wrth ddarparu'r ddarpariaeth ôl 16, gan adlewyrchu sensitifrwydd am ddyfodol chweched dosbarth yr ysgolion. Yn awr mae'r coleg yn cyfrannu at drafodaethau *"cynllunio cwricwlwm"* gydag ysgolion am y tro cyntaf, a ddigwyddodd oherwydd y Mesur Dysgu a Sgiliau. Mae'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio yn llwyr ar y ddarpariaeth alwedigaethol mewn disgyblaethau fel Peirianneg, Adeiladwaith ac Arlwyo, sydd o bosibl yn cynnig rhywfaint o ddilyniant o'r ddarpariaeth alwedigaethol 14–16 yn lleol.

> *"Ni fyddai'r ddeialog hon rhwng y coleg a'r ysgolion wedi digwydd dwy flynedd yn ôl ond mae'r cysylltiad oherwydd y ddarpariaeth 14-16 wedi galluogi'r coleg i ennill ymddiriedaeth yr ysgolion ac i'r ddeialog ehangach gael ei chynnal."* (Cydlynydd Ysgolion AALl)

3.27 Roedd agwedd y coleg wedi newid hefyd, ac roedd wedi dod yn llawer mwy parod i ymwneud ag ysgolion, gan gydnabod ei fod er ei fudd i wneud hynny oherwydd y gallai 'ddylanwadu ar ansawdd yr hyn sy'n dod allan' o ysgolion i'w cyrsiau galwedigaethol.

3.28 Nododd cyfranwyr o ardal arall bod eu hymdrechion cychwynnol i gynnig cyrsiau galwedigaethol wedi bod yn anodd oherwydd bod staff y coleg i gychwyn wedi rhagdybio y byddai safon y disgyblion fyddai'n cychwyn y cyrsiau yn uwch nag yr oedd.

> *"Roedd y coleg yn disgwyl i'r disgyblion fod yn gweithio ar Lefel 2, fe gymerodd beth amser iddynt sylweddoli mae ein gwaith ni* [yr holl ddarparwyr 14-16 sy'n cydweithredu, yn hytrach na'u hysgolion yn unig] *yw eu cael i Lefel 2"* (Pennaeth Ysgol)

3.29 Yn y maes hwn, y nod cychwynnol oedd datblygu disgyblion at lefel y Diploma Cyntaf – sy'n cyfateb i bedwar TGAU A*–C. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhy uchelgeisiol. Mae'r cwricwlwm yn awr yn anelu at gyrraedd y Dystysgrif Gyntaf (sy'n cyfateb i ddwu TGAU A* - C) yn hytrach na dau ddewis TGAU yn yr ysgol. Fe wnaeth y coleg hefyd ddechrau cynnig cymwysterau Lefel 1 fel rhywbeth i syrthio yn ôl arno gan nad oedd dim byd cyfatebol yn y cymwysterau i Raddau D-G TGAU.

3.30 Mae'r coleg wedi cael eu siomi o'r ochr orau nad yw'r ysgolion wedi ceisio marchnata'r cyrsiau i ddisgyblion â chyraeddiadau isel. Mae hyn yn elfen gychwynnol bwysig er mwyn cael perthynas o ymddiriedaeth rhwng y colegau a'r ysgolion, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r ysgolion wedi defnyddio'r ddarpariaeth 14-16 yn y colegau fel rhywle i anfon disgyblion nad oeddent yn eu dymuno yn y gorffennol.

**Rhwystrau sy'n Atal Gweithio mewn Partneriaeth**

3.31 Adroddodd Cydlynwyr Rhwydwaith bod rhai rhwystrau mawr yn bodoli sy'n atal cydweithredu mewn rhai ardaloedd. Y prif rwystrau sy'n atal dewisiadau cydweithredol llwyddiannus y soniwyd amdanynt trwy gydol yr arolwg o Gydlynwyr Rhwydwaith oedd:

- cludiant/teithio (a grybwyllwyd gan bob un o'r 20 ymatebwr);
- natur wledig/daearyddiaeth yr ardal (soniodd 13 o'r ymatebwyr am hyn yn benodol);
- cyfateb amserlenni (soniodd 13 ymatebwr am hyn yn benodol);
- cwestiynau am gynaliadwyedd (soniodd 16 ymatebwr am hyn yn benodol), yn arbennig cyllido ar ôl y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol;
- ffordd o feddwl/diwylliant (soniodd 16 ymatebwr am hyn yn benodol), yn arbennig un y rhieni ond hefyd y staff a chyrff llywodraethu'r darparwyr.

3.32 Mae pedair adran nesaf yr adroddiad hwn yn disgrifio'r rhwystrau sy'n cael eu hwynebu mewn ardaloedd gwahanol a rhai o'r atebion sydd wedi cael eu datblygu i'w goresgyn. Mae'r pedair adran nesaf yn dangos:

- **oblygiadau adnoddau** gweithio cydweithredol, gan archwilio'r arbedion o ran effeithlonrwydd sydd wedi digwydd a'r costau ychwanegol y mae'r partneriaethau yn eu hwynebu;
- **materion penodol cyfrwng Cymraeg** sydd yn bresennol, sydd yn aml yn cael eu gwneud yn fwy gan natur wledig llawer o ysgolion;
- **rhwystrau logistaidd** sy'n rhaid eu goresgyn, yn arbennig am amserlennu, cludiant; darparu mewn ardaloedd gwledig a natur y Mesur;
- darpariaeth a wnaed ar gyfer **cymorth dysgwyr**.

## 4 OBLYGIADAU ADNODDAU

4.1 Fe ddarganfu'r ymchwil yn gyson bod darparwyr yn bryderus iawn am oblygiadau cost gweithio mewn partneriaeth a chyrraedd gofynion y Mesur.

4.2 Fe welwyd rhai arbedion o ran effeithlonrwydd eisoes, gan gynnwys llai o ddyblygu cyrsiau. Ond, fe welwyd costau cydweithredu sylweddol iawn hefyd sydd wedi codi yn rhannol trwy natur y ddarpariaeth alwedigaethol a chost cludiant.

4.3 Yn ychwanegol, tra bod rhai ardaloedd yn adrodd eu bod wedi gweld arbedion o ran costau trwy ddileu dosbarthiadau bychan, mae ardaloedd eraill wedi gweld y gwrthwyneb. Mae'r costau wedi cynyddu oherwydd cynnydd yn y nifer o ddosbarthiadau bychan o ganlyniad i'r dewisiadau galwedigaethol sydd ganddynt.

4.4 Mae'r adran hon yn adrodd ar yr arbedion a welwyd cyn belled wrth ddatblygu gweithgareddau mewn partneriaeth, a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithio cydweithredol y mae darparwyr wedi eu hwynebu. Rydym hefyd yn cynnwys enghreifftiau o rai modelau ariannu gwahanol sy'n cael eu defnyddio mewn ardaloedd gwahanol ac yn trafod cynaliadwyedd y modelau ariannu cyfredol.

### Arbedion Effeithlonrwydd trwy Weithio mewn Partneriaeth

4.5 Mae gweithio cydweithredol yn ysgogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd, yn ôl 14 o'r 20 Cydlynydd Rhwydwaith (fe wnaeth un gytuno'n gryf). Mae arbedion o ran maint wedi digwydd o ganlyniad i lai o ddyblygu adnoddau. Nid yw adnoddau wedi cael eu dyblygu i'r un graddau ag o'r blaen ac mae dewis ehangach i ddysgwyr (**Tabl 4.1**).

| **Tabl 4.1: 'I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod cydweithredu a gweithio ar y cyd ymhlith darparwyr yn ysgogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd (o ran costau, adnoddau)?'** | |
|---|---|
| Cytuno'n Gryf | 1 |
| Cytuno | 13 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 1 |
| Anghytuno | 5 |
| Anghytuno yn Gryf | 0 |
| Ddim yn Gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

4.6 Roedd ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o ddweud nad oedd gweithio ar y cyd eto wedi ysgogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd. Roedd pob un o'r pump oedd yn anghytuno â'r datganiad uchod yn y 50% uchaf o'r ardaloedd awdurdod lleol mwyaf gwledig.

4.7 Gall yr arbedion mewn cost trwy gydweithredu fod yn sylweddol. Nododd dwy ardal yn arbennig yr arbedion fyddai'n cael eu gwneud yn y ddarpariaeth CA5. Mewn un ardal, disgwylir arbedion o hyd at hanner miliwn o bunnoedd dros y blynyddoedd sydd i ddod, tra bod un arall wedi dechrau gweld arbedion cost eisoes o ganlyniad i'r cynnydd ym maint dosbarthiadau.

> *"Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gallwn ragweld arbedion o tua £500,000 y flwyddyn o ganlyniad i'r cydweithredu a'r bartneriaeth a fydd yn cael eu datblygu dan y strategaeth Drawsnewid."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

> *"Mae'r arbedion yn y ddarpariaeth AS yn unig yn cyfateb i o leiaf £150,000 eleni ar ôl i'r costau cludiant gael eu cyfrif. Mae'r nifer i bob set tua dwy neu dair gwaith yr hyn oeddynt."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

4.8 Roedd yr ardaloedd oedd yn dweud eu bod yn cael budd o'r arbedion cost yn dueddol o fod yn ardaloedd mwyaf poblog/trefol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhagor o ymchwil i ddeall graddfa a natur yr arbedion hyn.

**Llai o Ddyblygu**

4.9 Gellir gweld arbedion effeithlonrwydd trwy gael gwared ar ddyblygu cyrsiau rhwng y darparwyr sy'n bartneriaid. Cyfeiriodd un ysgol at y broses hon fel cyfuno pynciau: lle'r oedd nifer y dysgwyr yn rhy isel mewn un ysgol, roeddynt yn cael eu cyfuno yn un grŵp ar draws dwy ysgol trwy gydweithredu.

Cydweithredu Ôl 16

4.10 Roedd y model a ddefnyddiwyd i gyflawni'r cwricwlwm CA5 yn dangos arbedion cost 'cymedrol' yn un ardal. Ond, pan oedd costau 'cudd' cludiant yn cael eu cynnwys, fe feddylid bod y ddarpariaeth mewn gwirionedd yn mynd yn fwy drud.

4.11 Yn y model a ddefnyddiwyd, roedd disgyblion ysgol yn ymuno â dosbarth oedd yn bodoli o ddysgwyr ôl 16 yn y coleg. Fe fyddai'r coleg wedi cyflenwi'r cwrs heb y dysgwyr ychwanegol o'r ysgol, felly roedd y costau ymylol i bob dysgwr yn isel iawn. Roedd yr ysgolion yn talu £5 yr awr am bob myfyriwr am y cwrs ac roeddent felly yn medru atgyfeirio eu hadnoddau eu hunain.

4.12 Mewn ardal arall, mae gweithgaredd cydweithredol ôl 16 wedi arwain at beth arbedion cost. Mae wedi cael gwared ar ddyblygu a lleihau neu ddiddymu'r angen am grwpiau bychain eu maint.

> *"Mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â gweithio cydweithredol, fel cludiant, ond mae'r gwerth am arian yn well. Mae ansawdd y dysgu yn well, er nad yw'n rhatach fel y cyfryw efallai"* (Pennaeth Datblygu 14-19)

**Costau Ychwanegol yn Gysylltiedig â Gweithio Cydweithredol**

4.13 Fe wnaeth darparwyr danlinellu meysydd penodol lle'r oeddynt yn teimlo bod costau darparu cwricwlwm ehangach yn fwy. Adroddodd darparwyr bod cyrsiau galwedigaethol yn ddrutach i'w darparu a'u bod yn anuniongyrchol yn codi costau'r ddarpariaeth yn yr ysgol ei hun. Mae darpariaeth oddi ar y safle yn gofyn am gostau cludiant sylweddol; tra bod y ddarpariaeth alwedigaethol yn gyffredinol yn gofyn am grwpiau llai a mwy o fewnbwn o ran adnoddau.

**Costau Cludiant**

4.14 Ystyrir yn gyffredinol bod costau cludiant yn uchel ac y gallant fod yn anghynaladwy o ystyried y toriadau disgwyliedig mewn cyllidebau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae rhai ardaloedd ar hyn o bryd yn defnyddio'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol i roi cymhorthdal ar gyfer costau trafnidiaeth. Mae pryder sylweddol o ran y ffordd y bydd trafnidiaeth yn cael ei ariannu pan ddaw'r cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol i ben.

4.15 Mae gan un ardal drefol gostau cludiant o £60,000 y flwyddyn, sy'n arbediad sylweddol (o £120,000) yn dilyn newid mewn strategaeth i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

4.16 Tanlinellwyd costau cludiant gan nifer o bartneriaethau fel agwedd oedd yn tynnu ar adnoddau yn neilltuol.

> *"Er bod gweithio ar y cyd wedi hwyluso mynediad at ddewis ehangach i bobl ifanc nid yw cost y ddarpariaeth ei hun, cludiant ac amser staff i gydlynu'r ddarpariaeth wedi arwain at arbedion o ran costau."* (Cydlynydd Rhwydwaith)
>
> "[Nid oes]*... unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cydweithio yn arwain at fwy o effeithlonrwydd; mae costau cludiant yn cynyddu."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

4.17 Trafodir costau cludiant a logisteg yn fanylach yn Adran 6.

**Grwpiau Bach**

4.18 Mewn un ardal, dywedodd y colegau bod costau darparu'r un cyrsiau yn 'ddwbl yn fras' y costau i ysgolion. Mae'r costau ychwanegol yn cael eu creu gan y mewnbwn cyfalaf uwch (ar gyfer cyfleusterau arbenigol) a'r dosbarthiadau llai sy'n dueddol o fod mewn colegau (adroddir bod meintiau dosbarthiadau mewn colegau tua hanner maint rhai mewn ysgolion). Er gwaethaf hyn, dywedodd y colegau y byddai'n well ganddynt gael dosbarthiadau llai nag sydd ganddynt ar hyn o bryd oherwydd natur y myfyrwyr y maent yn eu derbyn; ond, byddai costau gwneud hynny yn rhy fawr.

> *"Fe fyddem yn hoffi gwneud maint y dosbarthiadau yn llai; mae gennym tua 15 ym mhob dosbarth ar hyn o bryd, sydd yn ormod mewn gwirionedd ar gyfer y math o ddisgybl yr ydym yn ei gael o'r ysgolion. Petai'r ysgolion yn anfon eu disgyblion Lefel 2 atom fe fyddent yn colli incwm."* (Cynrychiolydd Coleg Addysg Bellach)

4.19 Teimlai ysgolion hefyd bod eu costau yn cynyddu trwy redeg dosbarthiadau gyda niferoedd llai o ddisgyblion. Er enghraifft, gall un dosbarth fod wedi lleihau o 16 i 12 disgybl gan fod rhai wedi dewis darpariaeth wahanol gan ddarparwr arall yn lleol. Byddai'r ysgol yn colli peth cyllid ar gyfer y pedwar disgybl oedd yn mynychu'r darparwr arall ond byddai eu costau yn parhau rhywbeth tebyg gan fod ganddynt ddosbarth i'w redeg o hyd ar gyfer 12 disgybl.

**Darpariaeth Oddi ar y Safle/Galwedigaethol**

4.20 Mae'r deunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer y ddarpariaeth alwedigaethol hefyd yn dueddol o fod yn ddrutach na'r rhai ar gyfer cymwysterau 'cyffredinol'. Er enghraifft, mae cyrsiau Arlwyo yn gofyn am swm sylweddol o ddeunyddiau, sydd yn ddrud.

4.21 Nid yw'n hawdd symud darpariaeth wahanol o un dosbarth i'r llall mewn ysgolion. Nid yw dosbarthiadau sy'n dal deg ar hugain o fyfyrwyr fel arfer lle maent yn addysgu Daearyddiaeth neu Hanes yn addas ar gyfer cyflwyno cymwysterau galwedigaethol, fel arlwyo, hyd yn oed ar gyfer grwpiau mor fach â deuddeng disgybl. Felly nid yw'n bosibl cyfnewid yn berffaith rhwng cyfleusterau ac nid yw'r arbedion cost wedi digwydd mor rhwydd ag y byddid yn disgwyl.

**Modelau Ariannu**

4.22 Mae'r modelau a ddefnyddir i ariannu darpariaeth gydweithredol yn amrywio o ardal i ardal. Mae rhai wedi mabwysiadu dull wedi ei ganoli lle mae'r arian yn cael ei ddal yn y canol gan yr Awdurdod Lleol, tra bod eraill wedi dibynnu ar fodel ariannu mwy datganoledig, lle mae'r arian yn dilyn y dysgwyr unigol (ond ategir ato o'r adnoddau canolog). Trwy ymweliadau astudiaethau achos dynodwyd tystiolaeth o nodweddion sy'n ein galluogi i ddisgrifio tri model posibl gwahanol.

4.23 Yn y model ariannu wedi ei ganoli mae’r Awdurdod Lleol yn dal yr arian yn ganolog ac yn ei ddosbarthu i ddarparwyr ar sail y cyrsiau y maent yn eu cynnig neu’r nifer o ddysgwyr y maent wedi eu derbyn. Gall y model hwn ysgogi darparwyr i gymryd rhan mewn darpariaeth gydweithredol gan fod costau darpariaeth oddi ar y safle wedi ei dalu yn barod; mae’r gost ymylol i’r ysgol mewn gwirionedd yn ddim. Yn ychwanegol, trwy ddal y cronfeydd yn ganolog, gall yr Awdurdod Lleol ariannu costau sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, cludo disgyblion neu hyfforddi Anogwyr Dysgu.

4.24 I’r gwrthwyneb, mae’r model datganoledig yn golygu bod ysgolion yn cyfrannu ar sail y nifer o ddysgwyr sydd ganddynt yn mynychu’r ddarpariaeth gydweithredol. Os mai ychydig o fyfyrwyr sydd gan ysgol yn mynychu darpariaeth gydweithredol, byddant hefyd yn cadw mwy o arian i’w ddefnyddio yn ôl eu dewis eu hunain. Bydd ysgolion sy’n ddefnyddwyr darpariaeth gydweithredol sylweddol yn talu mwy, ac felly bydd eu cyllid yn llai ar gyfer dibenion eraill.

4.25 Rydym wedi rhoi enghreifftiau o’r modelau ariannu a ddefnyddir mewn tair ardal wahanol er mwyn darlunio’r sefyllfa. Mae’r modelau i gyd wedi eu datblygu i fodloni anghenion lleol, ac fel y cyfryw, maent yn cael eu hystyried fel y fersiwn fwyaf addas ar gyfer pob ardal leol.

**Fformiwla Cyllido Oddi ar y Safle - A**

4.26 Mae’r cyllid yn dilyn y dysgwr yn y model hwn o ariannu darpariaeth CA4. Trosglwyddir cyllid i’r darparwr ‘gwesteia’ gan y darparwr ‘cartref’ yn ôl y dysgwr.

4.27 Ar sail ffurflenni PLASC mae’r costau am bob dysgwr yn cael ei rannu ar sail cwrs. Trosglwyddir 80% o werth Uned Disgybl a Bwysolwyd yn ôl Ardal (AWPU) gyda’r dysgwr ac mae 20% yn aros gyda’r ysgol gartref. Mae’r 20% a gedwir gan yr ysgol gartref yn cynnwys y pwysoliad amddifadu y mae’r ysgol yn ei dderbyn ac mae’n cael ei ddefnyddio i ariannu cyngor a chyfarwyddyd annibynnol a ffioedd cofrestru ar gyfer arholiadau. Mae’r cymwysterau a enillir gan y dysgwyr yn cael eu priodoli i’r ysgol sy’n gwesteia.

4.28 Yn gyffredinol roedd y fformiwla yn cael ei dderbyn ar ôl peth cyndynrwydd ar y dechrau gan ddarparwyr. Nid oes neb yn gwybod beth ddylai'r union ffigwr fod i ariannu darpariaeth oddi ar y safle, ond mae 80/20 yn ymddangos fel 'safon y diwydiant'. Darparodd yr awdurdod lleol rai enghreifftiau wedi eu cyfrifo ar gyfer pobl ac maent wedi gweld bod darparwyr yn fodlon symud ymlaen gyda'r system gen ei bod yn gweithio. Nid oes unrhyw gymhorthdal ar gyfer cyrsiau ôl 16, daw'r holl gyllid o'r grant ôl 16 y mae'r darparwyr yn ei dderbyn.

**Fformiwla Cyllido Oddi ar y Safle - B**

4.29 Mae hon yn enghraifft o ddull wedi ei ganoli, lle mae'r cyllid yn cael ei ddal yn ganolog i dalu am ddarpariaeth oddi ar y safle yn y colegau lleol. Mae'r peirianwaith ariannu ar gyfer y ddarpariaeth CA4 yn cael cymhorthdal gan y Rhwydwaith leol, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau yn dod o ysgolion.

4.30 Ar y cyfan, credid bod cydweithredu yn cynyddu yn hytrach na lleihau costau gan ei fod yn gyffredinol yn golygu cludo disgyblion o un safle i un arall neu fuddsoddi mewn atebion technolegol drud. Fodd bynnag, mae cydweithredu yn galluogi i adnoddau gael eu hymestyn ymhellach ac mae hyn yn golygu y gellir fforddio darpariaeth na fyddai yn hyfyw fel arall.

4.31 Mae'r Rhwydwaith yn talu costau llawn cyrsiau 'bloc' sy'n cael eu darparu gan y ddau goleg ar eu safleoedd, beth bynnag yw nifer y disgyblion sy'n dewis cymryd y cyfle. Mabwysiadwyd y dull pris sefydlog (yn hytrach na thalu ffi am bob disgybl sy'n cymryd rhan) er mwyn diogelu'r colegau rhag y risg o fethu denu digon o niferoedd o ddisgyblion i wneud y cyrsiau yn hyfyw. Ar gyfartaledd, mae cyrsiau bloc blwyddyn o hyd yn costio rhyw £6,500 i golegau eu rhedeg gyda chostau cludo ychwanegol o tua £3,500.

4.32 Mae'r rhwydwaith yn rhoi cymhorthdal tuag at ddarpariaeth ysgol i ysgol trwy ddarparu traean o'r cyllid gofynnol. Yr ysgolion sy'n gyfrifol am y ddau draean arall o'r costau. Mae'r Rhwydwaith wedi lleihau ei chyfraniadau tuag at y costau hyn dros amser i gyfleu'r neges i ysgolion y dylai'r cyrsiau gael eu hariannu o gyllidebau prif ffrwd o 2013. Gostyngwyd y cyllid rhwydwaith o 50% yn 2008 i 33% yn 2009.

4.33 Mae'r Rhwydwaith yn neilltuo rhyw £250k i £300k o'i chyllideb flynyddol i gefnogi darpariaeth gydweithredol. Roedd costau cludo dysgwyr rhwng safleoedd yn amrywio o £5k i £18k i bob ysgol y llynedd.

**Model Cyllido Oddi ar y Safle - C**

4.34 Mae cyfran o gyllidebau ysgolion yn cael ei dynnu i ddarparu cyllid i'r bartneriaeth i roi cymhorthdal tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle. Rhennir y cyllid wedyn ymhlith y consortia lleol gwahanol yn yr ardal, ar sail y lefel o angen ym mhob ardal (mae'r model ariannu hwn yn mynd i gael ei adolygu yn y dyfodol agos).

4.35 Pan fydd dysgwyr yn mynd oddi ar y safle, mae'r cyllid yn dilyn y dysgwyr i roi iawndal i'r ysgol sy'n gwesteia. Ariennir 60% o gost cwrs gan y bartneriaeth, mae'r 40% arall yn cael ei ariannu gan yr ysgol yn uniongyrchol. Trwy dynnu haen oddi ar y gyllideb mae'n rhoi cymhelliad i'r ysgolion i ddefnyddio'r ddarpariaeth gydweithredol.

4.36 Dywedodd un ysgol nad yw wedi gweld unrhyw arbedion o ran costau eto trwy weithio cydweithredol mewn addysg cyn 16 oed, ac maent, yn hytrach, wedi ei weld yn gost ychwanegol.

> *"Dim ond pan oedd ysgolion wedi bod yn rhedeg dosbarthiadau o faint aneffeithlon y gellir gweld arbedion cost. Dwi ddim yn meddwl bod llawer ohonom wedi bod yn gwneud hynny beth bynnag, felly dwi ddim yn gwybod o ble y gall yr arbedion ddod."*
> (Pennaeth Ysgol)

4.37 Ond, fe ddywedodd ysgol arall y gallai weld arbedion o ran costau yn y ddarpariaeth Lefel A. Pan fydd dysgwyr yn dueddol o adael cyrsiau ym Mlwyddyn 13 maent yn medru cynnal grwpiau hyfyw trwy gydweithredu.

**Cynaliadwyedd**

4.38 Nid oedd yn fwriad penodol gan yr ymchwil i gynnal dadansoddiad o gostau gweithredu'r Mesur. Ond, mae'n amlwg bod llawer o'r darparwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni gofynion y Mesur trwy ddefnyddio'r cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ychwanegol. Mae'n ymddangos bod y gronfa gymharol fechan hon o arian[9] wedi cyfrannu at well gwerth am arian yn y sector gan fod llawer o ddysgwyr yn awr yn medru cael mynediad at ddewis llawer ehangach o gyrsiau.

4.39 Darganfu yr ymchwil, yn y rhan fwyaf o achosion, bod y cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael ei ddefnyddio fel llif refeniw ychwanegol i helpu i gyllido cyrsiau, yn ogystal â sicrhau bod y gallu yn y sector yn cael ei gynnal. Felly mae pryder gwirioneddol, petai'r cyllid ychwanegol yn cael ei dynnu, y bydd y dewisiadau ar y cwricwlwm yn lleihau mewn sawl ardal. Ni fyddem yn disgwyl i'r ddarpariaeth a ychwanegwyd yn ddiweddar ddiflannu yn llwyr, gan ein bod wedi dod o hyd i rai arbedion o ran effeithlonrwydd, ond, fe wnaeth y darparwyr adrodd yn gyson y byddent yn ei chael yn anodd cynnal y ddarpariaeth bresennol heb y cyllid ychwanegol trwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol.

4.40 Yn ardal un bartneriaeth leol, dywedodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw bod y goblygiadau cost cyffredinol yn sicr wedi bod yn "*gynnydd mewn costau".* Ar hyn o bryd mae'r costau ychwanegol hyn yn cael eu talu gan grantiau o'r Rhwydwaith 14-19. Fodd bynnag, mae defnyddio'r gyllideb Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol i'r diben hwn yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd. Awgrymodd y Cydlynydd Rhwydwaith, yn dechnegol, y gallai Penaethiaid Ysgol *"ddewis troi cefn ar sail costau"* ac aeth cyn belled â dweud *"pan fydd y grant yn dod i ben – dwi'n amau y byddant yn defnyddio'r dewis hwnnw".*

[9] Cyfanswm y cyllid grant Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn 2009/10 oedd £20m.

**Barn ar Gynaliadwyedd**

4.41 Roedd y farn ar gynaliadwyedd gweithio mewn partneriaeth yn dibynnu ar sut yr oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ei ddiffinio. Roedd gweithio cydweithredol yn cael ei ystyried yn fwy cynaliadwy ar y lefelau presennol o ariannu nag y bydd yn y dyfodol, pan fydd y cyllidebau yn lleihau ac na fydd y cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael ei dderbyn mwyach.

4.42 Fel arall, fe ddywedodd rhai yr ymgynghorwyd â nhw y gallai'r gweithio cydweithredol i gyrraedd y Mesur gael ei gynnal, ond, y gallai hynny fod ar draul darpariaeth arall – fel darpariaeth CA4 Lefel 1 – sy'n cael ei ystyried yn bwysicach i atal cynnydd yn y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

**Astudiaeth Achos – Y Model Ariannu a Ddefnyddiwyd, Darpariaeth Ysgol i Goleg CA4**

Mae'r ddarpariaeth CA4 yn y coleg yn cael ei dalu hyd at tua 50% gan gyllid y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol. Mae'r gweddill wedyn yn cael ei rannu rhwng yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn gyfartal (nid yn ôl dysgwyr). Credai'r Cydlynydd Rhwydwaith nad oedd hyn yn wir mewn awdurdodau addysg lleol eraill ond roedd yn arwydd pwysig i sicrhau cydweithredu gan bob ysgol. Mae'r coleg yn codi £47.50 yr awr am bob grŵp.

Mae cyfraniad y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol at gost y mentrau hyn tua £125,000 am gostau hyfforddiant a £43,000 ychwanegol i dalu costau cludiant. Yn unol â hyn, dywedwyd bod cyfraniadau'r ysgol tua £15,000 yr un o'u cyllideb ddirprwyedig. Roedd yr ysgolion yn medru gwneud rhai arbedion i'w gosod yn erbyn y costau trwy leihau'r nifer o ddosbarthiadau TGAU. Ond, credid ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r arbedion costau yma yn cyfateb i'r cyfraniad ariannol yr oeddent wedi ei wneud.

**Defnyddio Cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol**

4.43 Mae'r cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol wedi cael ei ddefnyddio mewn amryw o ffyrdd gan wahanol awdurdodau lleol. Mae rhai wedi defnyddio'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol i gefnogi datblygu cyrsiau penodol, mae rhai eraill wedi defnyddio'r cyllid i roi cymhorthdal ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle, tra bod ardaloedd eraill wedi defnyddio'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ar gyfer costau trafnidiaeth.

> *"Byddai'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud wrth ehangu'r cwricwlwm wedi bod yn amhosibl heb y moryn o gyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

4.44 Mae enghraifft yn dod o un ardal lle mae costau cyrsiau cyswllt coleg 14 – 16 yn cael cymhorthdal gan yr Awdurdod Lleol. Ni all ysgolion ariannu cost y cyrsiau eu hunain gan y byddai'n fras yn dyblu'r AWPU y byddent yn ei dderbyn. Mae'r cymhorthdal yn cael ei dalu trwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol.

> *"Nid yw ysgolion yn gwneud digon o arbedion cost ar y funud i fedru talu costau llawn cyrsiau coleg. Fe all hynny newid yn y tymor hir."* (Pennaeth Datblygu14-19)

4.45 Soniodd un ardal am eu pryder parthed defnyddio cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol. Roeddent yn teimlo ei fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi rhaglenni dysgu 'newydd' am gyfnodau o ddwy flynedd, ac yna yn cael ei ail becynnu/ail enwi er mwyn caniatáu i'r cyllido barhau. Mewn rhai sefyllfaoedd gall hyn fod yn hollol addas wrth i'r gwahanol ddulliau gael eu profi; ond, mae ymdeimlad ei fod yn cuddio'r gofyn am gynaladwyedd.

> *"Mae arian Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael ei weld fel rhan o'r gymysgedd ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn hytrach na dim ond cefnogi 'datblygiadau arloesol'."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

4.46 Adroddodd rhai Cydlynwyr Rhwydwaith bod cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol wedi cael ei ddefnyddio i gau bylchau mewn cyllid. Mynegodd rhai ymatebwyr ddymuniad am wybodaeth ar gyllido ar ôl 2013 (h.y. ar ôl y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol). Heb arwydd clir o'r cyllid fydd ar gael yn y dyfodol, gall cynaliadwyedd y dewis ar y cwricwlwm fod mewn perygl.

4.47 Byddai'n ofynnol cael ymchwil pellach i ddeall sut y mae'r cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol wedi cael ei ddefnyddio a pha effaith fydd yna pan ddaw'r cyllid i ben.

Cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn y dyfodol

4.48 Gall rowndiau o'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn y dyfodol gael eu llyncu gan gyllidebau addysg ehangach yr awdurdod lleol, yn hytrach na chael eu darparu fel ffrydiau ariannu ychwanegol neilltuedig. Byddai'r dull posibl hwn yn dwyn nifer o fanteision ac anfanteision yn ei sgil, gan gynnwys:

- mae cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael ei gysylltu yn benodol gyda'r cynllun strategol tair blynedd a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Lleol. Gallai cael gwared â'r ddolen rhwng y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol a'r cyllid dilynol leihau'r ffocws ar gyflawni'r nodau a fwriadwyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol;
- trwy ddarparu ffrwd gyllido benodol sydd i'w defnyddio yn unig ar gyfer dibenion cyflawni nodau'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol, mae Llywodraeth y Cynulliadyn cyfleu'r pwysigrwydd y maent yn ei roi i'r ffrwd ariannu. Gallai cael gwared ar y ffrwd ariannu neilltuedig awgrymu bod y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael llai o flaenoriaeth;
- ar yr ochr gadarnhaol, gall natur 'neilltuedig' cyllidebau fod yn rhwystr i rai awdurdodau lleol a all deimlo y gallant wneud defnydd mwy effeithlon o'r arian mewn maes gwahanol, y maent yn ei ystyried ddylai gael mwy o flaenoriaeth. Fel arall, gall cael gwared ar y natur 'neilltuedig' alluogi awdurdodau lleol i'w gyfuno gyda ffrydiau ariannu eraill i gael mwy o effaith yn y pendraw.

# 5 DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

5.1 Yn gyffredinol, mae'r Mesur yn effeithio ar y ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr un ffordd â phob ysgol arall ar draws Cymru; ond mae rhai o'r problemau yn fwy amlwg o ganlyniad i leoliad anghysbell llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.2 Darganfu'r ymchwil enghreifftiau o drefniadau cydweithredol oedd wedi eu hen sefydlu ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac yn yr eithaf arall, ysgolion sydd wedi cael eu hysgogi i weithio'n gydweithredol o ganlyniad i'r Mesur yn unig.

5.3 Fe wnaethom ddarganfod bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dueddol o fod yn fwy arloesol yn yr atebion yr oeddent wedi eu canfod, efallai bod hynny o ganlyniad i'w lleoliad mwy anghysbell a gwledig. Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dueddol o wneud mwy o ddefnydd o athrawon teithiol; cydweithredu ar draws ffiniau a chyfleusterau TGCh, fel cynadleddau fideo.

5.4 Mae'r adran hon yn trafod y materion penodol i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddaeth i'r golwg trwy'r gwaith ymchwil, yn arbennig:

- newidiadau yn y ddarpariaeth dros y blynyddoedd diwethaf;
- galw gan ddysgwyr;
- recriwtio staff; ac
- asesiadau galwedigaethol.

**Newidiadau yn y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

5.5 Mae datblygiadau diweddar yn y ddarpariaeth o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi digwydd yn sgil deddfwriaeth yn gysylltiedig â'r Gymraeg a gyda golwg ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth y Cynulliad. Mae cynyddu'r cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg dan y Llwybrau Dysgu 14-19 yn un o amcanion strategol y Strategaeth.

5.6 Darganfu ein harolwg o Gydlynwyr Rhwydwaith bod y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu mewn 19 allan o'r 20 ardal i ryw raddau o leiaf (**Tabl 5.1**). Adroddodd tri ymatebwr bod y cynnydd hwn wedi digwydd yn rhannol o leiaf oherwydd y ddarpariaeth ar draws ffiniau.

| Tabl 5.1: 'Yn eich ardal chi, a yw'r amrywiaeth yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf?' | |
|---|---|
| Ydi | 10 |
| I Ryw Raddau Cyfyngedig | 9 |
| Na | 1 |
| Ddim yn Gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

5.7 Nododd rhai ymatebwyr bod y galw llai am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd wedi arwain at ddiffyg effeithlonrwydd o ran maint, oedd yn rhwystr fyddai'n atal rhagor o ehangu. Mae diffyg effeithlonrwydd o ran maint wedi digwydd hefyd oherwydd y diffyg athrawon a darparwyr sy'n barod i gynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

> *"Mae'r rhwystrau mawr yn cynnwys argaeledd athrawon/darlithwyr Cymraeg eu hiaith, yn arbennig gyda sgiliau galwedigaethol addas, cost grwpiau bychain a lleoliad daearyddol ynysig rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg."* (Cydlynydd Rhwydwaith)
>
> *"Dim ond denu nifer fechan o ddysgwyr y mae darpariaeth newydd, ac ni fyddai'n cael ei ystyried yn hyfyw yn y sector cyfrwng Saesneg."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

**Dylanwad y Mesur**

5.8 Yn gyffredinol, teimlai Cydlynwyr Rhwydwaith bod y cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg, yn rhannol o leiaf, oherwydd y Mesur (**Tabl 5.2**). Roedd y Mesur wedi cynnig momentwm ychwanegol i brysuro'r newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd ac roedd yn cael ei ystyried fel gyrrwr angenrheidiol i greu newid. Ond, adroddodd eraill bod y newidiadau yn eu hardal wedi digwydd cyn y Mesur, gan awgrymu nad oedd wedi cael fawr o effaith.

*“Roedd y dymuniad i ehangu’r dewis o gyrsiau sydd ar gael yno eisoes ac roedd yr ysgol cyfrwng Cymraeg yn bodloni gofynion y Mesur a ninnau ym mand C. Ond, bydd y Mesur yn ysgogi rhagor o ddatblygiadau i gyrraedd y targed cyrsiau o 30 yn y pen draw.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

*“Roedd hyn yn newid beth bynnag – mae wedi cefnogi’r twf. Mae angen trafodaeth aeddfed yn Llywodraeth y Cynulliad am ganlyniad realistig darparu 30 dewis trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai dewisiadau galwedigaethol o safon trwy gyfrwng y Saesneg gael eu cynnwys: neu mae dysgwyr yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd addysgiadol. Rhaid cydbwyso hyn â dewisiadau cyfrwng Cymraeg, a allai fod o safon is.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

**Tabl 5.2: ‘I ba raddau y byddech chi’n cytuno neu’n anghytuno bod y Mesur Dysgu a Sgiliau wedi bod yn gyfrifol am ehangu’r dewis yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog?’**

| | |
|---|---|
| Cytuno’n Gryf | 1 |
| Cytuno | 7 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 10 |
| Anghytuno | 0 |
| Anghytuno yn Gryf | 1 |
| Ddim yn Gwybod | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

5.9 Mae’r darlun cymysg a gyflwynir yma yn adlewyrchu, yn rhannol o leiaf, yr agweddau gwahanol tuag at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy’n amlwg ar draws ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Fe ddaeth y gwaith maes astudiaethau achos ar draws eithafion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, o ychydig iawn iawn yn un ardal awdurdod lleol i ddarpariaeth eang. Roedd enghreifftiau o ardaloedd lle’r oedd gweithio cydweithredol trwy gyfrwng y Gymraeg wedi digwydd cyn y Mesur ac eraill lle’r oedd y Mesur wedi rhoi’r hwb angenrheidiol i wella’r ddarpariaeth gydweithredol trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.10 Mae’n ddiddorol nodi bod y rhan fwyaf o’r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wedi canolbwyntio ar gyrraedd y lleiafswm o ran gofynion y Mesur, yn hytrach na gwneud y mwyaf o’r dewis ar y cwricwlwm. Fe all fod yn ganlyniad naturiol i sefydlu trothwy fel isafswm gan fod tuedd i anelu at y trothwy, yn hytrach na chyflawni’r uchafswm posibl.

5.11 Bu’r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystyried nifer o broblemau a drafodwyd o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae pob un ohonynt yn cael eu crynhoi isod, cyn cael eu trafod yn fwy manwl:

- **Galw gan y Dysgwyr**, dim digon o alw gan ddysgwyr am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Recriwtio staff** gyda digon o sgiliau cyfrwng Cymraeg yn anodd;
- **Darpariaeth ar draws ffiniau awdurdodau lleol** yn cael ei ddefnyddio yn aml i oresgyn anawsterau gyda’r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn arbennig; a
- Trafodwyd y diffyg **asesiadau galwedigaethol** cyfrwng Cymraeg hefyd mewn rhai ardaloedd.

**Galw gan y Dysgwyr**

5.12 Adroddwyd bod y galw gan y dysgwyr am ddarpariaeth Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal. Mewn rhai ardaloedd, roedd pob cwrs yn cael ei gynnig, a’i ddilyn yn ddwyieithog, tra mewn eraill dywedodd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy mai ychydig iawn o ddiddordeb yr oedd y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei ddenu.

5.13 Fe wnaeth un awdurdod addysg lleol a’r coleg lleol gydnabod bod “*darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ymdrech fawr”.* Dim ond un o’r wyth ysgol uwchradd yn yr ardal sydd wedi ei dosbarthu fel ysgol uwchradd ddwyieithog. Dywedodd yr AALl eu bod wedi gwneud *“cynnydd anferth”* wrth ymestyn y dewisiadau yn yr ysgol ar lefel cyn ac ar ôl 16 oed a bod *“llawer o’r estyniad ar ôl 16”* wedi cael ei gyflawni trwy gynadleddau fideo.

5.14 Dywedodd y coleg a’r awdurdod addysg lleol bod cynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg ac, yn fwy penodol, cynyddu’r galw gan ddysgwyr am ddarpariaeth Gymraeg yn her neilltuol.

> *“Nid oes mas critigol. Oes mae diffyg cyrsiau ond hefyd mae diffyg myfyrwyr a diffyg niferoedd yn dilyn cyrsiau.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)
>
> *“Y broblem sydd gennym ni yw bod cymaint o’r myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf yn dweud nad ydynt am gael eu dysgu yn Gymraeg. Maent yn dweud nad ydynt am fod yn wahanol i bawb arall.”* (Cynrychiolydd Coleg)

**Recriwtio Staff**

5.15 Mae anhawster mawr i recriwtio staff sy’n medru ac yn ddigon hyderus i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Crybwyllwyd hyn ym mhob ardal astudiaeth achos fel pryder mawr.

5.16 Mewn un ardal lleiafrif bychan o gyrsiau – Gwallt a Harddwch ar gyfer grwpiau CA4 yn arbennig – sydd yn ddwyieithog i raddau helaeth. Mae hyn yn ‘ddamweiniol i raddau helaeth’ ac o ganlyniad i sgiliau ieithyddol ac ymrwymiad y staff.

**Cydweithredu ar Draws Ffiniau**

5.17 Yn un o’r ardaloedd astudiaeth achos y buom ynddi, dim ond un ysgol cyfrwng Cymraeg oedd gan yr awdurdod. Roedd yr ysgol wedi datblygu perthynas gydag ysgol cyfrwng Cymraeg arall o’r tu allan i ardal yr awdurdod lleol cyn i’r Mesur ddod i rym. Mae eu trefniant yn golygu rhannu aelodau staff sy’n teithio rhwng y ddau safle i ddarparu gwahanol gyrsiau. Bu’r cydweithredu yn effeithiol iawn, gan gael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau yn yr ysgol a chadw disgyblion.

5.18 Mae'r bartneriaeth yn awr yn ei phedwaredd flwyddyn ac nid yw'n hyfyw heblaw trwy'r cyllid ychwanegol y maent yn ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r ysgol yn derbyn cyfraniad gan yr ysgol arall yn y bartneriaeth ac yn defnyddio cyllid o'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol presennol.

5.19 Mae'r bartneriaeth wedi eu galluogi i gynnig cwricwlwm galwedigaethol ac academaidd ehangach.

> *"Gallwn gynnig cyrsiau academaidd fel economeg, gwleidyddiaeth a seicoleg trwy rannu athrawon rhwng yr ysgolion a thrwy gyfuno dosbarthiadau."* (Ysgol Cyfrwng Cymraeg)

5.20 Mae'r ysgolion yn rhannu athrawon teithiol ac yn cyflwyno rhai cyrsiau gan ddefnyddio cyfleusterau cynadledda fideo, gan gyfuno dosbarthiadau i greu grwpiau o feintiau hyfyw.

> *"A ninnau'n ysgol cyfrwng Cymraeg byddwn yn cynnig dosbarthiadau gyda grwpiau bach os oes raid i ni, mae'n ddyletswydd arnom i redeg cyrsiau. Ar ôl 16, pum dysgwr sy'n cyfateb i grŵp hyfyw i ni."* (Pennaeth Ysgol Cyfrwng Cymraeg)

**Asesiadau Galwedigaethol**

5.21 Mewn un ardal y buom yn ymweld â hi, roedd yr holl gyrsiau yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Ond, mewn rhai cyrsiau (e.e. Adeiladwaith) mae'r disgyblion yn cael eu gorfodi i wneud eu hasesiad yn Saesneg oherwydd bod yr offeryn asesu ar-lein yn uniaith Saesneg.

## 6 LOGISTEG A FFACTORAU ERAILL

6.1 Roedd materion logistaidd, fel amserlennu, cludiant a lleoliad gwledig rhai ysgolion yn aml yn cael eu tanlinellu fel rhwystrau arbennig oedd yn atal cydweithredu. Nid yw'r materion hyn yn rhai na ellir eu goresgyn ynddynt eu hunain; ond, o'u rhoi gyda'i gilydd fe allant wneud i weithio cydweithredol ymddangos yn rhywbeth na ellir ei gyflawni.

6.2 Mae'r sialensiau logistaidd a wynebir yn gofyn am gydweithio yn lleol i ddynodi'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen a goresgyn yr anawsterau. Mae'r cydweithio hwn yn gofyn am arweiniad cryf gan y bartneriaeth ac agwedd flaengar, 'mi allwn ni wneud hyn' gan aelodau'r rhwydwaith.

6.3 Fe ddaethpwyd o hyd i atebion i lawer o'r problemau cynnar a ddynodwyd, ac o roi amser, fe ddaw atebion eraill i'r problemau sy'n weddill.

6.4 Mae'r adran hon yn cofnodi'r pryderon a godwyd trwy'r ymchwil a rhai o'r atebion sydd wedi cael eu gweithredu i'w goresgyn.

**Amserlennu**

6.5 Roedd pob un o'r ardaloedd y buom yn ymweld â nhw wedi gweithredu amrywiadau ar fodelau 'amserlennu bloc'. Yn y modelau hyn, roedd naill ai un diwrnod llawn yr wythnos neu ddau floc hanner diwrnod yn cael eu clustnodi fel blociau 'darpariaeth gydweithredol' ar yr amserlen. Yn ychwanegol at y problemau cyffredinol wrth gael amserlenni i gyd-daro ar draws ysgolion, roedd problemau eraill wedi dod i'r golwg, fel yr effaith ar amserlen gweddill yr ysgol a'r angen i gyfaddawdu o ran hoff ddewisiadau o ran pynciau pan na ellir cymryd dewisiadau amrywiol gyda'i gilydd.

**Cael Amserlenni i Gyd-daro**

6.6 Un o'r sialensiau allweddol i'r holl ysgolion uwchradd oedd gweithio i gael amserlenni i gyd-daro. Nid oedd hyn wedi bod yn dasg hawdd mewn unrhyw fodd, gan fod gan ysgolion yn yr un ardal awdurdod lleol yn aml amseroedd gwahanol iawn ar gyfer cychwyn a gorffen y diwrnod ysgol a nifer wahanol o gyfnodau dysgu o wahanol hyd, yn arbennig pan oedd yn cynnwys ffactor ychwanegol o orfod cludo myfyrwyr i ysgolion eraill ar fws neu dacsi. Adroddodd rhai ysgolion bod hyn wedi gwneud cael yr amserlenni i gyd-daro yn eithriadol o heriol a'i fod wedi cael "ôl-effaith" i fyfyrwyr oedd yn ymwneud â darpariaeth oddi ar y safle a'r rhai nad oeddynt yn cymryd rhan.

> *"Gall rhoi blaenoriaeth i ailstrwythuro amserlenni er mwyn bodloni'r Mesur gael effaith niweidiol ar ddisgyblion CA3, a fyddai'n peri pryder, gan ei fod yn cael ei gydnabod yn eang mai yn CA3 y mae disgyblion sy'n colli diddordeb yn troi eu cefnau ar addysg."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

6.7 Roedd yr angen am amserlennu "bloc" yn agwedd negyddol i ysgolion ar y dechrau. Roedd amserlen bloc yn golygu bod pynciau eraill yn gorfod cael eu trefnu o gwmpas y diwrnod cyfan oddi ar y safle i nifer fechan o ddisgyblion. Roedd darparu ar y cyd wedi ei gwneud hi'n ofynnol i gael mwy o wersi dwbl a threbl, nad oedd yn cael eu hystyried yn gyfrwng gorau ar gyfer cyflwyno gwersi. Os yw myfyriwr (neu athro) yn colli diwrnod trwy salwch ac yn colli gwers drebl, mae ganddynt lawer iawn o waith i ddal i fyny. Fodd bynnag, dywedodd ysgolion a Chydlynwyr Rhwydwaith bod y dull o gyflwyno bob yn hanner diwrnod wedi gweithio yn dda ac mae athrawon wedi gweld bod manteision i gyflwyno dwys o'r fath.

6.8 Arweiniodd amserlennu darpariaeth CA5 mewn blociau diwrnod llawn at effeithlonrwydd o ran costau mewn rhai ardaloedd. Roedd y model hwn yn golygu ei bod yn bosibl integreiddio dysgwyr o'r ysgol gyda grwpiau o fyfyrwyr coleg amser llawn ar sail un diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, er bod y cynnig hwn ar gael i bob ysgol mewn un ardal, dim ond disgyblion o ddwy ysgol sy'n teithio i'r coleg.

> *“Mae gweithio’r amserlen CA5 o amgylch cynnig y coleg ar gyfer darpariaeth alwedigaethol ynghyd ag AS a lefel A yn un o’r prif resymau pam mai dim ond dwy ysgol sydd wedi derbyn y cynnig i gymysgu’r ddarpariaeth ysgol a choleg hyd yn hyn.”* (Pennaeth Cynorthwyol Coleg)

6.9 Mewn un ardal astudiaeth achos, roedd amserlennu ôl 16 wedi cael ei gydlynu yn ganolog gan y bartneriaeth. Mae’r arweinydd amserlen yn yr awdurdod addysg lleol yn amserlennwr sy’n cael ei barchu sy’n adnabyddus ar draws yr ardal. Roedd ganddo’r hygrededd ymhlith yr ysgolion i fedru datblygu amserlen gyffredin.

**Newidiadau Amserlennu**

6.10 Bu’n rhaid i ysgolion newid y ffordd y maent yn amserlennu dosbarthiadau, gan gyflwyno rhagor o athrawon a rennir i ddosbarthiadau, er enghraifft. Mae gan ambell i grŵp dri neu bedwar o athrawon i drafod un pwnc iddynt. Roedd defnyddio athrawon a rennir yn cael ei ystyried yn ‘llai na delfrydol’.

6.11 Mae’r camau eraill y mae ysgolion wedi eu cymryd yn cynnwys cael gwared ar rai cyrsiau ym Mlwyddyn 7 (oherwydd nad oes ganddynt athrawon bellach yn y meysydd hynny), a all gael oblygiadau i ddewisiadau dysgu disgyblion Blwyddyn 7 wrth iddynt symud trwy’r ysgol, a newid ‘anferth’ yn y cwricwlwm CA3.

6.12 Mae un ysgol yn bryderus eu bod yn ‘clymu’ cymaint o’r cwricwlwm yn yr ysgol ar gyfer cyfran mor fechan o’r disgyblion.

> *“Mae gennym ysgol â 1,000 o ddisgyblion. Y llynedd roedd y 6ed Dosbarth, sydd â 130 o ddisgyblion, yn pennu’r cwricwlwm ar gyfer pawb arall, er mai dim ond 5% o’r disgyblion sy’n newid safle. Y sefyllfa ddelfrydol fyddai cael archysgolion, ysgolion mawr sy’n medru darparu popeth.”* (Pennaeth Ysgol)

6.13 Mae’n anochel y bydd gwrthdaro ar yr amserlenni ac maent yn cael yr effaith o gyfyngu pa gyrsiau y mae pobl ifanc yn medru eu dilyn. Roedd un enghraifft y dywedwyd wrthym amdani yn cyfeirio at grŵp o bump o ddisgyblion oedd â diddordeb mewn dilyn cwrs Amaeth mewn ysgol cyfrwng Cymraeg leol. Yn ymarferol, dim ond tri ohonynt a wnaeth y daith i fynychu’r cwrs Amaeth gan ei fod yn gwrthdaro â dosbarth Addysg Gorfforol Blwyddyn 10, ac fe wnaethant benderfynu mynychu hwnnw.

**Atebion ar gyfer yr Amserlen**

6.14 Roedd yn ofynnol canfod atebion blaengar i oresgyn rhai o’r sialensiau logistaidd lleol a gyflwynwyd fel rhwystrau i atal gweithio cydweithredol. Mae’r atebion hyn yn eang ac yn cynnwys newid amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol; ‘blocio’ darnau mawr o’r amserlen i wneud amseroedd y gwersi yn hirach; a chynyddu’r defnydd o TGC i ddarparu cyrsiau.

**Astudiaeth Achos – Atebion i Broblemau Logistaidd**

Mewn un ardal, mae ysgolion mewn ardaloedd gwledig iawn wedi dod o hyd i ateb blaengar i’w anawsterau cludiant lleol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- gweithio gyda gweithredwr trên lleol a newid amseroedd cychwyn yr ysgol ac amseroedd y trenau i weddu i ofynion yr ysgol. Mae’r disgyblion yn awr yn cychwyn yr ysgol am 8.15 ac yn gorffen am 2.15pm; mae’r amserlen anarferol hon hefyd yn galluogi’r disgyblion i gymryd rhan mewn cyrsiau cydweithredol (Sbaeneg a’r Gyfraith) dan arweiniad ysgol arall ar ddiwedd y diwrnod ysgol ac yn dal trên hwyrach adref;
- mae ysgol arall wedi buddsoddi mewn dau fws mini (diolch, yn rhannol, i roddion a dderbyniwyd gan gyflogwyr lleol), sy’n galluogi disgyblion i gael eu cludo i ysgolion eraill ac i safleoedd colegau;
- gwnaed trefniadau teithio cymhleth gan un consortiwm o ysgolion, lle mae bysiau yn teithio rhwng yr ysgolion, yn codi disgyblion a’u cludo i fannau penodol ar gyfer cyrsiau. Mae hyn wedi gofyn am drefniadau manwl i’r amserlenni yn yr ysgolion gyd-daro;
- defnyddir cwmnïau tacsi lleol yn eang i gludo disgyblion rhwng yr ysgol a safleoedd ysgol/coleg;
- mae un ysgol wedi ‘blocio’ ei hamserlenni Blynyddoedd 10 ac 11. Mae hyn

wedi cael effaith ar batrwm y gwersi mewn pynciau craidd yn ogystal â rhai dewisol. Yn ôl Pennaeth yr ysgol, mae hyn wedi cael croeso gan y disgyblion, i'r graddau bod disgyblion ym mlynyddoedd 7-9 hefyd wedi gofyn a ellid newid eu hamserlenni i ganiatáu gwersi hwy. Mantais arall anfwriadol oedd bod yr ysgol wedi mynd yn "*llawer tawelach"* gan fod disgyblion yn treulio llai o amser yn symud rhwng dosbarthiadau;

- gwneir peth defnydd o fideo gynadleddau i gyflwyno gwersi e.e. mae gwersi Sbaeneg a Ffrangeg yn cael eu cyflwyno o un ysgol 'westeia' i ddysgwyr mewn darparwyr eraill.

6.15 Fodd bynnag, mae rhai problemau ymarferol yn gysylltiedig â'r atebion hyn, sy'n atal effeithlonrwydd yn ymarferol.

6.16 Er enghraifft, mae pryderon am oblygiadau iechyd a diogelwch cludo disgyblion mor ifanc ag 14 o un sefydliad i un arall. Yn aml mae disgyblion yn gorfod aros am drenau a bysiau, sy'n peri pryder o safbwynt diogelwch ac o ran ymestyn dyddiau sydd eisoes yn hir. Yn ychwanegol, mae costau cludo disgyblion rhwng safleoedd yn arbennig o uchel. Fel y dywedodd un sylwebydd, *"mae cwmnïau tacsi yn yr ardal hon wedi cael budd mawr o'r Mesur Dysgu a Sgiliau."*

6.17 Fe wnaeth y disgyblion y gwnaethom siarad â nhw hefyd ychwanegu eu pryderon a'u rhwystredigaeth gyda'r system. Roeddent wedi cael anawsterau o ran y lefel o gludiant oedd yn angenrheidiol; y bwlch rhwng yr amser pan oedd cludiant ar gael a'r gwersi yn cychwyn; ac arddull dysgu'r athrawon gan ddarparwyr eraill:

- dywedodd un disgybl oedd wedi penderfynu astudio oddi ar y safle na fyddai wedi gwneud hynny petai wedi sylweddoli pa mor feichus oedd teithio at y darparwr arall;
- roedd yn ofynnol i ddisgyblion mewn un ysgol golli un wers oedd ar yr amserlen (TGCh) er mwyn cyd-fynd â threfniadau teithio'r ysgol oedd yn bartner. Roedd y system yn arbennig o boenus i dri disgybl oedd yn gorfod aros am awr cyn i'w gwersi gychwyn yn yr ysgol oedd yn bartner/darparu. Roeddent hefyd yn gorfod aros o gwmpas yn yr ysgol oedd yn darparu ar ddiwedd y dydd i gael lifft yn ôl i'w 'ysgol gartref';

- roedd y syniad o gyfarfod disgyblion o ysgolion eraill yn “codi ofn” ar rai i gychwyn, er eu bod yn cydnabod manteision cyfarfod pobl newydd ar ôl setlo ar eu cyrsiau. Roedd yn ddiddorol bod nifer o’r disgyblion wedi nodi eu bod yn adnabod y bobl eraill ar y cwrs cyn mynd oherwydd eu bod wedi ‘cyfarfod’ ar safleoedd rhwydweithio ymlaen llaw;
- dywedodd dau ddisgybl eu bod wedi ei gweld yn anodd iawn i arfer hefo arddull dysgu’r athrawon newydd, problem oedd yn gwaethygu oherwydd amgyffrediad bod yr athro yn yr ysgol oedd yn darparu yn mynd ati mewn ffordd wahanol i arbenigwr yn y pwnc oedd ganddynt yn eu ‘hysgol gartref’;
- teimlai disgyblion Blwyddyn 12 mewn un ysgol nad oedd ganddynt y gefnogaeth y byddent yn ei dymuno gan yr athro pwnc arbenigol yn eu sefydliad cartref. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y rhai oedd yn unig ddisgyblion o’u hysgol yn astudio pynciau penodol mewn ysgolion partner h.y. nid oedd ganddynt neb i siarad â nhw rhwng gwersi.

6.18 Efallai y bydd y problemau hyn yn cael eu goresgyn wrth i ysgolion arfer â chyflenwi darpariaeth gydweithredol dros gyfnod o amser.

**Cludiant**

6.19 Er bod 14 o’r 20 ymatebwr yn credu bod trefniadau cludiant wedi gweithio o leiaf yn rhesymol o dda i’r dysgwyr, mae cludiant yn dal i gael ei ystyried yn broblem sylweddol. Mynegodd yr ymatebwyr eu pryder, os bydd cydweithredu yn cael ei ehangu ymhellach eu bod yn disgwyl i hynny roi mwy o bwysau ar drefniadau cludiant. Mae lleoliadau gwledig a chost yn amlwg fel rhesymau pam bod trefniadau yn aneffeithiol.

> *“Fe fydd cyndynrwydd ar ran rhai rhieni neu ddysgwyr o hyd i deithio tu allan i amgylchedd yr ysgol gartref. Mae hyn yn dueddol o leihau dros amser wrth i bobl weld bod cydweithredu a phartneriaeth yn gweithio yn effeithiol ac yn cyflawni ansawdd.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

6.20 Mae’r dewisiadau presennol – yn arbennig yn CA4 – yn ddibynnol ar barodrwydd y dysgwyr i deithio pellter a all fod yn bell iawn i safleoedd colegau neu ysgolion eraill i ddilyn dewisiadau ychwanegol (a pharodrwydd eu rhieni i ganiatáu hyn). Arweiniodd gwrthwynebiad ysgolion i ddisgyblion deithio ymhell at ddarparu peth pynciau galwedigaethol yn yr ysgolion a all gynnwys elfen o wariant cyfalaf. Gall hyn greu colledion o ran maint (e.e. o ran arlwyo neu gyfleusterau eraill sy’n drwm ar gyfalaf) ac, fe ellid dadlau bod yr addysgu heb gystal sylfaen.

6.21 Mae rhai ardaloedd yn rhoi cymhorthdal tuag at docynnau trafnidiaeth gyhoeddus i ddisgyblion, ond, nid yw llwybrau’r bysiau yn yr ardaloedd hyn o angenrheidrwydd yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr 14-19. Mewn un ardal o’r fath, darperir tocynnau o’r fath sy’n cael eu prynu ar raddfa ostyngol yn ganolog gan yr awdurdod lleol a’u dosbarthu i ysgolion. Er bod hyn yn gofyn am gydweithredu eang iawn a chefnogaeth ar draws yr ardal, mae’r costau yn awr i lawr o tua £180,000 y flwyddyn i £60,000, arbediad o £120,000 y flwyddyn. Ond, dim ond mewn ardaloedd poblog iawn y mae defnyddio hyn yn unig neu yn eang yn debygol lle mae isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus addas.

6.22 Mewn un ardal astudiaeth achos bydd cludiant yn cael ei ariannu yn yr awdurdod am y flwyddyn nesaf. Ond, tu hwnt i’r amser hwnnw mae ansicrwydd o ble y bydd y cyllid yn dod. Trefnir cludiant yn ganolog, mae’r awdurdod lleol yn ganolog yn prynu contractau gyda chwmnïau tacsi a bysiau mini yn ôl y gofyn. Mae un aelod o staff yn cael ei gyflogi i drefnu a monitro cludiant. Y costau cludiant ym Mlwyddyn 1 oedd £40k; fe wnaethant gynyddu’n sylweddol ym Mlwyddyn 2 i dros £100k a sefydlogi ym Mlwyddyn 3, er bod mwy o ddysgwyr yn teithio.

6.23 Dywedodd un ysgol bod y trefniadau cludiant yn iawn ar hyn o bryd tra byddant yn cael eu hariannu, ond, pan fydd y cyllid yn dod i ben ac ysgolion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain *‘nid oes unrhyw ffordd’* y bydd yn gweithio.

### Lleoliadau Gwledig

6.24 Mae darparwyr mewn lleoliadau gwledig yn wynebu rhwystrau amlwg sy'n atal gweithio mewn partneriaeth: mae'r pellter rhyngddynt yn golygu bod teithio rhwng safleoedd naill ai yn cymryd llawer o amser neu lawer o arian neu'r ddau.

6.25 Fe all dysgwyr golli'r awydd i deithio i safleoedd eraill oherwydd y pellter neu'r amser. Dywedodd rhai o'r dysgwyr y buom yn ymgynghori â nhw oedd yn teithio am gyfnodau hir bob dydd eu bod yn difaru'r penderfyniad i ddilyn y cwrs. Gall yr ymateb negyddol hwn gael dylanwad ar eraill sy'n ystyried dewis tebyg yn y dyfodol.

6.26 Roedd un Cydlynydd Rhwydwaith yn gweld yr agenda 14–19 yn ei hanfod yn syniad trefol, oedd yn anodd ei addasu i sefyllfaoedd gwledig iawn. Fe nododd, er bod ailstrwythuro'r ddarpariaeth 16-19 wedi cael ei drafod ers amser maith, roedd natur ymylol llawer o ysgolion uwchradd yr ardal (hyd yn oed ar lefel CA3 a CA4) yn gymaint fel y byddai ad-drefnu dysgu ôl 16 yn anochel yn gwneud rhai ysgolion yn anhyfyw.

6.27 Mae gweithio yn gydweithredol mewn lleoliadau gwledig yn heriol. Ond, mae atebion i oresgyn y problemau. Gellid dadlau bod yr agenda gydweithredol ar hyn o bryd yn cael ei chyflawni trwy'r dulliau mwyaf anhwylus: cludo niferoedd mawr o bobl ifanc. Mae atebion gwahanol, fel defnyddio mwy ar athrawon teithiol neu gynadleddau fideo yn debygol o fod yn beirianwaith mwy effeithlon i gyflenwi cyrsiau yn gydweithredol. Er enghraifft, gellid rhannu grŵp o athrawon rhwng nifer o ysgolion i sicrhau eu bod yn medru cynnig amrywiaeth eang o bynciau i ddisgyblion yn eu hysgol gartref.

### Defnyddio TGC/E-ddysgu

6.28 Mae rhai ardaloedd wedi arbrofi o ran defnyddio cynadleddau fideo fel dull o gyflenwi cyrsiau ar draws nifer o safleoedd. Mae'n ymddangos bod ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn arbennig, wedi bod yn fwy blaengar o ran defnyddio technoleg fideo gynadleddau.

6.29 Mewn un enghraifft, mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, mae athrawon ar un safle yn dysgu eu dosbarth eu hunain a'r disgyblion ar y safle arall trwy ddolen fideo. Mae cymhorthydd dysgu hefyd yn bresennol yn y 'dosbarth fideo' i gasglu gwaith cartref ac i fonitro'r dosbarth.

6.30 Nid oedd disgyblion mor hoff o'r trefniant, gan ddweud nad ydynt yn teimlo eu bod yn dysgu cymaint wrth gael eu dysgu trwy'r cyfrwng hwn. Yn ychwanegol, roedd rhai problemau technolegol ar y dechrau wedi amharu ar rai o'r dosbarthiadau.

6.31 Yn yr un modd, roedd un coleg wedi gwneud defnydd eang o gynadleddau fideo i ymestyn y ddarpariaeth CA5 oedd ganddynt, ond nid oedd wedi bod yn llwyddiannus trwy'r trwch.

> *"Mae llawer o'r ehangu yn y ddarpariaeth ôl 16 wedi cael ei gyflawni trwy gynadleddau fideo. Ond, mae wedi ysgogi canlyniadau cymysg o ran gwerthusiad. Mae rhai pynciau yn iawn dros y ddolen fideo ond rydym wedi gweld nad yw'n addas o gwbl ar gyfer eraill."*

6.32 Mae hon yn farn gyffredin ymhlith cydlynwyr nad yw cynadleddau fideo, a chyfleusterau TGCh yn gyffredinol, yn cael eu defnyddio ddigon ar hyn o bryd.

> *"Nid oes cymaint o ddefnydd o gynadleddau fideo ac y gallai fod."* (Cydlynydd Rhwydwaith)

6.33 Mae'r rhwystrau posibl i atal cyflwyno cynadleddau fideo yn ehangach yn cynnwys hyfforddi athrawon ac addasrwydd y dechnoleg ar gyfer rhai pynciau. Dylai athrawon neu diwtoriaid gael eu hyfforddi yn briodol o safbwynt addysgu i ddefnyddio'r offer, yn hytrach nag o safbwynt technegol yn unig. Mae pryder hefyd na fydd cynadleddau fideo mor addas ar gyfer cyflwyno pynciau galwedigaethol.

**Enghraifft o Ddefnyddio TGCh**

6.34 Mewn un ardal, mae'r Rhwydwaith, ynghyd â Rhwydwaith 14 -19 gyfagos, wedi buddsoddi yn helaeth (tua £200k y flwyddyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf) mewn datblygu *"e-ddysgu fel elfen ganolog"* o'i ddull o ehangu'r dewis ar y cwricwlwm ac annog cydweithredu rhwng sefydliadau.

6.35 Mae rhan o arian Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol y sir wedi cael ei ddefnyddio i dalu costau *"canolfan ar gyfer rhagoriaeth e-ddysgu"*, a elwir yn GRe, sy'n gweithredu fel uned ar wahân yn y gwasanaeth cefnogi ysgolion.

6.36 Mae GRe wedi datblygu swm sylweddol o adnoddau dwyieithog, sy'n cyd-fynd â SCORM[10], gan ganolbwyntio i gychwyn ar y pynciau hynny yr oedd peth profiad o ddefnyddio cynadleddau fideo i ddarparu cyrsiau ynddynt h.y. Seicoleg, Cymdeithaseg ac Addysg Grefyddol. Yn fwy diweddar, datblygwyd adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu mewn pynciau sy'n cael blaenoriaeth yn lleol fel Manwerthu, Peirianneg a Gofal Plant (CACHE). Mae'r adnoddau hyn ar gael i ysgolion y sir trwy eu moodle, ac mae rhai yn cael lle ar wefan Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru.

6.37 Yn ddiweddar, mae'r rhwydwaith wedi *"gwerthu"* y dull hwn i'r Rhwydweithiau 14-19 eraill ac maent yn debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol.

6.38 Yn gyfochrog â hyn, mae'r Rhwydwaith wedi ceisio datblygu'r gallu e-ddysgu yn y sir, trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau cynadleddau fideo mewn rhai ysgolion a darparu hyfforddiant i ymarferwyr ddefnyddio cynadleddau fideo fel rhan o ddull sy'n cyfuno gwahanol arddulliau o addysgu a dysgu.

6.39 Hyd yn hyn, dim ond defnydd cyfyngedig a wnaed o gynadleddau fideo i gyflenwi cyrsiau, ac yn y mannau lle mae'n cael ei ddefnyddio, mae'n cael ei weld yn gyffredinol fel modd o *"gyfoethogi"* cyrsiau a gyflwynir mewn dulliau mwy traddodiadol. Ond, y disgwyl yw y bydd cyfran gynyddol o fwy o gyrsiau yn cael eu cyflwyno trwy gynadleddau fideo dros y blynyddoedd nesaf.

[10] Safon ar gyfer datblygu, pecynnu a chyflenwi deunyddiau ar gyfer cyrsiau hyfforddi ar-lein yw SCORM.

# 7 CYMORTH I DDYSGWYR

7.1 Un datblygiad mawr sydd wedi digwydd mewn Cymorth i Ddysgwyr yw cyflwyno'r swyddogaeth Anogwr Dysgu. Dylai pob unigolyn ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 25 oed dderbyn cymorth gan Anogwr Dysgu. Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau yn darparu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ac i roi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Mae'r swyddogaeth anogwr dysgu yn un agwedd o'r gwasanaethau cymorth i ddysgwyr y dylid ei darparu.

7.2 Fe wnaethom ddarganfod bod darparwyr wedi symud y swyddogaeth Anogwr Dysgu ymlaen i raddau amrywiol. Roedd rhai wedi penderfynu bod y ddarpariaeth Cymorth i Ddysgwyr bresennol yn cynnwys y swyddogaeth Anogwr Dysgu i'r graddau nad oeddent yn teimlo'r angen i newid yr hyn yr oeddynt yn ei wneud yn barod. Mae eraill wedi symud y swyddogaeth Anogwr Dysgu ymlaen yn fwy brwdfrydig.

7.3 Ceisiodd yr ymchwil ddeall sut yr oedd y swyddogaeth Anogwr Dysgu yn cael ei weithredu mewn ardaloedd gwahanol. Byddai datblygiad y swyddogaeth Anogwr Dysgu, y dulliau gwahanol o'i ddarparu, ac effaith yr Anogwyr Dysgu, yn cyfiawnhau adroddiad iddo ei hun. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried:

- barn ar ddylanwad y Mesur ar ansawdd y cymorth dysgu;
- modelau Anogwr Dysgu;
- hyfforddiant Anogwr Dysgu;
- argaeledd cyllid.

**Dylanwad y Mesur ar Ansawdd y Cymorth i Ddysgwyr**

7.4 Adroddodd Cydlynwyr, pan fydd y Mesur wedi dylanwadu ar gymorth i ddysgwyr, ei fod wedi cael effaith gadarnhaol. Teimlai mwyafrif bychan o gydlynwyr (11 o 20) nad oedd y Mesur wedi cael dylanwad ar ansawdd y cymorth i ddysgwyr. Teimlai bron bob un o'r naw cydlynydd oedd yn weddill (8 o 9), bod y Mesur wedi cael effaith gadarnhaol ar gymorth i ddysgwyr (**Tabl 7.1**).

| **Tabl 7.1: ‘I ba raddau fyddech chi’n cytuno neu’n anghytuno bod datblygu’r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi cael dylanwad cadarnhaol ar gymorth i ddysgwyr?’** | |
|---|---|
| Cytuno’n Gryf | 2 |
| Cytuno | 6 |
| Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | 11 |
| Anghytuno | 1 |
| Anghytuno yn Gryf | 0 |
| Ddim yn Gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg YCL o Gydlynwyr Rhwydwaith

7.5 Teimlai’r rhai nad oedd yn cytuno nac anghytuno uchod ei bod yn rhy gynnar i wybod pa effaith yr oedd y Mesur yn ei gael ar gymorth i ddysgwyr; y byddai’r cymorth fyddai’n cael ei ddarparu yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr; neu fod y ddarpariaeth eisoes yn ddigonol.

> *“Bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar y sefydliad y maent yn perthyn iddo, a bydd yn amrywio yn fawr ym mhob man, nid dim ond unrhyw Awdurdod ond trwy Gymru hefyd. Er y gall y Mesur sicrhau’r lleiafswm o ran safonau bugeiliol a chymorth i ddysgwyr, roedd sefydliadau da yn gwneud llawer mwy na’r lleiafswm hwn yn barod.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)
>
> *“Nid yw’r Mesur Dysgu a Sgiliau eto yn ymdrin yn uniongyrchol â’r mater cymorth i ddysgwyr. Mae’r elfen sy’n ymwneud â chymorth wedi ei dal yn ôl nes y cyhoeddir dogfen fydd yn uno ar rôl y Gwasanaeth Ieuenctid/ Anogwyr Dysgu ac ati.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

**Amrywiaethau mewn Ardaloedd ALl**

7.6 Nid yw’r ddarpariaeth Anogwr Dysgu yn unffurf mewn ysgolion ar draws yr un ardal, heb sôn am ysgolion mewn ardaloedd gwahanol.

7.7 Er enghraifft, mewn un ardal bu cyflwyno Anogwyr Dysgu a chymorth i ddysgwyr yn uchel iawn ar yr agenda i’r awdurdod addysg lleol a’r Rhwydwaith 14-19. Roedd y darlun cymysg hwn yn golygu, tra bod gan ddysgwyr fynediad at y swyddogaeth annog yn ddamcaniaethol, bod dyfnder y gefnogaeth a ddarperir o ran darpariaeth arbenigol un i un yn amrywiol.

*“Rydym wedi cynyddu gallu Anogwyr Dysgu ar draws lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol ac yn awr mae gan yr holl anogwyr safonau cydnabyddedig mewn lleoliadau ffurfiol.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

7.8 Mae graddfa *“aeddfedrwydd ac ymwreiddiad”* Anogwyr Dysgu, fodd bynnag, yn parhau ar lefelau gwahanol mewn ysgolion gwahanol. Y ddau eithaf yw un ysgol sydd â phedwar Anogwr Dysgu llawn amser (sydd yn gwneud y gwaith hwn yn benodol h.y. dim ymrwymiadau dysgu eraill).

*“Maent yn cael digonedd o adnoddau ac mae’n fodel llwyddiannus iawn.”* (Cydlynydd Rhwydwaith)

7.9 Ar ben arall y raddfa mae ysgol arall, tebyg ei maint a dim ond un Anogwr Dysgu rhan-amser.

7.10 Daw enghraifft arall o’r amrywiaeth yma o ardal Wrecsam, lle’r ystyrir bod y swyddogaeth Anogwr Dysgu yn gweithio yn dda. Ond, fe wnaeth Estyn ddynodi bod *“ychydig o ysgolion heb ddeall yn llawn na chydnabod sgiliau eu Hanogwyr Dysgu ac weithiau maent yn eu defnyddio fel cynorthwywyr cefnogi dysgu.”*

**Modelau Darparu Anogwyr Dysgu**

7.11 Datgelodd yr ymchwil sbectrwm eang iawn o fodelau yn ymgorffori’r swyddogaeth Anogwr Dysgu. Roedd y rhain yn amrywio o staff ysgol yn cael eu dynodi fel Anogwyr Dysgu amser llawn - heb gyflawni'r un rôl arall - i ddull ‘ysgol gyfan’, lle’r oedd holl staff yr ysgol yn cael eu hyfforddi i fod yn Anogwyr Dysgu. Roedd y rôl ei hun yn amrywio hefyd. Roedd rhai Anogwyr Dysgu yn gweld eu hunain fel darparwyr cymorth academaidd yn unig; tra bod eraill yn gweld eu rôl fel un lle’r oeddynt yn rhoi cyfarwyddyd bugeiliol.

7.12 Mewn un ardal astudiaeth achos, mae’r awdurdod lleol wedi cynnal hyfforddiant eang ar Anogwyr Dysgu. I gychwyn, roedd yr Anogwyr Dysgu wedi cychwyn fel athrawon yn yr ysgolion, dirprwy benaethiaid ysgol neu staff dysgu eraill. Ond, maent wedi gweld nad oes gan yr aelodau hynny o staff amser i wneud y swyddogaeth Anogwr Dysgu. Felly, mae cymhorthwyr dysgu a goruchwylwyr, pobl sydd â rhywfaint o hyblygrwydd yn ystod y dydd yn yr ysgol, yn dilyn yr hyfforddiant Anogwr Dysgu yn wirfoddol.

7.13 Mae enghreifftiau amrywiol o gyflawni Anogwyr Dysgu, sydd wedi tyfu yn organaidd mewn ysgolion i ddiwallu eu hanghenion:

- mewn un Chweched Dosbarth mae gan bob un o'r myfyrwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru hawl i gymorth gan Anogwr Dysgu. Mae gan yr Anogwyr Dysgu yn yr ysgol faich gwaith o tua 100 disgybl yr un, ac maent yn eu cyfarfod yn fisol;
- Anogwyr Dysgu sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant mewn un ardal mae gan bob Anogwyr Dysgu faich gwaith o 12-15 o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o ddod felly. Maent yn 'rhieni benthyg', yn helpu disgyblion i godi yn y bore a chyrraedd yr ysgol mewn rhai achosion. Maent yn gweithio yn glos gyda theuluoedd pobl ifanc, gan dreulio llawer o amser 'oddi ar y safle' ac yn cefnogi pobl ifanc ar deithiau bws i ddarpariaeth oddi ar y safle i wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd yno;
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mewn un ardal, mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi penodi Anogwr Dysgu, a fydd yn swydd benodol i un unigolyn. Mae'r ysgolion Cymraeg yn gweithio gyda'i gilydd i lunio model sy'n cyflawni eu hanghenion. Bydd athrawon yn cyflawni'r hawl llinell flaen am gymorth Anogwr Dysgu, pan fydd ar bobl ifanc angen rhagor o gefnogaeth byddant yn cael eu cyfeirio ymlaen at yr Anogwr Dysgu penodol;
- mewn ysgol arall mae Penaethiaid Blwyddyn cynorthwyol wedi cael eu penodi ac maent yn cynnal y swyddogaeth Anogwr Dysgu. Mae tîm o bum Anogwr Dysgu a all weithio gyda'i gilydd ar feysydd penodol (pan fydd dysgwyr yn gwneud eu dewisiadau/sefyll arholiadau er enghraifft) i rannu'r baich gwaith ar draws yr ysgol yn y cyfnodau allweddol hynny;
- mae un bartneriaeth leol yn bwriadu cyflogi Anogwr Dysgu i weithio ym mhob un o'i hysgolion.

7.14 Trwy ganolbwyntio gwaith yr Anogwyr Dysgu ar bobl ifanc heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, mae un awdurdod lleol yn gobeithio medru cael effaith ar y nifer o bobl ifanc hyn sy'n troi cefn ar y system bob blwyddyn.

*“Nid oes gan ysgolion yr adnoddau i ymdrin ag anghenion y dysgwyr NEET. Gall yr Anogwyr Dysgu ddarparu’r gefnogaeth ychwanegol honno, trwy weithio gyda phobl ifanc i’w hatal rhag troi cefn ar y system. Mae ar yr agenda NEET angen gweithlu eang iawn; maent wedi defnyddio cyllid gan Cymorth i ddarparu hynny.”* (Ymgynghorydd 14-19 Awdurdod Lleol)

7.15 Yr oedd gan un o’r ysgolion y buom yn ymweld â hi Anogwyr Dysgu penodol ac roedd wedi bod yn gweithredu’r model am y tair neu bedair blynedd diwethaf. Nid oedd gan yr Anogwyr Dysgu unrhyw gyfrifoldebau addysgu, er bod ganddynt brofiad blaenorol o addysgu. Y pwyntiau allweddol a ddaeth i’r golwg o’r trafodaethau gyda’r Anogwyr Dysgu oedd:

- Roedd Anogwyr Dysgu yn gweld eu rôl fel un â phwyslais academaidd iawn. *“Rydym yma i helpu gyda’r gwaith ysgol – nid i gynnig gwasanaeth paned a chydymdeimlad”.* Roedd yr Anogwyr Dysgu yn glir bod materion heb fod yn rhai academaidd yn golygu bod angen cyfeirio disgyblion at gynghorwyr (oedd ar gael yn yr ysgol hefyd);
- roedd cyfraddau presenoldeb, cwblhau a chyflawni wedi codi’n drawiadol ers cyflwyno’r tîm Anogwyr Dysgu yn yr ysgol. Dywedodd un athro *“Mae’r Anogwyr wedi bod yn llwyddiant ysgubol”;*
- mae agweddau wedi newid yn sylweddol ers i’r tîm Anogwyr Dysgu ddechrau ar eu gwaith. I gychwyn roedd stigma yn gysylltiedig o safbwynt y disgyblion ac roedd rhai athrawon yn eu gweld fel bygythiad. Diflannodd hynny yn gyflym iawn ac mae’r rôl newydd yn cael ei gwerthfawrogi yn fawr – sy’n cael ei danlinellu gan y ffaith bod athrawon yn cyfeirio disgyblion yn weithredol at y gwasanaeth Anogwyr Dysgu;
- mae manteision allweddol ynghlwm wrth gael Anogwyr Dysgu yn sefyll ar eu traed eu hunain. Mae hyn yn cynnwys rhagor o hyblygrwydd; mae ganddynt amser a’r gallu i’w dreulio ar “*weithgareddau dal i fyny”* mewn grŵp a rhai un i un. Gellir cyflawni llawer iawn mwy trwy gael staff penodol;
- mae rhai dulliau blaengar yn awr yn dechrau tyfu allan o’r swyddogaeth Anogwr Dysgu (e.e. tiwtora cyfoedion);

- bu cefnogaeth gan Benaethiaid Ysgol yn allweddol i integreiddio'r Anogwyr Dysgu i'r ysgol. Heb gymaint o weithgarwch gan y Pennaeth ni fyddai'r rhaglen wedi bod mor llwyddiannus.

7.16 Mewn ardal arall, nid yw'r awdurdod lleol yn glir a yw Anogwyr Dysgu yn bobl, prosesau neu swyddogaethau. Nid ydynt yn siŵr a yw cymorth Anogwr Dysgu yn hawl i bawb i gael cymorth ychwanegol neu a ddylid ei dargedu ar y rhai a all fod yn colli diddordeb. Fe wnaeth yr awdurdod lleol dargedu cefnogaeth i gychwyn ar ddisgyblion penodol, ond o hyn ymlaen bydd gan bob myfyriwr ym Mlwyddyn 10 Anogwr Dysgu.

7.17 Dywedodd yr awdurdod lleol mai prif rôl yr Anogwyr Dysgu yw mynd gyda'r disgyblion pan fyddant yn ymweld â'r coleg, gan sicrhau eu bod yn ymddwyn yn dda a bod dolen gyswllt rhwng yr ysgol a'r coleg.

> *"Fe wnaethom benderfynu yn gynnar y gallem ni atal llawer o broblemau trwy anfon yr Anogwr Dysgu i'r coleg gyda'r disgyblion. Maent yn llawer mwy tebygol o lwyddo os oes ganddynt gefnogaeth Anogwr Dysgu ar y safle."* (Pennaeth Datblygu 14-19)

7.18 Yn yr ardal hon, mae'r colegau am i'r Anogwyr Dysgu gymryd rôl fwy goruchwyliol gyda disgyblion 14-16. Pan fydd Anogwyr Dysgu wedi dod gyda myfyrwyr o ysgol maent wedi newid ymddygiad pobl ifanc trwy newid amgylchedd y coleg[11]. Gall pobl ifanc yn awr weld y ddolen rhwng y coleg a'r ysgol ac maent yn gwybod na allant gamymddwyn. Mae'r colegau wedi mynd trwy'r protocolau gyda'r Anogwyr Dysgu o'r ysgolion, eu disgwyliadau a'r llwybrau cyfathrebu i roi adroddiad ar bethau yn ôl i ysgolion.

> *"Mae'r Anogwyr Dysgu yn ymwneud â chydlynu; cael yr Anogwyr Dysgu i gyfarfod ei gilydd a gweithio gydag athrawon i ddatblygu strategaethau i roi cymorth i bobl ifanc. Os ydym yn mynd i integreiddio datblygu sgiliau allweddol ar draws ysgolion a cholegau, yna mae'n rhaid i ni gael sianeli cyfathrebu da."* (Cydlynydd Coleg 14-19)

---

[11] Roedd problemau cychwynnol lle nad oedd rhai Anogwyr Dysgu yn rhoi adroddiad ar ymddygiad drwg neu yn ymdrin ag ef yn y coleg gan mai nid y disgyblion o'u hysgol nhw oedd yn camymddwyn. Roedd y coleg yn awyddus iawn i Anogwyr Dysgu helpu i oruchwylio'r holl ddisgyblion.

*“Pan fydd Anogwyr Dysgu yn gweithio’n dda mae cyfathrebu da rhwng y coleg a’r ysgol. Mae myfyrwyr yn cyflawni’n well yn y coleg oherwydd eu bod yn gwybod bod y cyfathrebu’n digwydd.”* (Cydlynydd Coleg 14-19)

*“Mae gan bob unigolyn ifanc Anogwr Dysgu, er nad ydynt yn eu galw yn Anogwyr Dysgu nac yn gwybod mai dyna yr ydym ni’n eu galw. Mae’r Anogwr Dysgu yn datrys llawer o broblemau ar lefel isel yn y coleg. Gall pethau na fyddem yn cymryd sylw ohonynt yn yr ysgol fod yn broblem fawr mewn coleg, felly mae cael yr Anogwr Dysgu yno yn helpu i wneud pethau’n haws.”* (Pennaeth Ysgol 11-18)

7.19 Mae’r astudiaeth achos isod yn rhoi darlun o’r ffordd y mae’r swyddogaeth Anogwr Dysgu wedi cael ei gweithredu mewn un ysgol mewn un ardal. Nid yw’r astudiaeth achos hon yn gynrychioliadol o’r holl ysgolion yn yr ardal (roedd gan yr ysgol arall yr ymwelwyd â hi fodel gwahanol iawn) nag o’r ardaloedd eraill gan eu bod i gyd wedi mynd at y gofyn am Anogwr Dysgu mewn dull gwahanol. Fe’i rhoddir fel enghraifft o sut y gall y gweithredu weithio yn ymarferol.

**Astudiaeth Achos – Rolau Anogwyr Dysgu**

Mewn un ysgol, roedd yr Anogwyr Dysgu yn cyfarfod yn unigol gyda phob disgybl blwyddyn 11. Dywedodd un Anogwr Dysgu a hyfforddwyd ei bod wedi bod yn amheus ar y dechrau am werth cael sesiynau gyda disgyblion oedd yn cyflawni yn dda yn yr ysgol. Ond, roedd hi wedi darganfod yn ymarferol bod rhai o’r rhai oedd yn ymddangos yn arwynebol fel petaent yn ymdopi yn dda ag anghenion eithaf dwys o ran cymorth mewn gwirionedd ac roedd hi’n awr yn credu yn y dull hwn.

Roedd y materion a drafodwyd yn y sesiynau yn cynnwys:

- ymddygiad;
- gwaith dosbarth;
- trefniadaeth (gan gynnwys technegau adolygu – *“nid yw’r rhai deallus hyd yn oed yn gwybod su ti gynllunio yn aml”*);
- cynlluniau ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys dewisiadau ar y cwricwlwm);
- iechyd a bywyd cymdeithasol/cyfeillgarwch.

Roedd hyd at awr yn cael ei chaniatáu ar gyfer pob sesiwn gychwynnol, er bod ar rai disgyblion angen llai o amser na hyn. I lawer o'r disgyblion, roedd y ffaith nad oedd yn athrawes ond yn Gymhorthydd Dysgu yn fantais oherwydd nad oedd yn cael ei gweld fel rhywun awdurdodol. Ond mewn rhai achosion *"gyda rhai o'r rhai mwyaf deallus, gall hyn weithio o chwith – nid ydynt yn deall pam y dylent siarad hefo fi."*

Dywedwyd bod y berthynas gyda Gyrfa Cymru yn rhagorol – gydag ymgynghorydd Gyrfa Cymru yn yr ysgol – a dywedwyd bod y ddwy swydd yn cyd-fynd â'i gilydd.

Er bod gan yr ysgol weithdrefnau da (ac ar wahân) ar gyfer ymdrin â materion amddiffyn plant, roedd wedi gweld bod rhai o'r problemau a godwyd gyda hi yn ddwys iawn ac yn anodd eu trin (fel effaith ysgariad neu banig drwg). Roedd hi'n bryderus am ei bod yn ymwybodol iawn nad oedd wedi cael hyfforddiant mewn cynghori:

*"Mae'r angen am gefnogaeth emosiynol wedi bod yn fwy nag yr oeddwn yn ei ddisgwyl"*[12]*.* Anogwr Dysgu

Gwelai'r Anogwr Dysgu gyfiawnhad dros ddull yr ysgol yn y ffaith bod nifer o'r rhai yr oedd hi wedi helpu mwyaf arnynt – gan gynnwys y disgybl oedd yn cael panig drwg – wedi gwneud yn sylweddol well na'r graddau a ragwelwyd ar eu cyfer.

<u>Cynaliadwyedd</u>

Pwysleisiodd yr ysgol hefyd, tra bod yr arbrawf gydag Anogwyr Dysgu yn gweithio'n dda hyd yn hyn – roedd yn annhebygol y gellid cynnal yr oriau penodol oedd yn cael eu rhoi ar hyn o bryd oni bai am y cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol.

7.20 Mae'n ofynnol cael rhagor o ymchwil i ddeall pa ddulliau o ddarparu Anogwyr Dysgu sy'n cynnig yr effaith mwyaf, a pham bod hyn yn digwydd.

[12] Arweiniodd y pryder hwn at bwynt cysylltiedig am y diffyg cefnogaeth i Anogwyr Dysgu, o ystyried eu bod yn agored i broblemau anodd a dyrys iawn.

**Datblygu Polisi Anogwyr Dysgu**

7.21 Anelwyd beirniadaeth at y datblygiadau Anogwyr Dysgu ar y sail bod Llywodraeth y Cynulliad ar y dechrau wedi gweld y swyddogaeth Anogwr Dysgu fel un yn sefyll ar ei phen ei hun, yn gofyn am anogwyr 'penodol'. Roedd y model yma yn cael ei ystyried yn afrealistig i'r holl ddarparwyr, ac felly, roedd y swyddogaeth yn cael ei chysylltu ag un athrawon prif-ffrwd a thiwtoriaid fel rhan o'u cyfrifoldebau am ofal bugeiliol.

> *"Yr hyn sydd wedi digwydd yw bod diffyg cyllid i wneud Anogwyr Dysgu yn elfen ar wahân wedi arwain at weld y polisi yn llithro. Rhaid edrych ar hyn fwy fel swyddogaeth yn hytrach nag unigolyn. Mae'r hyfforddiant sydd ar gael yn dal yn seiliedig ar y polisi gwreiddiol."*

**Cymwysterau/Hyfforddiant i Anogwyr**

7.22 Roedd un pwynt allweddol a wnaed am Anogwyr Dysgu yn ymwneud â'r cymhwyster OCN L4 y mae'n ofynnol iddynt ei gael. Mewn un ardal roedd yr awdurdod addysg lleol a'r coleg yn meddwl bod y cwrs fel y mae'n sefyll yn *"rhy drwm a beichus"* (yn cynnwys astudio ar benwythnosau ac ati) *"Fedrwn ni ddim cael pob tiwtor i wneud hynny".* Mae'r coleg yn ganolfan achrededig (OCN) i ddarparu hyfforddiant Anogwyr Dysgu a bu hyn yn elfen allweddol o'r ymateb gan y staff presennol.

7.23 Dywedodd rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw bod llawer o ysgolion yn teimlo na allent ryddhau digon o'r staff addysgu ar gyfer yr hyfforddiant, a'u bod yn aml wedi dynodi Cymhorthwyr Cymorth Dysgu ar gyfer y rôl. Ond, roedd hyfforddi Cymhorthwyr Cymorth Dysgu wedi bod yn anodd ei drefnu i gychwyn gyda'r disgwyliad y byddai'r cymhwyster ar Lefel 4. Yn ymarferol, teimlid bod 'y math iawn o bobl' - *"pobl sy'n wirioneddol dda am feithrin"* - yn cael eu dynodi ond nad oedd ganddynt gymwysterau uchel o angenrheidrwydd. Ond, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymddangos fel petai wedi derbyn bod rhaid cael elfen o bragmatiaeth o ran cymwysterau blaenorol.

7.24 Anelwyd peth beirniadaeth at Lywodraeth y Cynulliad hefyd, gyda'r awdurdod addysg lleol a'r coleg mewn un ardal yn dweud bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gorymrwymo i ddefnyddio Addysg Uwch fel darparwr hyfforddiant Anogwyr Dysgu.

> *"Mae diffyg eglurder gwirioneddol am hyn yn awr gan Lywodraeth y Cynulliad. Fe aethon nhw am y model Addysg Uwch o ddarparu hyfforddiant ac nid yw wedi gweithio- nid yw wedi bod yn addas i'r rhai sy'n ei ddilyn. Yn awr maent yn ei chael yn anodd tynnu yn ôl o'r sefyllfa ac maent yn eistedd arno fo. Yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd yw dull sy'n cynnwys mwy o Ddatblygiad Gyrfa Personol yn barhaus sydd wedi ei gysylltu'n nes â'r swydd."*

**Annibyniaeth Cyngor a Chyfarwyddyd**

7.25 Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy a'r rhanddeiliaid ar draws y bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cyngor a chyfarwyddyd **annibynnol**. O ran egwyddor, gall yr Anogwr Dysgu helpu yma, ond oherwydd eu bod ynghlwm wrth sefydliad penodol mae pryder na fyddant yn gweithredu yn annibynnol. Adroddodd ysgolion a cholegau am eu pryderon am annibyniaeth cyngor a chyfarwyddyd y byddai disgyblion yn ei dderbyn gan staff yn eu darparwr cartref. Cyfaddefodd un Anogwr Dysgu ei bod yn dueddol o roi pwyslais arbennig ar y manteision o aros yn Chweched Dosbarth yr ysgol.

> *"Fe wnes i roi pwysau arnynt* [disgyblion] *i ddod yn ôl yma, ond fe wnes i roi pwysau gwirioneddol arnynt i fynd ag edrych ar golegau eraill hefyd."*

**Argaeledd Cyllid**

7.26 Mae ysgolion yn cwestiynu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y swyddogaeth Anogwr Dysgu ac yn teimlo efallai bod angen newid yn yr adnoddau dros y blynyddoedd nesaf mewn ysgolion i adlewyrchu gofynion y swyddogaeth Anogwr Dysgu. Nid ydynt yn siŵr sut y mae'r hawl i Anogwr Dysgu yn mynd i gael ei gynnal dros y blynyddoedd nesaf.

7.27 Ariennir yr Anogwyr Dysgu trwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ac mae gan bob canolfan yn yr awdurdod lleol Anogwr Dysgu wedi ei hyfforddi'n lleol. Mae'r cyllid sydd ar gael i Anogwyr Dysgu yn cyfateb i un Cymhorthydd Dosbarth Lefel 3. Felly, mae defnyddio athro fel Anogwr Dysgu yn ei wneud yn adnodd drud iawn. Mae'r awdurdod lleol yn "frwdfrydig am y syniad" o anogwyr ac maent yn credu bod yr ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol.

# 8 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

**Casgliadau**

**Effaith y Mesur**

8.1 Mae'r Mesur wedi cael effaith gadarnhaol ar weithio cydweithredol yn barod. Mae nifer y cyrsiau a gynigir gan ysgolion wedi cynyddu i ddiwallu anghenion gofynion bandio'r Mesur yn 2009/10. Mae llawer o ysgolion eisoes wedi dangos cynnydd sylweddol tuag at gyrraedd y nifer o ddewisiadau sy'n ofynnol gan y Mesur y flwyddyn nesaf a hyd yn oed yn 2012. Bydd yn ddiddorol monitro a fydd y cynnydd hwn yn cael ei gynnal.

8.2 Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y dysgwyr yn ceisio'r cwricwlwm ehangach. Mae'r nifer sydd wedi dewis cyrsiau wedi cyfateb i'r dewis ehangach.

8.3 Mae'r ymateb gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn awgrymu bod mwy o ddysgwyr yn cymryd y ddarpariaeth alwedigaethol a gynigiwyd iddynt. Ond, nid yw'r data ar y nifer sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yn ddigon dibynadwy ar hyn o bryd i roi arwydd clir o'r newid yn y cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth alwedigaethol a'r un academaidd.

<u>Effaith ar Gydweithredu</u>

8.4 Efallai bod y newid amlycaf o ganlyniad i'r Mesur wedi digwydd i ddarparwyr 'ar ymylon' gweithio mewn partneriaeth. Rhain yw'r darparwyr oedd:

- â dim ond ychydig o ymwneud â gweithio mewn partneriaeth o'r blaen;
- yn medru gweithio gydag eraill yn gymharol hawdd (h.y. ddim wedi eu hynysu yn ddaearyddol); ac
- yn gweld manteision posibl gweithio mewn partneriaeth ond nad oeddent wedi 'cymryd y cam' i weithio yn fwy cydweithredol.

8.5 Roedd y Mesur yn annog y darparwyr hynny i ddod yn fwy gweithredol mewn grwpiau cydweithredol yn lleol, gan gyflymu cam y newid. Efallai bod y darparwyr yma wedi gorfod newid eu diwylliant i ymwneud mwy â gwaith cydweithredol, ac am y rheswm hwnnw mae'n debyg eu bod wedi profi'r newid mwyaf.

8.6 Roedd rhai darparwyr, wrth gwrs, eisoes yn cydweithredu i raddau sylweddol. Mae'r Mesur yn cynnig cyfiawnhad dros y penderfyniadau strategol yr oeddent wedi eu gwneud yn y gorffennol i frwydro yn erbyn niferoedd oedd yn disgyn yn yr ysgol a sicrhau bod ganddynt ddewisiadau eang ar y cwricwlwm.

8.7 Mae lleiafrif bychan o ddarparwyr eto yn dal i beidio ymwneud yn llawn â threfniadau partneriaeth lleol. Gall peidio cyfrannu fod yn ganlyniad i bryderon logistaidd, o ystyried eu lleoliad gwledig neu'r anawsterau wrth drefnu cludiant addas i leoliadau eraill, neu yn ganlyniad i ffactorau diwylliannol, fel pwyslais academaidd ysgolion neu bryderon Penaethiaid Ysgol am natur gwaith cydweithredol. Gellid dadlau bod y Mesur wedi tynnu rhyw lefel o annibyniaeth oddi ar Benaethiaid Ysgol a rhoi mwy o bwerau strategol i'r awdurdod addysg lleol a Rhwydweithiau 14-19 i wthio'r agenda yn ei blaen.

**Effaith ar y Ddarpariaeth trwy Gyfrwng y Gymraeg**

8.8 Mae'r Mesur wedi cael effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg i wahanol raddau, gan ddibynnu ar eu hanes blaenorol o weithio mewn partneriaeth. Efallai nad yw'r Mesur wedi effeithio ar rai darparwyr cyfrwng Cymraeg oedd â threfniadau cydweithredu eisoes yn eu lle, gan eu bod yn bodloni'r gofynion yn barod. Fodd bynnag mae eraill, nad oeddynt yn cydweithredu cyn hyn, wedi dechrau gwneud hynny.

8.9 Mae'n ymddangos bod ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran defnyddio TGCh a chydweithredu ar draws ffiniau i gynyddu'r dewisiadau ar y cwricwlwm. Defnyddiwyd cynadleddau fideo yn arbennig ond mae'r ymateb cychwynnol iddo wedi bod yn gymysg.

**Enillion Effeithlonrwydd**

8.10 Fe welwyd rhai enghreifftiau o enillion effeithlonrwydd o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth. Mae'r enillion hyn wedi digwydd yn bennaf trwy lai o ddyblygu cyrsiau, neu gyfuno cyrsiau fel yr oedd yn cael ei alw mewn un ardal.

8.11 Fodd bynnag, adroddodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw bod yr enillion effeithlonrwydd a welwyd hyd yn hyn wedi eu gorbwyso gan y costau ychwanegol y maent wedi eu hwynebu wrth ddarparu darpariaeth gydweithredol. Y duedd o ran ateb cydweithredol ar hyn o bryd yw cludo disgyblion rhwng darparwyr, yn hytrach nag athrawon. Gallai cynyddu'r defnydd o athrawon teithiol fod yn un dull o ddarganfod rhagor o arbedion o ran cost.

**Cynaliadwyedd**

8.12 Mae dwy agwedd i gwestiwn cynaliadwyedd: cynaliadwyedd y trefniadau partneriaeth, a chynaliadwyedd y dewisiadau ar y cwricwlwm.

8.13 Gall trefniadau partneriaeth gael eu cynnal trwy gael yr holl Benaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid Colegau yn yr ardal i dderbyn y syniad, yn arbennig o ran y model a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid rhwng y darparwyr 'cartref' a 'gwesteia'. Bydd arweiniad cryf ar y rhwydwaith a threfniadau contract rhwymol hefyd yn helpu i gynnal gweithio mewn partneriaeth.

8.14 Mae cysylltiad clos rhwng cynaliadwyedd y dewisiadau ar y cwricwlwm ag argaeledd cyllid a'r defnydd presennol o'r cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol. Ystyrir bod costau cydweithredu, yn arbennig costau cludo disgyblion rhwng safleoedd, yn uchel iawn. Pan fydd costau ar hyn o bryd yn cael eu talu o arian Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol, mae'r darparwyr yn bryderus pwy fydd yn ariannu'r costau ychwanegol yma pan ddaw'r cyllid Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol i ben.

8.15 Ar hyn o bryd mae partneriaethau yn cyflawni anghenion y Mesur trwy gludo niferoedd sylweddol o ddisgyblion o un darparwr i un arall i gael mynediad at y dysgu, a all fod yn ddrud ac yn gymhleth o ran logisteg. Yn y dyfodol, dylid archwilio dulliau eraill o gyflawni'r peirianwaith ymhellach. Byddai cynyddu'r defnydd o athrawon teithiol yn dwyn y fantais ddeublyg o leihau cludiant myfyrwyr a chynnal athrawon sy'n arbenigwyr yn eu pynciau.

### Y Sialensiau a Wynebir wrth Ddarparu yn Gydweithredol

8.16 Fe wnaeth yr ymchwil ddynodi nifer o sialensiau logistaidd sy'n wynebu Cydlynwyr Rhwydwaith ac aelodau wrth weithio gyda'i gilydd. Mae llawer o'r sialensiau hyn, fel trefnu amserlenni a chludiant, yn rhai y gellir gweithio trwyddynt a bydd atebion yn cael eu canfod wrth i weithio mewn partneriaeth wella dros amser.

8.17 Mae arweiniad cryf i'r rhwydwaith ac ymrwymiad gan y partneriaid i weithio gyda'i gilydd yn ffactorau llwyddiant wrth ddynodi atebion addas.

### Effaith ar Gymorth i Ddysgwyr

8.18 Roedd peth tystiolaeth bod y Mesur wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth cymorth i ddysgwyr. Cyflawnwyd hyn yn bennaf trwy gyflwyno'r swyddogaeth Anogwr Dysgu.

8.19 Gweithredwyd y swyddogaeth Anogwr Dysgu yn wahanol iawn rhwng rhwydweithiau a darparwyr ar draws Cymru. Mae'n ymddangos bod rhanddeiliaid wedi symud y swyddogaeth Anogwr Dysgu ymlaen a'i deilwrio yn ôl eu hanghenion lleol.

8.20 Pan fydd y swyddogaeth Anogwr Dysgu yn un sy'n 'sefyll ar ei thraed ei hun' (h.y. nid oes gan yr Anogwr Dysgu unrhyw gyfrifoldebau dysgu eraill) mae mwy o allu ar gael i'w roi i'r swyddogaeth hon. Mae'r dull hwn yn gweithio yn dda mewn un ardal yn arbennig yn barod, o ran ymdrin â chynnydd myfyrwyr, presenoldeb a'u cyflawniad.

8.21 Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith fydd y swyddogaeth Anogwr Dysgu yn ei chael.

### Argymhellion

### Argymhelliad Un: Gwella Casglu Data Cyrsiau

8.22 Ar hyn o bryd nid yw'r data a gesglir am y dewisiadau ar y cwricwlwm yn cael ei ystyried yn ddigon cadarn i ganiatáu archwiliad manwl.

8.23 Er mwyn gwerthuso effaith y polisi Llwybrau Dysgu yn y tymor hir yn effeithiol, rhaid cael data am y nifer sy'n dilyn cyrsiau sy'n dangos pa gyrsiau sy'n alwedigaethol a pha rai sy'n cael eu cyflwyno tu allan i ysgol y myfyrwyr, ac yn gofyn am gludiant.

**Argymhelliad Dau: Marchnata Cymwysterau Galwedigaethol**

8.24 Mae rhieni yn darparu llawer iawn o gefnogaeth i ddysgwyr, ac eto nid ydynt yn ymwybodol yn aml o fanteision cymwysterau galwedigaethol ac, yn hytrach, maent yn arwain eu plant tuag at gymwysterau traddodiadol, academaidd, ac efallai nad hwn yw'r llwybr mwyaf addas ar eu cyfer. Yn ychwanegol, mae pryder hefyd nad yw Sefydliadau Addysg Uwch yn cydnabod gwerth cymwysterau galwedigaethol.

8.25 Er mwyn goresgyn y rhwystr diwylliannol hwn a newid amgyffrediad rhieni o gymwysterau galwedigaethol, dylid cynnal ymgyrch farchnata genedlaethol wedi ei thargedu ar ddisgyblion a'u rhieni i hyrwyddo eu hygrededd a'u gwerth. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo cymwysterau galwedigaethol fel modd o gynnig y sgiliau addas i bobl ifanc symud ymlaen i waith neu astudiaethau pellach.

8.26 Dylai Sefydliadau Addysg Uwch hefyd gael eu hannog i gydnabod gwerth cyrsiau galwedigaethol.

**Argymhelliad Tri: Annog Awdurdodau Lleol i Ddysgu oddi wrth Arfer Da wrth Weithio mewn Partneriaeth**

8.27 Un ffactor allweddol i lwyddiant rhwydweithiau cryf ac effeithiol yw presenoldeb cryf gan yr awdurdod lleol ar y bartneriaeth. Gall eu harweiniad cryf helpu i ennyn ymlyniad ysgolion a fyddai'n gyndyn i gymryd rhan fel arall. Mae Cydlynwyr Rhwydwaith sydd â phrofiad o weithio mewn ysgolion yn uchel eu parch gan Benaethiaid Ysgol eraill a staff uwch y colegau yn lleol; a gall hyn fod yn gatalydd pwysig i annog gweithio mewn partneriaeth.

8.28 Dylai Llywodraeth y Cynulliad annog awdurdodau lleol, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, i gael presenoldeb cryf ar rwydweithiau lleol. Gall awdurdodau lleol gymryd golwg fwy strategol ar y materion sy'n effeithio ar weithrediad y ddarpariaeth gydweithredol, er enghraifft, trwy annog ysgolion i weithredu'r un amseroedd dechrau a gorffen, a all gael effaith gadarnhaol ar gyflwyno gweithgareddau ar y cyd.

**Argymhelliad Pedwar: Adolygu Effeithiolrwydd y Rôl Anogwyr Dysgu**

8.29 Mae'r swyddogaeth Anogwr Dysgu wedi cael ei symud ymlaen yn rhagweithiol ar draws darparwyr yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol a darparwyr wedi gweithredu'r swyddogaeth Anogwr Dysgu mewn amrywiaeth fawr o ffyrdd i ddiwallu eu hanghenion lleol.

8.30 Bydd gwerthuso effeithiolrwydd gwahanol fodelau o ddarparu Anogwyr Dysgu yn bwysig. Bydd yn caniatáu i Llywodraeth y Cynulliad ddynodi pa fodelau darparu yw'r rhai mwyaf effeithiol yn ymarferol, rhannu arfer da a dynodi pa effaith y mae Anogwyr Dysgu wedi ei gael ar ddewisiadau pobl ifanc.

# ATODIAD A

# PAPUR DATA DANGOSYDD PERFFORMIAD

# Gwybodaeth ar gyfer
# Gweithredu'r  Mesur Dysgu a Sgiliau:

## Papur Data/Dangosydd Perfformiad

CYNNWYS

Tudalen

| | | |
|---|---|---|
| 1 | CYFLWYNIAD | A1 |
| 2 | ASESU EFFAITH Y MESUR DYSGU A SGILIAU | A2 |
| 3 | ARGYMHELLION | A8 |

ATODIAD: MATERION MANWL YN YMWNEUD Â DANGOSYDDION

## 1) CYFLWYNIAD

a) Mae’r papur hwn yn canolbwyntio ar argaeledd data a dangosyddion perfformiad posibl i gefnogi gwerthuso'r Mesur Dysgu a Sgiliau (y Mesur) yn y dyfodol.

b) O ran dadansoddi data mae rhai cyfyngiadau ar ddyfnder y manylion sydd ar gael ar hyn o bryd oherwydd pryder Llywodraeth Cynulliad Cymru am ansawdd a chysondeb. Yn neilltuol felly nid oes gennym fanylion am y nifer sy’n dilyn darpariaeth alwedigaethol a chydweithredol am y flwyddyn bresennol.

c) Mae Adran 2 o’r adroddiad hwn yn nodi’r dangosyddion yr ydym ni yn teimlo sy’n addas i gefnogi gwerthuso’r Mesur yn y dyfodol.

d) Yn Adran 3 mae rhai argymhellion o ran y camau nesaf i gytuno ar y dull hwn a’i ymwreiddio ymhlith rhanddeiliaid.

e) Mae Atodiad yn cynnig rhestr fanwl o faterion sy’n ymwneud â dangosyddion.

## 2) ASESU EFFAITH Y MESUR DYSGU A SGILIAU

a) Mae peth gwaith datblygu eisoes wedi cael ei gychwyn trwy ddadansoddiad a wnaed gan Susan Full a dangosyddion gan Hilary Griffith. Yn ychwanegol mae awdurdodau lleol/Rhwydweithiau wedi bod yn meddwl yn fwy manwl am ddefnyddio data i fod yn sail i wneud penderfyniadau ac i werthuso effaith newidiadau.

b) Isod rydym yn trafod y canlynol:

   i) Barn ar ddata sy'n deillio o'r brif astudiaeth werthuso;

   ii) Datblygu fframwaith asesu effaith ar gyfer y Mesur.

**Barn ar Ddata yn Codi o'r Brif Astudiaeth Werthuso**

c) Yn ystod yr astudiaeth roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn bryderus am y graddau y gall y data presennol gael ei ddefnyddio i gynnig asesiad llawn o effaith y Mesur yn ddibynadwy: *"nid yw'r grŵp llywio wedi ei ddarbwyllo bod y data yna."* Nid oes ychwaith hyder bod y data sydd ar gael yn gadarn.

d) Ar sail yr ymgynghoriadau, yr asesiad o'r anghenion o ran data, ac adolygiad o'r data a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- mae'r data cychwynnol a gasglwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn rhoi rhyw syniad o raddfa'r dewisiadau ar y cwricwlwm, ond, nid yw'n cynnig digon o fanylion i'n cynorthwyo i ddeall holl hyd a lled y dewisiadau ar y cwricwlwm a'u cynaliadwyedd;
- mynegodd staff Llywodraeth y Cynulliad beth pryder am gysondeb y data o ran dewisiadau cwricwlwm gan nad yw wedi cael ei gasglu trwy broses ystadegol Llywodraeth y Cynulliad (fel sy'n wir am ddata perfformiad dysgwyr). Bydd y broblem hon hefyd yn berthnasol i beth o'r wybodaeth arall a allai gael ei chasglu ar draws y rhwydweithiau ond nad yw'n cael ei chasglu a'i choladu fel rhan o'r system arferol yn awr;
- Mae tystiolaeth o drafodaethau gyda Rhwydweithiau astudiaeth achos yn awgrymu bod mwy o ystyriaeth yn cael ei roi i ddadansoddi data ar lefel Rhwydwaith, ond, efallai bod problemau am gysondeb ar draws y Rhwydwaith. Er enghraifft:

(1) roedd teimlad cryf ymhlith swyddogion y Colegau a'r Awdurdodau Addysg Lleol yn arbennig na ellid mesur effaith y Mesur mewn gwirionedd hyd 2012. Mae'r safbwyntiau eraill yn cynnwys: *"Rydym ni'n meddwl ei bod hi'n hanfodol cael data am bum mlynedd o leiaf i fedru mesur effaith";*

(2) mae problemau hefyd o ran monitro data yn ymwneud â chydweithredu a fydd yn gwneud hyn yn heriol. Yn benodol, pan fydd myfyrwyr yn sefyll arholiad mewn sefydliadau eraill (h.y. ddim yn eu hysgol gartref), mae hyn yn cymhlethu'r data ac yn gofyn i broses o ddadgyfuno ddigwydd. Rydym yn ymwybodol bod gwaith i ymdrin â hyn a'i oresgyn a phroblemau eraill yn mynd yn ei flaen mewn un Awdurdod Addysg Lleol. Mae hyn yn cael ei wneud ar gyfer y tair blynedd diwethaf a fydd mewn gwirionedd yn creu gwaelodlin. Yna mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn bwriadu monitro cynnydd o'i gymharu ag ystod o ddangosyddion allweddol a chymharu'r rhain â'r safle ar y waelodlin a fydd mewn gwirionedd yn caniatáu dyfarniadau ar werth o ran effeithiolrwydd y newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r Mesur:

   i) y nifer sy'n dilyn cyrsiau yn gyffredinol;
   ii) y nifer sy'n dilyn cyrsiau yn ôl sefydliad;
   iii) cyfraddau cwblhau yn ôl pwnc a sefydliad;
   iv) lefelau cyrhaeddiad;
   v) gwerth a ychwanegwyd (ar sail system o raddau a ragwelwyd);
   vi) presenoldeb

**Datblygu Fframwaith Asesu Effaith ar gyfer y Mesur**

e) Mae'r Mesur ei hun yn ddarn penodol iawn o ddeddfwriaeth a ddyluniwyd i gyflawni rhai amcanion a ddiffiniwyd i gefnogi'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 ehangach. Felly, wrth gynllunio dangosyddion perfformiad ar gyfer y Mesur mae'n rhaid i ni fod yn glir am ganlyniadau tymor byr ac effeithiau yn y tymor hirach (Ffigwr 2.1).

f) Mae'r diagram yn disgrifio'r meysydd bras lle mae'n rhaid creu dangosyddion yn ymwneud â'r Mesur a'r Llwybrau Dysgu 14-19, ar hyd y sbectrwm rhwng canlyniadau ac effaith.

**Ffigwr: 2.1: Datblygu Fframwaith Asesu Effaith**

| | **Mesur** | **Llwybrau Dysgu 14-19** |
|---|---|---|
| deilliannau | Cyflawni'r bandiau dewisiadau targed (yn gyffredinol ac ar gyfer darpariaeth alwedigaethol) | |
| | Mwy o ddewis yn cael ei amgyffred a'i ddeall gan bobl ifanc a rheini | |
| | Defnydd mwy effeithiol ar adnoddau | Newid yn y patrymau o ran dewis pynciau, wedi alinio yn nes at ddewisiadau unigol (gan gydnabod cyfyngiadau amserlennu/ adnoddau) |
| | | Pobl ifanc yn fwy ymroddedig i'w dysgu ac yn ei fwynhau |
| | | Pobl ifanc yn cyflawni yn well yn eu dysgu |
| effaith | | Gwneud y mwyaf o botensial pob unigolyn i gyflawni a chyfrannu at gymdeithas |

g) Cynhaliwyd yr ymarfer hwn gan gyfeirio at ddangosyddion meintiol ac ansoddol. Isod rydym yn cyflwyno set o ddangosyddion, yn eu mapio o'u cymharu â'r fframwaith uchod ac yn trafod problemau casglu data a mesur sydd wedi dod i'r golwg o ganlyniad i'r ymchwil hwn.

**Dangosyddion arfaethedig**

h) Mae llawer o'r dangosyddion isod yn bodoli ar hyn o bryd, er y gallai fod yn sialens i rai gael data cyson. Bydd y rhan fwyaf o ddangosyddion yn berthnasol i'r grwpiau oedran 14-16 ac 16-19, er y gall ffynonellau data amrywio.

**Dangosyddion meintiol**

i) **ystod y cwricwlwm a gynigir** o ran y nifer o gyrsiau – (y Mesur)

j) ystod y **cwricwlwm galwedigaethol, cydweithredol a chyfrwng Cymraeg a gynigir** o ran y nifer o gyrsiau – (y Mesur)

k) **y nifer sy'n dilyn y cynnig ar y cwricwlwm** o ran y nifer o gyrsiau a'r nifer o fyfyrwyr

l) y nifer sy'n dilyn **y cwricwlwm galwedigaethol, cydweithredol a chyfrwng Cymraeg** o ran y nifer o gyrsiau

m) **deilliannau** i bobl ifanc (yn CA4 a CA5) ar y cyfan, ar y cyrsiau galwedigaethol, cydweithredol a'r ddarpariaeth Gymraeg

n) **lleihad yn y niferoedd sydd heb fod mewnn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant**

o) **cyrchfannau dysgwyr**

p) **llai o waharddiadau** (oherwydd cwricwlwm mwy perthnasol)

q) **llai o absenoldebau** (oherwydd cwricwlwm mwy perthnasol)

r) nifer a chyfran y **dysgwyr sy'n mynd i mewn i gyrsiau galwedigaethol, cydweithredol a chyfrwng Cymraeg**

s) **bodlonrwydd dysgwyr**

t) nifer o **anogwyr dysgu a hyfforddwyd yn ôl pob darparwr**

u) **effeithiolrwydd o ran cost**

**Dangosyddion ansoddol**

v) y **graddau y mae'r cynnig yn cael ei ddilyn** a'r rhesymau am beidio gwneud hynny (i wirio nad yw oherwydd logisteg annerbyniol)

w) **amgyffrediad athrawon/tiwtoriaid**

x) **a yw'r Mesur yn arwain at lefelau uwch o ran sgiliau** a phobl yn cael swyddi gyda lefelau uwch o ran sgiliau

y) **barn ar effaith gan y rhwydweithiau cyfredol** ee. Fforwm, undebau athrawon a chymdeithasau prifathrawon


z) cynnydd yn **nwyster cydweithredu rhwng darparwyr**

aa) **cyngor a chyfarwyddyd annibynnol** effeithiol

## Mapio'r dangosyddion ar y fframwaith

bb) Er mwyn cael syniad o'r taeniad ar draws y sbectrwm deilliant i effaith ac i egluro'r cydbwysedd rhwng dangosyddion sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r Mesur a'r polisi ehangach, rydym wedi eu plotio ar ffurf diagram (Ffigwr 2.2)

**Ffigwr: 2.2: Dangosyddion Perfformiad yn Ymwneud â Deilliannau ac Effeithiau**




Noder: lliw golau=dangosyddion meintiol, lliw tywyll=dangosyddion ansoddol

cc) Rhestrir yr awgrymiadau eraill ar gyfer dangosyddion yr ydym wedi eu gwrthod isod er mwyn bod yn gyflawn, gydag esboniad pam eu bod wedi eu heithrio:

i) **lleihau'r bwlch rhwng ardaloedd sy'n cynnig y dewis ehangach a'r rhai sy'n cynnig y lleiaf** – efallai bod hyn yn ddyhead ond mae perygl iddo gael ei gyflawni trwy gyfyngu ar ymestyn dewis;

ii) **canfyddiadau arolygon** – er ei fod yn ffynhonnell annibynnol dda ar ansawdd y darparwyr mae'r drefn arolygu newydd yn golygu amseroedd amrywiol, gan gyfyngu ar y gallu i gymharu graddau;

iii) **gostyngiad mewn niferoedd ar lefel 1 a chynnydd mewn niferoedd ar lefel 2**. Nod hyn yw mesur i ba raddau y mae gwell dewis o gyrsiau yn arwain mwy o bobl at ddewis y ddarpariaeth ar lefel uwch. Fodd bynnag, mae'n cymryd bod y man cychwyn i'r holl ddysgwyr yn aros yn gyson dros amser. Hefyd bydd perfformiad ar unrhyw gyrsiau a ddewisir yn bwysig i sefydlu a yw'r dewis yn un cywir, sy'n cael ei gynnwys yn y rhestr;

iv) **ymchwil hydredol i archwilio effeithiau cymryd rhan mewn cyrsiau gwahanol ar ddysgwyr**. Er y byddai hyn yn astudiaeth ymchwil ddiddorol byddai'n anodd cymharu ar draws yr ystod eang o gyrsiau sydd ar gael.

### 3) ARGYMHELLION

a) Dylai'r camau nesaf gynnwys yr elfennau canlynol:

i) ymgynghori gyda'r 22 ardal am eu barn ar y dangosyddion hyn a'r graddau y gall peth data fod ar gael yn lleol;

ii) gwaith mwy manwl i sicrhau bod data cyson ar lefel rhwydwaith ar gael am gostau teithio a chludo dysgwyr;

iii) treialu'r dangosyddion lle mae data ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i lunio gwaelodlin ar gyfer data dros amser;

- bydd peth ar gael o ffynonellau eraill;
- bydd peth ar gael yn ôl-syllol a fydd yn helpu i ddarlunio'r tueddiadau.

iv) ymchwil ychwanegol am rai o'r dangosyddion i brofi sut y gallant weithio yn ymarferol a manylebau manwl.

## ATODIAD: MATERION MANWL YN YMWNEUD Â DANGOSYDDION

| Dangosyddion meintiol | Ffynhonnell | Problemau |
|---|---|---|
| a) **ystod y cwricwlwm a gynigir** o ran y nifer o gyrsiau – (y Mesur) | Data Llywodraeth Cynulliad Cymrugan Gyrfa Cymru ar-lein | Yn ôl parth |
| b) ystod y **cwricwlwm galwedigaethol, cydweithredol a chyfrwng Cymraeg a gynigir** o ran y nifer o gyrsiau – (y Mesur) | Data Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Gyrfa Cymru ar-lein | Nid yw dynodi 'cydweithredol' a 'Chyfrwng Cymraeg' yn glir eto |
| c) **y nifer sy'n dilyn y cynnig ar y cwricwlwm** o ran y nifer o gyrsiau a'r nifer o fyfyrwyr | Data Llywodraeth Cynulliad Cymruo ffurflenni Rhwydwaith | Yn ôl parth |
| d) y nifer sy'n dilyn **y cwricwlwm galwedigaethol, cydweithredol a chyfrwng Cymraeg** o ran y nifer o gyrsiau | Data Llywodraeth Cynulliad Cymru o ffurflenni Rhwydwaith | Nid yw dynodi 'cydweithredol' a 'Chyfrwng Cymraeg' yn glir eto |
| e) **deilliannau** i bobl ifanc (yn CA4 a CA5) ar y cyfan, ar y cyrsiau galwedigaethol, cydweithredol a'r ddarpariaeth Gymraeg | Data Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/document.aspx?ReportId=13371 http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16ed2009/hdw20090528/?lang=cy | |
| f) **lleihad yn y niferoedd sydd heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant** | http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16ed2008/hdw20080729/?lang=cy | |
| g) **cyrchfannau dysgwyr** | http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=3810 | Data ôl-16 ddim yn cael ei gyhoeddi ond maent yn gweithio arno |
| h) **llai o waharddiadau** (oherwydd cwricwlwm mwy perthnasol) | http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2009/hdw200903312/?lang=cy | |
| i) **llai o absenoldebau** (oherwydd cwricwlwm mwy perthnasol) | http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=6893 | |
| j) nifer a chyfran y **dysgwyr sy'n mynd i mewn i gyrsiau galwedigaethol, cydweithredol a chyfrwng Cymraeg** | PLASC/LLWR ôl 16 | Sialensiau dynodi darpariaeth gydweithredol, galwedigaethol a chyfrwng Cymraeg |
| k) **bodlonrwydd dysgwyr** | Tair ffynhonnell bosib yn cael eu nodi ym mhapur Hilary Griffiths:<br>• Data bodlonrwydd dysgwyr o holiaduron Dysgwyr a rhieni | Cwestiynau am gysondeb arolygon (e.e. cwestiynau ac |

| | | |
|---|---|---|
| | • Data bodlonrwydd dysgwyr o gwestiynau grwpiau ffocws dysgwyr<br>• Bodlonrwydd dysgwyr trwy ddefnyddio data gan gynghorau disgyblion/myfyrwyr | amseru)<br>Gall fod yn fwy o ddangosydd ansoddol? |
| l) nifer o **anogwyr dysgu a hyfforddwyd yn ôl pob darparwr** | Data Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| m) **effeithiolrwydd o ran cost** | Cost am bob nod cymhwyster llwyddiannus<br>Costau teithio am bob dysgwr | Cysondeb y wybodaeth o ran costio ac yn arbennig o ran ynysu costau teithio |
| **Dangosyddion ansoddol** | | |
| a) y **graddau y mae'r cynnig yn cael ei ddilyn** a'r rhesymau am beidio gwneud hynny (i wirio nad yw oherwydd logisteg annerbyniol) | Trwy ymchwil ad hoc | |
| b) **amgyffrediad athrawon/tiwtoriaid** | Trwy ymchwil ad hoc | |
| c) **a yw'r Mesur yn arwain at lefelau uwch o ran sgiliau** a phobl yn cael swyddi gyda lefelau uwch o ran sgiliau | Angen olrhain astudiaethau achos unigol | |
| d) **barn ar effaith gan y rhwydweithiau cyfredol** ee. Fforwm, undebau athrawon a chymdeithasau prifathrawon | ymgynghoriadau | |
| e) cynnydd yn **nwyster cydweithredu rhwng darparwyr** | Trwy ymchwil ad hoc, gan gynnwys adolygiad o adroddiadau Estyn | |
| f) **cyngor a chyfarwyddyd annibynnol** effeithiol | Trwy ymchwil ad hoc | |